HYFFORDDIAD

I

Wybodaeth jachusol

O

Egwyddorjon a *Dyledswyddau*

CREFYDD.

Egwyddor i'r Anllythyrennog i ddyſgu darllain.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O P Ph R S T Th U W Y.

a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r ſ s t th u w y.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O P Ph R S T Th U W Y.

a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r ſ s t th u w y.

Y Llafarjaid, neu'r Bogeiljaid.

a e i o u w y.

Yr holl Lythyrennau eraill a elwïr Cydſeiniaid.

ab eb ib ob ub wb yb	ba be bi bo bu bw by
ac ec ic oc uc wc yc	ca ce ci co cu cw cy
ach ech ich och uch wch ych	cha che chi cho chu chw chy
ad ed id od ud wd yd	da de di do du dw dy
add edd idd odd udd wdd ydd	dda dde ddi ddo ddu ddw ddy
af ef if of uf wf yf	fa fe fi fo fu fw fy
aff eff iff off uff wff yff	ffa ffe ffi ffo ffu ffw ffy
ag eg ig og ug wg yg	ga ge gi go gu gw gy
ang eng ing ong ung wng yng	ha he hi ho hu hw hy
al el il ol ul wl yl	la le li lo lu lw ly
all ell ill oll ull wll yll	lla lle lli llo llu llw lly
am em im om um wm ym	ma me mi mo mu mw my
an en in on un wn yn	na ne ni no nu nw ny
ap ep ip op up wp yp	pa pe pi po pu pw py
aph eph iph oph uph wph yph	pha phe phi pho phu phw phy
ar er ir or ur wr yr	ra re ri ro ru rw ry
as es is os us ws ys	ſa ſe ſi ſo ſu ſw ſy
at et it ot ut wt yt	ta te ti to tu tw ty
ath eth ith oth uth wth yth	tha the thi tho thu thw thy

BRITISH MUSEUM 30 60 MAY

HYFFORDDIAD

I Wybodaeth jachuſol o

EGWYDDORJON a DYLEDSWYDDAU

CREFYDD:

SEF,

HOLIADAU ac ATTEBION Yſgrythurol

Ynghylch yr ATHRAWJAETH a gynhwyſir

Yng Nghatecism yr Eglwys.

Angenrheidjol i'w dyſgu gan HEN a JEUAINGC.

Y BUMMED RAN.

YN CYNNWYS

Eglurhâad Yſgrythurol a Mawl o *Nàtur* a *Diben* y DDAU SACRAMENT, a'r *Dyledſwyddau* a berthyn *iddunt*; ac o *Sylwedd* a *Rhagoriaeth* y CYFAMMOD GRÂS, o ba un y maent yn *Seliau cyſſegredig*.

Ynghyd ag

Addyſg fuddjol ynghylch y *jawn Arferiad* a'r *Lês* o *honunt*; a *Pherygl* y rhai a'u dirmygant.

Angenrheidjol i'w ddarllain gan bawb a ewyllyſio fod yn gywir yn eu *Proffes*, yn ddiryſyg yn eu *Gobaith*, ac yn *Gymmunwyr teilwng* yn SWPPER YR ARGLWYDD.

Gan WEINIDOG o EGLWYS *LOEGR*.

COR. xi. 29. Canys yr hwn ſydd yn bwyta ac yn yfed yn annheilwng, ſydd yn bwyta ac yn yfed bernedigaeth iddo ei hun, am nad yw yn jawnfarnu Corph yr Arglwydd.

BRITISH MUSEUM
30
60
MAY

HYFFORDDIAD

I

WYBODAETH jachuſol

O

EGWYDDORJON a DYLEDSWYDDAU

CREFYDD.

Y BUMMED RAN.

Cweſtiwn.

BETH a ddylech lafurio am dano, yn bennaf, er Lles i chwi eich hun?

Atteb. Mi a ddylwn lafurio 'n bennaf, am y Jechydwriaeth a brynodd Criſt i 'm Henaid; heb yr hyn ni ddichon dim ſod yn lleſiol i mi.—— Math. xvi. 26. *Canys pa lesâad i ddŷn, o's ynnill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun?*

Cw. Ym mha fodd y 'ch gwneir yn gyfrannog o'r Jechydwriaeth ſydd yng Nghriſt?

Att. Trwy Fendith Dduw ar y Moddjon o Râs a ordeiniodd Criſt i 'w Bobl i 'r diben hynny; ſef, *Gair Duw*, a *Gweddi* *, a 'r *Sacramentau.*

Cw. Beth yw 'r *Sacramentau*?

Att. Sacramentau yw 'r Ordinhadau cyſſegredig a appwyntiodd Duw yn arwyddjon gweledig er adeiladaeth i 'w Bobl, na 's dichon neb eu hordeinio ond Duw ei hun. —— Eſay vii. 14. *Yr Arglwydd ei hun a ddyry i chwi arwydd.*

* *Cw.* I ba ddiben yr ordeiniodd Duw Sacramentau?

Att. 1. Fe ordeiniodd Duw Sacramentau, yn arwyddjon o bethau ysbrydol, er mwyn eu gwneuthur yn eglurach i 'n dyall ni. *Gal.* iii. 1. *Zech.* xii. 10. *Ecſod.* xii. 26, 27. xxiv. 8.

2. Fe ordeiniodd Duw y Sacramentau, i ddwyn pethau ysbrydol ar gôf i ni, ac i gynnal coffa o honunt yn ei Eglwys ef. 1 *Cor.* xi. 20.

3. Fe ordeiniodd Duw y Sacramentau, i gryfhâu ein Ffydd ni, er ychwaneg o ſicrwydd i ni am y pethau y mae Duw yn addaw. *Joan* vi. 27.

4. Fe ordeiniodd Duw y Sacramentau, i ſicrhâu y Rhwymedigaeth ſydd arnom i ſod yn ffyddlon yng Nghyfammod Duw. —— Ezec. xx. 37. — *Dygaf chwi i rwym y cyfammod.* Rhuf. iv. 11. Neh. ix. 38. x. 29. Gen. xvii. 7, 10, 11.

5. Fe ordeiniodd Duw y Sacramentau, i rwymo ei Bobl ef i fyw mewn Cariad ac Undeb heddychol â 'i gilydd. 1 *Cor.* x. 17. xii. 13.

6. Fe ordeiniodd Duw y Sacramentau, er ychwaneg o Wybodaeth ac Addyſg i 'w Bobl: canys ſe ddylid amlygu arwyddocâad y Sacramentau yn ôl Athrawjaeth Gair Duw. *Ecſod.* xii. 26, 27. xiii. 14, 15.

7. Fe ordeiniodd Duw y Sacramentau, i wahaniaethu rhwng y rhai ſo 'n arddel Duw, ac eraill â ſo 'n ei wrthod ef. *Gen.* xvii. 10. *Ecſod.* xii. 22, 23.

Cw. Pa beth ychwanag y ddylech yſtyriaid ynghylch Sacramentau?

Att. 1. Nad oes i neb weini 'r Sacramentau a ordeiniodd Duw yn ei Eglwys, ond y cyfryw yn unig a alwyd yn gyfreithlon i Swydd y Weinidogaeth. —— Hebr. v. 4. *Nid yw neb*

* Fe roddir Hyfforddiadau ynghylch jawn Arferiad o Air Duw, mewn Llyfr bychan a elwir *Cyngor Rhâd*; ac ynghylch Gweddi, yn *Esboniad Gweddi 'r Arglwydd.*

neb yn cymmeryd yr anrhydedd hwn iddo ei hun, ond yr hwn a alwyl gan Dduw, megis Aaron. 1 Cor. iv. 1.

2. Mai nid trwy effaith naturiol y Sacramentau eu hunain, na thrwy deilyngdod y rhai fy'n eu gweini, ond trwy Fendith Dduw y maent yn fuddiol i ni. —— 1 Cor. iii. 7. *Nid yw yr hwn fydd yn plannu ddim, na'r hwn fydd yn dyfrhau; ond Duw, yr hwn fydd yn rhoddi y cynnydd.* 1 Cor. xii. 6. 2 Cor. x. 4. Joan vi. 63.

3. Nad yw'r Sacramentau yn effeithiol er fechydwriaeth i bawb a'u harferant: canys rhai o'r dynion a wrthodir gan Grift yn Nydd y Farn, a ddywedant, *Ni a fwytaſom ac a yfaſom yn dy wydd di.* A *Simon Magus* a fedyddiwyd; yr hwn ydoedd, er hynny, mewn *rhwymedigaeth anwiredd, a buſtl chwerwder.* Luc xiii. 26. Act. viii. 13—23.

Cw. Pa fodd nad yw'r Sacramentau yn effeithiol er fechydwriaeth i bawb a'u harferant?

Att. 1. O blegid nad yw pawb a arferant y Sacramentau yn ymroddu i fyw yn ôl Gair Duw, i gyflawnu Ammodau'r Cyfammod: canys nid yw sêl yn ficrhau dim, ond yn ôl y cyttundeb a felier. —— Rhuf. ii. 25. *Enwaediad yn wir a wnâ lês, o's cedwi y ddeddf: eithr o's troſeddwr y ddeddf ydwyt, aeth dy enwaediad yn ddienwaediad.*

2. O blegid nad yw pawb yn derbyn y Sacramentau yn yſbrydol, gyd â difrifwch calon oddi mewn; eithr yn ffurfiol oddi allan, yn ôl y llythyren yn unig. —— Rhuf. ii. 29. — *Enwaediad y galon fydd yn yr yſbryd, nid yn y llythyren.* —— 1 Dim. iv. 8. *I ychydig y mae ymarfer corphorol yn fuddiol.*

3. O blegid nad yw pawb a arferant y Sacramentau yn bobl gyfammodol i Dduw: canys Arwyddion a Seliau'r Cyfammod, yw'r Sacramentau; ag fy'n fuddiol er fechydwriaeth i bawb a ymgyfammodant â Duw mewn gwirionedd, ac a dorrafant eu cyfammod â phechod.

Cw. Pa beth yw *Cyfammod?* ——.

Att. Mae Cyfammod yn gyffelyb i ammodau cyttundeb rhwng dynion, pan font yn ymrwymo â'i gilydd am-ryw beth, na's gallant yn gyfreithlon ei dorri, na thynnu oddi wrtho, na chwanegu atto. *Gal.* iii. 15.

Cw. Pa fawl Cyfammod a wnaeth Duw â dynolryw yng-hylch Bywyd tragywyddol?

Att. Dau.

1. Duw a wnaeth Gyfammod o Weithredoedd ag *Adda* yn ôl ei grëu, ac â'i holl hiljogaeth naturjol yn ei lwynau ef, am fywyd ar yr ammod neu'r gofynniad o Ufudd-dod perffaith; yr hwn a dorraſom ni oll yng Nghwymp *Adda*. Gen. ii. a'r iii. ben.

2. Duw a doſturiodd wrth gyflwr truenus dyn ar ôl ei gwymp, ac a wnaeth Gyfammod newydd o Râs, â Chriſt, yr ail *Adda*, ac â ni trwyddo ef, am fywyd drachefn; ac ni's gadawödd ni dan farn o gondemniad yn ddiobaith. *Gal.* iii. 16. *Eſay* xlii. 6, 7. xlix. 8.

Cw. Pa ffordd y torrodd *Adda*'r Cyfammod Gweithredoedd?

Att. 1. Trwy anufudd-dod i'r Gorchymmyn pennodol a roddaſai Duw iddo, Na fwytâi o ffrwyth pren gwybodaeth da a drwg. *Gen.* iii.

2. Trwy anufudd-dod i'r Gyfraith Foeſol, a'ſgrifennodd Duw yn ei gàlon ef; ſef, y Deg Gorchymmyn, a'ſgrifennwyd wedi hynny ar ddwy lech: canys pan fwytaodd *Adda* y ffrwyth gwaharddedig, efe a droſeddodd yn erbyn yr holl Gyfraith. —— Jago ii. 10. — *Yr hwn a ballo mewn un pwngc, y mae efe yn euog o'r cwbl.*

Cw. A ddarfu i holl ddynolryw, a ddaeth o lwynau *Adda* trwy genhedliad naturjol, dorri'r Cyfammod Gweithredoedd?

Att. Do: canys heb law i ni, lawer gwaith, ac mewn llawer ffordd, dorri'r Cyfammod Gweithredoedd, trwy'n haml droſeddau ein hunain, nyni a fyrthiaſom oll yn *Adda*, a chyd ag ef, yn y troſedd cyntaf. —— Rhuf. v. 19. *Trwy un dyn y gwnaethpwyd llawer yn bechadurjaid.*

Cw. A ddichon neb o hiljogaeth naturjol *Adda* fod yn gadwëdig trwy'r Cyfammod Gweithredoedd?

Att. Na ddichon. O blegid,

1. Ein bod ni oll wedi pechu yn *Adda*; ac felly yn amhoſſibl i ni fod yn gadwëdig trwy'r Cyfammod fy'n gofyn Ufudd-dod dibechod. —— Rhuf. iii. 20. *Am hynny trwy weithredoedd y ddeddf ni chyfiawnhëir un cnawd yn ei olwg ef.* Gal. iii. 11. Sal. xiv. 2, 3.

2. Mae'n holl nàtur wedi ei flygru trwy'r Cwymp, fel nad allwn ymattal rhag torri'r Cyfammod Gweithredoedd mewn amryw ffyrdd beunydd. —— Preg. vii. 20. *Canys nid oes dyn cyfiawn ar y ddaear, a wnâ ddaioni, ac ni phecha.* 1 Joan i. 8. Jago iii. 2.

Cw. A

Cw. A ddaw dim Llês i chwi oddi wrth Gyfraith y Cyfammod Gweithredoedd dan y Cyfammod newydd?

Att. Er na's gallaf gael Bywyd tragywyddol trwy 'r Cyfammod Gweithredoedd, etto mae Cyfraith y Cyfammod hwnnw, ſef y Gyfraith Foeſol, neu 'r Deg Gorchymmyn, yn ſuddjol i lawer o ddibennion angenrheidjol.

Cw. I ba ddiben angenrheidjol y mae Cyfraith y Cyfammod Gweithredoedd yn ſuddjol i ni yn awr?

Att. 1. Mae 'r Gyfraith yn Rheol o 'r *Sancteiddrwydd perffaith* y dylem ni ymdrechu yn ei ôl; er na's gallwn mo'i gyflawn gyrhaeddyd tra ſyddom yn y cnawd: megis y mae Duw yn goſod ei Berffeithrwydd ei hun yn Eſampl o flaen ei Blant; er na 's gallant fod mor berffaith a Duw, ond cyffelyb iddo. —— Math. v. 48. *Byddwch chwi gan hynny yn berffaith, fel y mae eich Tâd yr hwn ſydd yn y nefoedd yn berffaith.*

2. Mae 'r Gyfraith yn ſuddjol i ddangos pa fath ydym, a pha un a ydyw ein bucheddau yn gyttun ag Ewyllys Duw, neu 'n wrthwyneb iddo. Rheol unjon a ddengys ein gŵyrni, a llathed gywir a ddengys pa faint yw 'r meſur yn rhy fyr. *Eſay* viii. 20.

3. Mae 'r Gyfraith yn ſuddjol i ddeffrôi y rhai a arhoſant yn eſmwyth dan y Cyfammod Gweithredoedd: canys y mae Deddf y Cyfammod hwnnw yn melldithio ac yn damnio pob troſeddwr o hono. —— Gal. iii. 10. *Canys cynnifer ag y ſy o weithredoedd y ddeddf, dan felldith y maent: canys 'ſgrifennwyd, Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a 'ſgrifennir yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt.*

4. Mae 'r Gyfraith, trwy 'r bygythion ſydd ynddi, yn ſuddjol i yrru pechadurjaid at Griſt dan y Cyfammod Gràs. Taranau dychrynllyd mynydd *Sinai* a barodd i bobl *Iſräel* ddeiſyf cael *Moſes* yn gyfryngwr rhyngddunt a Duw. —— Gal. iii. 24. *Y ddeddf gan hynny oedd ein hathro ni at Griſt, fel y'n cyfiawnhäid trwy ffydd.*

5. Mae 'r Gyfraith yn Gyfarwyddiad buddjol i 'r Ffyddlonjaid, o 'r Ufudd-dod Efangylaidd ſy ddyledus i Dduw a Chriſt dan y Cyfammod Gràs; heb ba un ni's gallwn fod yn eiddo Criſt. —— Hebr. v. 9. — *Efe a wnaethpwyd yn Awdur jechydwriaeth dragywyddol i'r rhai oll a ufuddhâant iddo.* Math. v. 17. Rhuf. iii. 31.

Gof. Beth yw 'r Ammod neu Ofynniad y Cyfammod Grâs?

Att. Ffydd yn gweithredu Edifeirwch ac Ufudd-dod newydd. Canys,

1. Be gynhwyfir Gofynniad y Cyfammod Grâs yn gyffredin yn yr un gair hwn, *Ffydd*; hynny yw, Gallu Duw yn gweithio ynnom i gredu a derbyn Crift, fel y byddom yn Blant i Dduw trwyddo ef. —— Joan i. 12. *Cynnifer ag a'i derbyniafant ef, efe a roddes iddunt allu i fod yn feibion i Dduw, fef i'r fawl a greddant yn ei Enw ef.*

2. Mae'r Ffydd a ofynnir yn y Cyfammod Grâs, yn gweithio ynnom i geifio'r Arglwydd, gyd â Thriftwch duwiol, a gwîr Edifeirwch. —— Jer. l. 4, 5. — *Dangerdded ac wylo yr ânt, ac y ceifiant yr Arglwydd eu Duw. Hwy a ofynnant y ffordd i Sion; tu ag yno y bydd eu hwynebau hwynt: Deuwch, meddant, a glynwn wrth yr Arglwydd, trwy gyfammod tragywyddol, yn hun nid anghofir.*

3. Mae'r Ffydd a ofynnir yn y Cyfammod Grâs, yn gweithio ynnom Ufudd-dod newydd i Orchymmynnion Duw. —— Dad. xxii. 14. *Gwyn eu byd y rhai fy'n gwneuthur ei orchymmynnion ef, fel y byddo iddunt fraint ym mhren y bywyd.*

Gov. Pa wahaniaeth fydd rhwng yr Ufudd-dod newydd a ofynnir yn y Cyfammod Grâs, a'r Ufudd-dod a ofynnir yn y Cyfammod Gweithredoedd?

Att. 1. Nid yr un fath Ufudd-dod a ofynnir yn y ddau Gyfammod: canys Ufudd-dod perffaith, llwyr ddibechod, a ofynnir yn y Cyfammod Gweithredoedd; eithr fe dderbynier Ufudd-dod gwirioneddus yn gymmeradwy trwy Grift yn y Cyfammod Grâs, er fod diffyg ac ammherffeithrwydd lawer ynddo.

2. Nid yn yr un modd y mae cyflawnu Ufudd-dod y ddau Gyfammod. Yr oedd *Adda* i roddi Ufudd-dod perffaith dan y Cyfammod Gweithredoedd trwy ei nerth naturiol ei hun, a gafodd efe gan Dduw yn ei greadigaeth; eithr yr Ufudd-dod a ofynnir yn y Cyfammod Grâs, á gyflawnir trwy'r Grâs goruwchnaturiol a roddir i ni trwy'r Arglwydd Jefu. *Phil.* iv. 13.

3. Nid i'r un diben y gofynnir Ufudd-dod yn y ddau Gyfammod: canys diben Ufudd-dod y Cyfammod Gweithredoedd, oedd, cael Cyflawnhâad trwyddo ger bron Duw;

ſef, trwy weithredoedd yn unig; eithr dïben Ufudd-dod y Cyfammod Grâs, yw, bod o hono yn effaith, ac yn ffrwyth, a thyſtiolaëth o'n Ffydd, trwy'r hyn y'n cyſiawnhëir ger bron Duw yng Nghriſt: a hyn yw Swm Gorchymmyn yr Efengyl. —— 1 Joan iii. 23. *Hwn yw ei orchymmyn ef, Gredu o honom yn Enw ei Fâb ef Jeſu Griſt.* —— Gal. iii. 6, 11. *Megis y credodd Abraham i Ddduw, ac y cyfrifwyd iddo yn gyſiawnder. Ac na chyſiawnhëir neb trwy'r ddeddf ger bron Duw, eglur yw: o blegid, Y cyſiawn a fydd byw trwy ffydd.*—— Jago ii. 20. *Eithr a fynni di wybod, O ddyn ofer, am ffydd heb weithredoedd, mai marw yw?*

Cw. Pa ham yr ydych yn ei àlw yn Ufudd-dod *newydd?*

Att. 1. O herwydd ei fod yn tarddu oddi wrth Fywyd newydd yn yr Enaid, ag nid oedd ynddo o'r blaen. — Eph. ii. 1. *A chwithau a fywhaodd efe, pan oeddych feirw mewn camweddau a phechodau.*

2. O herwydd ei fod yn dyfod oddi wrth Egwyddor newydd; ſef, Serch duwjol a Chariad i Dduw. —— 2 Cor. v. 14. *Canys y mae cariad Criſt yn ein cymmell ni.*

3. Mae'n Ufudd-dod a gyflawnir mewn modd newydd; ſef, yn ysbrydol, a thrwy Ffydd yng Nghriſt; nid yn ffurfiol, ac yn hunanhyderus. —— Rhuf. vii. 6. — *Fel y gwaſanaethem mewn newydd-deb ysbryd, ac nid yn hender y llythyren.* Rhuf. xiv. 23.

Cw. Pa fodd y mae hwn yn Gyfammod Grâs; hynny yw, yn rhâd, neu'n gwbl ddihaeddiant; gan fod Gofynniad ac Ammodau ynddo?

Att. 1. Yn rhâd ac yn ddihaeddiant y rhoddodd Duw y Cyfammod hwn, a'r cwbl ſydd ynddo. —— *Hoſ.* xiv. 4. Canys Duw a ddywedodd, *Caraf hwynt yn rhâd: canys trôdd fy nîg oddi wrtho.* Rhuf. iii. 24. Math. x. 8. Dad. xxi. 6. xxii. 17.

2. Mae'r Ammod yn rhâd ac yn ddihaeddiant: canys beth y mae Ffydd, neu Gredu, yn haeddu? Ac wele hefyd, mai Duw ſy'n rhoddi Ffydd, ag yw Swm yr Ammod a ofynnir ynddo. —— Eph. ii. 8. *Canys trwy râs yr ydych yn gadwëdig, trwy ffydd; a hynny nid o honoch eich hunain: rhôdd Duw ydyw.* Act. v. 31.

Cw. A ydyw'r Cyfammod Gweithredoedd a'r Cyfammod Grâs yn gyffelyb i'w gilydd mewn dim?

Att. Ydynt, yn y pum peth hyn.

1. Yr un yw Awdwr y ddau Gyfammod; ſef, Duw.

2. I'r un diben y mae'r ddau Gyfammod; ſef, er Gogoniant i Dduw.

3. Ynghylch yr un peth, ſef am Fywyd, y mae'r ddau.

4. Mae pob un o'r ddau yn ein rhwymo i ddilyn Sancteiddrwydd.

5. Maent yn gyffelyb yn eu Rhannau: canys y mae Addewidjon, Gofynniadau, a Bygythion, yn perthyn i bob un o'r ddau. *Jer.* xi. 3. xxxiv. 18, 20.

Cw. Ym mha beth mae'r Cyfammod Gweithredoedd a'r Cyfammod Grâs yn gwahaniaethu?

Att. 1. Fe wnaed y Cyfammod Gweithredoedd o flaen y Cwymp, cyn i *Adda* bechu, am barhâad o'r bywyd oedd ganddo; ond ar ôl y Cwymp, yr amlygwyd y Cyfammod Grâs, am adferiad o fywyd ar ôl ei golli. *Gen.* ii. ar iii. ben.

2. Y Cyfammod Gweithredoedd a wnaeth Duw ag *Adda* a'i hâd naturjol, a'r Cyfammod Grâs a wnaethpwyd â Chriſt a'i hâd ysbrydol; ſef, cynnifer a dderbyniant ei Râs ef i gredu ynddo. *Rhuf.* v. 17, 18.

3. Ufudd-dod perffaith dibechod, oedd Ammod neu Ofynniad y Cyfammod Gweithredoedd; a Ffydd yn gweithio Ufudd-dod Efangylaidd, yw Gofynniad y Cyfammod Grâs. *Eph.* ii. 8. *Act.* xvi. 31.

4. Trwy gyfiawnder dŷn ei hun, yr oedd ei gyfiawnhâad ef yn y Cyfammod Gweithredoedd; ond trwy Ffydd yng Nghriſt, y'n cyfiawnhëir ni yn y Cyfammod Grâs. *Gal.* iii. 11. *Rhuf.* iii. 22, 23, 28. 2 *Cor.* v. 21.

5. Yr oedd y pechod lleiaf yn torri'r Cyfammod Gweithredoedd, ac yn fforffettu'r cwbl; eithr ni ddichon dim ein torri oddi wrth y Cyfammod Grâs, ond parhâu yn ddiffydd ac yn annychweledig. *Gal.* iii. 10.

6. Nid oedd Maddeuant byth, yn y Cyfammod Gweithredoedd, am y pechod lleiaf; eithr y mae Maddeuant rhâd diddannod am yr holl bechodau mwyaf, yn y Cyfammod Grâs, i'r neb a gretto. *Act.* xiii. 38, 39.

7. Yr oedd dŷn yn rhwym wrtho ei hun, yn y Cyfammod Gweithredoedd; ond y mae Criſt yn Fechnân ac yn Gyfryngwr gennym, a'r Ysbryd Glân yn gymmorth i ni, yny Cyfammod Grâs. *Hebr.* vii. 22. ix. 15. *Gal.* iii. 14.

8. Cyfiawn-

8. Cyfiawnder Duw a ddangoſir allan yn bennaf yn y yfammod Gweithredoedd; ond y mae efe yn dangos ei rugareddau a'i Gariad yn bennaf, ac ynghyd â hynny ei yfiawnder hefyd, yn y Cyfammod Grâs. *Joan* iii. 16. *Joan* iv. 9, 10.

9. Yr oedd Cadwëdigaeth dŷn yn ſefyll yn gwbl ar ei w ei hun, yn y Cyfammod Gweithredoedd; ond y mae uw yn cymmeryd gofal ein Jechydwriaeth, mewn modd wëdigol, yn y Cyfammod Grâs. *Jer.* xxxii. 40. *Joan* 27—29.

10. Bywyd anfarwöl ym Mharadwys, oedd Addewïd y yfammod Gweithredoedd; ond Bywyd gogoneddus yn y efoedd, a addewïr yn y Cyfammod Grâs. *Joan* x. 10.

Cw. Pa lun y gwnaethpwyd y Cyfammod Grâs?

Att. Pan welodd Duw, yn ei Ragwybodaeth dragywyddol, oll hiljogaeth naturjol *Adda* yn golledig, trwy drofedd y yfammod Gweithredoedd, fe welodd fod yn dda i roddi rift ei Fâb yn Gyfammod newydd, ac i gyfammodi ag ef, thrwyddo ef, â'i Bobl; i roddi iddunt Râs a Bywyd rachefn, pan oeddynt i gŷd yn golledig. —— Eſay xlii. 6. *Myfi'r Arglwydd a'th elwais mewn cyfiawnder, ac ymaflaf n dy law; cadwäf di hefyd, a rhoddaf di yn gyfammod obl, ac yn oleuni cenhedloedd.* —— Sal. lxxxix. 3, 28. *wneuthym ammod â'm hetholedig. Cadwäf iddo fy nhru- aredd yn dragywydd; a'm cyfammod fydd ſicr iddo.* Eph. i. 11. Zech. vi. 12, 13. Eſay xlix. 8.

Cw. Ym mha yſtyr y mae Criſt yn Gyfammod i ni?

Att. 1. Criſt yw'r Sylfaen ar ba un y lluniwyd y Cyfam- od Grâs. —— 1 Cor. iii. 11. *Sylfaen arall ni's gall neb ei ſod, heb law yr un a oſodwyd, yr hwn yw Jeſu Griſt.*

2. Criſt yn unig, yn ein nàtur ni, a gwbl-gyflawnodd y yfammod Gweithredoedd drofom. —— Rhuf. viii. 4. *Fel cyflawnid cyfiawnder y ddeddf ynnom ni, y rhai ydym yn hodio, nid yn ôl y cnawd, eithr yn ôl yr ysbryd.*

3. Criſt a dalodd Jawn gogoneddus i Gyfiawnder Duw am in trofedd ni, trwy offrymmu ei hun yn Jawn drofom; fel gwelid Cyfiawnder Duw, megis ei Drugaredd ef, yn y laddeuant o'n pechodau ni. —— Rhuf. iii. 25. *Yr hwn a ſodosdd Duw yn jawn, trwy ffydd yn ei waed ef, i ddangos i gyfiawnder ef, trwy faddeuant y pechodau a wnaethid o'r laen, trwy ddioddefgarwch Duw.* Eſay xlii. 21.

4. Trwy

4. Trwy Grist yr arfaethodd Duw ein galw i'r Cyfammod hwn, ac i roddi i ni Râs i'n hachub trwyddo. —— 2 Dim. i. 9. *Yr hwn a'n hachubodd ni, ac a'n galwödd â galwëdigaeth ſanctaidd; nid yn ôl ein gweithredoedd ni ond yn ôl ei arfaeth ei hun a'i râs, yr hwn a roddwyd i ni yng Nghriſt Jeſu, cyn dechrau'r byd.*

5. I Griſt y gwnaeth Duw Addewïdjon y Cyfammod Grâs; a thrwyddo ef y rhoddir hwynt i ni. —— Gal. iii. 16. *I Abraham y gwnaethpwyd yr addewïdjon, ac i'w hâd ef. Nid yw yn dywedud, Ac i'w hadau, megis am lawer; ond megis am un, Ac i'th hâd di, yr hwn yw Criſt.* 2 Cor. i. 20.

6. Criſt ſydd yn ein bywhâu ni i ymaflyd yn y Cyfammod hwn, ag ydym wrth nàtur yn farw mewn pechod. —— 1 Cor. xv. 22, 45. *O blegid megis yn Adda y mae pawb yn meirw, felly hefyd yng Nghriſt y bywhëir pawb. Felly hefyd y mae yn'ſgrifennedig, Y dyn cyntaf Adda a wnaed yn enaid byw, a'r Adda diweddaf yn ysbryd yn bywhâu.*

7. Criſt yw'n holl Nerth i gadw'r Cyfammod. —— Sal. lxxxix. 19. Duw a ddywedodd, *Goſodais gymmorth ar un cadarn: dyrchefais un etholedig o'r bobl.* Eſay xxvi. 12. Hoſ. xiv. 18. Phil. iv. 13.

8. Criſt yw'r Gwreiddyn, oddi wrth ba un y mae Breintjau'r Cyfammod yn dyfod: Efe yw Angel y Cyfammod ſy'n gweini ynddo, a Chyfryngwr y Cyfammod ſy'n dyfod â ni at Dduw; ac efe yw Mechniydd y Cyfammod am gyflawniad ſiêr yr Addewïdjon a'r Ammodau o hono. *Dad.* xxii. 16. *Mal.* ii. 1. 1 *Dim.* ii. 5. *Hebr.* ix. 15. vii. 22.

9. Cyflawnder yr holl Drugareddau a'r Bendithion a gynhwyſir yn y Cyfammod, yw Criſt. —— Col. ii. 9. *O blegid ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preſwylio yn gorphorol.* Col. i. 19. iii. 11. Joan i. 16. iii. 35.

10. Criſt yw ein Pen ysbrydol, yn y Cyfammod Grâs; megis yr oedd *Adda* yn ben naturjol, yn y Cyfammod Gweithredoedd: ac megis y derbyniaſom lygredigaeth, ag ſy'n tywys i bechod, a marwölaeth, oddi wrth *Adda*, ein pen naturjol, yn y Cyfammod Gweithredoedd; felly y derbyniwn gynnydd Grâs, i'n tywys i Sanctteiddrwydd a Bywyd, oddi wrth Griſt, yn ail *Adda*, a'n Pen ysbrydol. —— *O'r hwn y mae yn holl gorph, trwy'r cymhalau a'r cyſſylldiadau*

n, yn derbyn lluniaeth, ac wedi ei gydgyſylldu yn cynnyddu an gynnydd Duw. Col. ii. 19. Eph. iv. 15, 16.

Cw. Pa ham y rhoddwyd Criſt yn Gyſammod i ni?

Att. 1. Am mai Cyfammod tragywyddol yw efe, a drefnodd Cariad ac Arfaeth tragywyddol Duw, cyn i ddynolryw fael bôd na bywyd; ac felly nad oedd neb, y pryd hynny, ond Criſt i roddi Addewïd y Cyfammod iddo. —— Dit. i. 2. —*Yr hon a addawïdd y digelwyddog Dduw cyn dechrau'r byd.* 2 Dim. i. 9. Jer. xxxi. 3. Hebr. xiii. 20.

2. Wedi creu dynolryw, a ſyrthio, nid oedd ddŷn byw i gyfammodi ag ef, ond Criſt: canys dynolryw a aethant yn eirw mewn camwedd a phechod; ac nid â'r meirw yr oedd weddus i Dduw gyfammodi. *Eph.* ii. 1. *Col.* ii. 13.

3. Nid oedd neb ond Criſt yn abl i gyflawnu Gofynniad y Cyfammod; ſef, i roddi Ufudd-dod i'r Ddeddf, a Jawn am ein troſeddu ni o'r Cyfammod cyntaf. *Hebr.* x. 5. *Eſay* liii. 6, 10, 11. *Rhuf.* v. 19. *Zech.* ix. 11. *Gal.* iii. 13.

4. Fe wnaed y Cyfammod â Chriſt, ac â ni ynddo ef; fel y byddai yn wîr, yn Gyfammod o Râs, a'r cwbl trwy Griſt yn rhâd i ni, er Mawl Gogoniant i Râs Duw, ac i gau allan wâgogoniant ac ymffroſt oddi wrth ddŷn dros byth. —— Eph. ii. 8, 9. *Canys trwy râs yr ydych yn gadwëdig, trwy ffydd; a hynny nid o honoch eich hunain: rhôdd Duw ydyw: Nid o weithredoedd, fel nad ymffroſtiai neb.* Rhuf. iii. 27. 1 Cor. i. 29, 31.

5. Fe wnaed y Cyfammod â Chriſt, ac â ni ynddo ef, er ychwaneg o ſicrwydd i ni am Fywyd tragywyddol: canys ni a gollaſom yr Addewïd oedd yn y Cyfammod Gweithredoedd a wnaethpwyd ag *Adda*; eithr trwy Ffydd yng Nghriſt, y rhoddin i ni ſicrwydd dianwadal o Addewïdion y Cyfammod Grâs. —— Rhuf. iv. 16. *Am hynny o ffydd y mae, fel y byddai yn ôl grâs, ac fel y byddai yr addewïd yn ſicr.* Sal. lxxxix. 21, 22, 28, 29.

Cw. Pa bryd yr amlygwyd y Cyfammod Grâs i ddŷn?

Att. Nid amlygwyd ef yn gwbl ar unwaith, eithr yn raddol, o feſur ychydig ac ychydig.

Cw. Pa bryd y dechreuodd Duw amlygu'r Cyfammod Grâs?

Att. Fe ddechreuodd Boreuddydd y Grâs mawr hwn i wawrio ar ein Rhieni cyntaf yn ebrwydd ar ôl eu Cwymp: canys Duw a fynegodd wrthunt am Griſt; yr hwn yw Swm

y Cyf-

y Cyfammod Grâs. Dywedodd Duw am y ſarph, *Gelynjaeth a oſodaf rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy hâd di a'i hâd hithau: efe a yſſiga dy ben di, a thithau a yſſigi ei ſawdl ef.* Gen. iii. 15.

Cw. Pa fynegaeth ſydd ymma am Griſt?

Att. Fe fynegir ymma dri pheth am Griſt.

1. Ei *Gnawdoliaeth* ef; ſef, y byddai iddo gymmeryd arno y nàtur ddynol, a'i eni o wraig: canys, *Hâd y wraig* y gelwïr ef.

2. Fe fynegir ymma am *Ddioddefaint* Griſt, yn ei nàtur ddynol, dros ein pechodau ni: canys Duw a ddywaid, y byddai i'r ſarph *yſſigo ei ſawdl ef.*

3. Fe fynegir ymma am *Oruchafiaeth* Griſt, y byddai iddo ef *yſſigo pen* y ſarph; ſef, diſtrywio grym a chyfrwyſdra Satan: ac felly y bu. 1 *Joan* iii. 8.

Cw. Pa lun yr amlygodd Duw y Cyfammod Grâs ar ôl hynny?

Att. 1. Duw a gadarnhaodd y Cyfammod Grâs â *Noah*, pan oedd y *Diluw* yn dyfod ar yr hên fyd. *Gen.* vi. 18.

2. Fe amlygodd Duw y Cyfammod Grâs ar ôl hynny yn helaeth i *Abraham*; gan addaw Genedigaeth Griſt o'i lwynau ef, i fod yn Fendith i holl genhedlaethau'r ddaear; ac a roddodd yr *Enwaediad* iddo, yn Sêl o'r Cyfammod. *Gen.* xvii. xxii. 18. *Act.* iii. 25, 26. *Gal.* iii. 8, 9.

3. Duw a adnewyddodd y Cyfammod wedi hynny i bobl *Iſräel*, yn amſer *Moſes*, pan ddaethant allan o wlâd yr *Aipht*; ac a roddod iddunt *Oen y Paſg*, yn Sêl arall o hono. *Deut.* iv. 11—13. xxix. 10, *&c.*

4. Fe amlygodd Duw y Cyfammod yn helaethach eilchwyl, yn amſer y Brenin *Dafydd*; a'r Cyfammod hwn oedd ei holl gyſſur ef, yn ei orjau diweddaf, pan oedd efe yn marw. 2 *Sam.* xxiii. 5.

5. Fe roddodd Ysbryd Duw, trwy'r Prophwydi ar ôl hynny, amlygiad ychwaneg o'r Cyfammod Grâs i bobl *Iſräel*, er cyſſur iddunt yng nghaethiwed *Babilon*. Jer. xxxii. 37, *&c.* Ezec. xxxvi. 22, *&c.*

6. Yng nghyflawnder yr amſer, pan ddaeth Griſt i'r byd, fe amlygwyd y Cyfammod Grâs, yn Athrawjaeth yr Efengyl, yn eglurach nag erioed o'r blaen.

Cw. Ai yr un fath yw'r Cyfammod Grâs yn awr ag oedd efe gynt?

Att. 1.

Att. 1. Mae'r Cyfammod Grâs, yn ei ſylwedd, yr un fath yn awr a phan y rhoddwyd ef gyntaf erioed: Yr un Cyfryngwr Criſt Jeſu, yr un gyffelyb Addewïdjon am Jechydwriaeth, yr un Ammodau o Ffydd ac Edifeirwch, a'r un diben o ddangos golud Grâs Duw i bechadurjaid, ſydd ym mhob Goruchwiliaeth o'r Cyfammod Grâs o'r dechreuad. —— Gal. iii. 15, 17. *Y brodyr, dywedud yr wyf ar wedd ddynol, Cyd na byddo ond ammod dyn, wedi y cadarnhäer, nid yw neb yn ei ddirymmu, neu yn rhoddi atto. A hyn yr wyf yn ei ddywedud, am yr ammod a gadarnhäwyd o'r blaen gan Dduw yng Nghriſt, nad yw y ddeddf oedd bedwar cant a deg ar hugain o flynyddoedd wedi, yn ei ddirymmu, i wneuthur yr addewïd yn ofer.*

2. Er fod Sylwedd ysbrydol y Cyfammod Grâs yr un fath yn awr a chynt; er hynny y mae Goruchwiliaeth neu Weinidogaeth y Cyfammod wedi ei chyfnewid, pan ddaeth Criſt i'r byd. *Hebr.* viii. 6.

Cw. Pa wahaniaeth ſy rhwng Gweinidogaeth neu Oruchwiliaeth y Cyfammod Grâs yn awr, dan y Teſtament Newydd, a Gweinidogaeth y Cyfammod Grâs gynt, dan yr Hèn Deſtament?

Att. Yr ydys yn yr Yſgrythur yn eu galw wrth enwau gwahanol: Canys, fe elwïr y Cyfammod Grâs, dan yr Hèn Deſtament, weithjau'r *hèn Gyfammod*, ac weithjau 'r *Cyfammod cyntaf*; ond y Cyfammod Grâs, yn y Weinidogaeth o hono dan y Teſtament Newydd, a elwïr, weithjau yr *Eſengyl*, weithjau 'r *Addewïd*, weithjau 'r *Teſtament newydd*, weithjau'r *Cyfammod newydd*, weithjau'r *ail Gyfammod*, ac yn *Gyfammod gwell.* —— Hebr. viii. 6. Criſt *a gafodd weinidogaeth mwy rhagorol, o gymmaint ag y mae yn Gyfryngwr cyfammod gwell.*

Cw. Ym mha yſtyr y mae Goruchwiliaeth y Cyfammod Grâs yn well yn awr dan yr Eſengyl, nag yr ydoedd yn yr Eglwys *Juddewïg* gynt?

Att. 1. Mae'r Cyfammod Grâs yn awr yn fwy eſmwyth nâ chynt. Yr oedd gofynniad y pryd hynny am aberthau lawer ac amryw, a llawer o ddyddjau ac wythnoſau cyfain i'w cadw heb law'r Sabbothau, a theithiau pell i *Jeruſalem* deirgwaith yn y flwyddyn, a llawer yn 'chwaneg o ddefodau trafferthus: am hynny y galwyd yr Oruchwiliaeth honno o'r Cyfammod Grâs, yn *Jau caethiwed*; a'r Oruchwiliaeth Efangylaidd,

Efangylaidd, yn *Fau eſmwyth.* Gal. v. 1. Act. xv. t
Math. xi. 29, 30.

2. Mae'r Cyfammod Grâs yn awr yn fwy golau ac egl
nâ chynt, fel y mae'r dydd yn tywynnu yn ddiſgleiriach
ôl codi o'r haul. Cyfgodau tywyll o bethau ysbrydol, oed
yr holl aberthau a'r defodau gynt; a wnaed yn fwy gola
ar Ddyfodiad Criſt, Haul Cyfiawnder, i'r byd. 2 *Cor.* ii
15. *Eph.* iii. 5. 1 *Dim.* i. 10. *Hebr.* viii. 5. x. 1. 1 *Pe*
i. 10, 11. *Dit.* i. 2.

3. Mae'r Cyfammod Grâs yn awr yn fwy helaeth. Ce
edl yr *Fuddewön*, dan eu henw, a gynhwyfid yn yr Oruch
wiliaeth honno; eithr yn awr fe wahoddir pawb i'r Cyfam
mod, a ewyllyfio dderbyn Criſt, o ba genedl bynnag y bön
Marc xvi. 15. *Act.* x. 34, 35. *Rhuf.* iii. 29. ix. 15, 18, 2
Eph. ii. 11—15.

4. Mae'r Cyfammod Grâs yn awr yn fwy ſicr i olwg ei
Ffydd ni. Yr holl bethau a oeddynt hwy yn ddiſgwil gyn
ydynt yn awr wedi dyfod i ben; yr holl Brophwydoljaeth
a'r Cyfgodau cyffelybiaethol a gyflawnwyd yn y Sylwedd
honunt: canys Criſt a ddaeth ac a orphennodd bob peth
berthyn i'n Jechydwriaeth. *Hebr.* ix. 13, 14. 1 *Pedr*
10, 11. *Luc* x. 24.

5. Mae'r Cyfammod Grâs yn cynnwys ynddo yn awr w
Addewidjon nâ chynt; ſef, Addewidjon mwy helaeth, mw
ysbrydol, a mwy eglur am Fywyd tragywyddol, ac am R
a Chyffur dan bwys pechod, ac adfyd, ac ofn angau. *Heb*
viii. 6, 10. 1 *Joan* ii. 1, 2. *Rhuf.* viii. 33.

6. Mae'r Cyfammod Grâs yn awr yn fwy effeithjol a gryn
mus nâ chynt; o blegid fod mwy o Râs ac Ysbryd Duw
gydgerdded ag Ordinhadau'r Efengyl. *Hebr.* vii. 18. *Ga*
iv. 9. *Joan* vii. 38, 39.

7. Mae'r Oruchwiliaeth o'r Cyfammod Grâs yn awr y
fwy parhäus: canys fe newidiwyd yr Oruchwiliaeth gynt, pa
ddaeth Criſt i'r cnawd; ond yr Oruchwiliaeth bresennol
sâf yn yr un modd ag yw, nes delo Criſt i'r Farn. 2 *Co*
iii. 11. *Hebr.* xii. 28.

Cw. Pa ham y newidiwyd Gweinidogaeth y Cyfammo
Grâs er gwell, dan y Teſtament Newydd?

Att. 1. Am nad oedd yr Eglwys gynt ond megis yn
mebyd; a phan ddêl plant i gyflawnder oedran a dyall, y
hysbyfir iddunt fwyaf o gyfrinach ac ewyllys da eu tâd, a
etifeddiaeth a berthyn iddunt: Felly y mae Duw yn da

uddio mwy o Ddirgelwch ei Gariad, a Breintjau mawrion Cyfammod Grâs, i'w Eglwys, dan yr Efengyl, nag o'r blaen. *Gal.* iv. 1—7.

2. Yr oedd yn *angenrhaid* i newid Gweinidogaeth y Cyfammod dan yr Efengyl. Beth a wnaed â'r Cyfgodau gynt, pan ddaeth y Sylwedd o honunt? Ac nid oedd yr un Ordinhadau yn gymmwys i arwyddocâu fod Criſt i ddyfod, ag y'n awr yn arwyddocâu ei fod eſe wedi dyfod. *Hebr.* vii. 12.

3. Yr ydoedd yn addas, pan ddaeth Criſt, y Prophwyd a'r Archoffeiriad mawr, iddo ddyfod gyd â Goleuni ychwaneg ac Offeiriadaeth well nag o'r blaen, er Anrhydedd a Gogoniant iddo. *Hebr.* viii. 6.

Cw. Pa rai yw Priodoliaethau, neu Gynheddfau priodol, y Cyfammod Grâs? *Nb.*

Att. 1. Mae'n Gyfammod *ſanctaidd*; o blegid y mae Sancteiddrwydd yn cyrraedd trwy bob rhan o hono: mae Sancteiddrwydd Duw yn ymddangos yn fawr ynddo, a'i ddiben yw, ſancteiddio pechadurjaid; mae'r holl Ordinhadau, a'r Bobl, a phob peth a berthyn iddo, i gŷd yn ſanctaidd. *Luc* i. 72.

2. Mae'n Gyfammod *goludog a manteiſiol jawn*; canys y mae'n rhoddi hawl yn holl Briodoliaethau Duw, i fod ar ein rhan ac yn ein plaid ni: Mab Duw, i fod yn Ddadleuwr drofom, ac yn Waredwr i ni; Ysbryd Duw, i'n harwain, a'n cymmorth, a'n diddanu; Rhagluniaeth Duw, a'i Angyljon, i edrych am danom; holl Addewidjon Duw, a phob Trugareddau tymhorol, ysbrydol, a thragywyddol, i fod yn Etifeddiaeth i ni: fel na's dichon neb a adwaeno'r Cyfammod, lai nâ dywedud, *Fy holl jechydwriaeth, a'm holl ddymuniad yw.* 2 Sam. xxiii. 5. 1 Cor. ii. 9. iii. 21—23.

3. Mae'n Gyfammod *tragywyddol*, heb derfyn iddo. Oddi wrth Ewyllys da ac Arfaeth dragywyddol Duw y daeth y Cyfammod hwn: Bendithion tragywyddol, Maddeuant tragywyddol, Heddwch tragywyddol, Llawenydd tragywyddol, Jechydwriaeth a Bywyd tragywyddol, a gynhwyſir ynddo. *Saſ.* cxi. 9.

4. Mae'n Gyfammod *Priodas*: o blegid fod yr Undeb agoſaf, a'r Cariad annwylaf, a'r Cymmundeb dirgelaf, rhwng Duw a'i Bobl; ac nad yw pob bai a ffaeledd yn torri'r Cyfammod hwn, na dim all ein hyſgar oddi wrth Dduw, ond godineb ysbrydol; ſef, ymadawiad ein calonnau oddi wrtho.

wrtho. *Math.* xxii. 2. 2 *Cor.* xi. 2. *Hoſ.* ii. 19. *Eſay* lxii. 5.

5. Mae'n Gyfammod *rhâd*; o blegid nad oes ynnom un meſur o haeddiant i ryglyddu 'r fath Drugaredd fawr, na dim elw i Dduw oddi wrthym. Cariad anfeidrol Duw yn unig a drefnodd hyn i ni. —— *Hoſ.* xiv. 4. Duw a ddywedodd *Caraf hwynt yn rhâd: canys trôdd fy nîg oddi wrtho.* Eſay lv. 1—3. Deut. vii. 7, 8. 1 Sam. xii. 22.

6. Mae'n Gyfammod *ſicr*, na 's diddymmir, ac na chyfnewidir byth; fel y gallom yn ddibryder orphwys holl bwyſo ein hyder arno am Fywyd tragywyddol, a phob peth a berthyn iddo. *Eſay* liv. 8—11. *Joan* x. 28, 35.

7. Mae'n Gyfammod *rhagorol*: nid yn unig am ei fod yn rhagori ar y Cyfammod Gweithredoedd, ac ar Weinidogaeth gyntaf y Cyfammod hwn dan yr Hên Deſtament; eithr hefyd yn rhagorach nâ dim a ſedr dŷn ddywedud na dyall amgyffred dano. 1 *Cor.* ii. 9.

Cw. I ba bethau rhagorol y mae 'r Cyfammod Grâs yn gyffelyb?

Att. 1. Mae'n gyffelyb i *Baradwys*, neu *Ardd Eden*, lle'r oedd pob rhyw ffrwythau dymunol yn tyfu, a Phren y Bywyd yn y canol: canys, Ffrwythau peraidd a rhinweddus aneirif ſydd yn y Cyfammod hwn; a Chriſt ein Bywyd, yn Bennaf, ac yn Swm o'r cwbl.

2. Mae'n gyffelyb i *Arch y Cyfammod*; lle'r oedd Llechau'r Ddeddf, y Crochan Manna, a Gwialen *Aaron*, yn blaguro, a'r Drugareddfa a'r Cerubjaid oddi ar hynny: Canys yn y Cyfammod hwn, mae Criſt, fel y Manna, yn Ymborth i 'n Heneidjau; a Gweinidogaeth yr Efengyl, fel Gwialen *Aaron*, yn blaguro; y Gyfraith Foeſol, a 'ſgrifennwyd ar y llechau, yn Rheol o Uſudd-dod i ni; Trugaredd Duw yn Nghriſt, yn gorchguddio 'n troſedd, fel y Drugareddfa oedd ar y llechau; ac Angyljon Duw, fel y Cerubjaid, a'u hadenydd ar led, yn barod i weini i ni. *Hebr.* ix. 4, 5.

3. Y mae'n gyffelyb i *Afon Dwfr y Bywyd*, y dywaid *Dafydd* fod ei *ffrydiau yn llawenhâu dinas Duw*: canys felly mae Grafau a Bendithion, Addewïdjon a Chyffuron y Cyfammod, yn tannu fel Ffrydiau ysbrydol trwy holl Eglwys Duw, i fywhâu a llonni pob Aelod o honi. *Sal.* xlvi. 4. *Dad.* xxii. 1.

4. Mae

4. Mae'n gyffelyb i *Dŵr Libanus*, neu Dryſordy yn llawn golud, a gwiſgoedd, ac arfau: canys, y Cyfammod a lenwïr ag anchwiliadwy Olud Criſt, y Tryſor cuddiedig, i'w rhannu'n rhodd rhwng pechadurjaid; ac yno hefyd y mae gwiſgoedd Jechydwriaeth i'n dilladu, ac arfogaeth Gràs Duw i orchfygu'r gelyn.

5. Mae'n gyffelyb i *Deſtament*, neu Lythyr Cymmun; lle mae'r Teſtamentwr yn rhoddi rhoddion mawrjon lawer, heb hawl gan neb ynddunt, ond trwy gariad ac ewyllys caredigol y rhoddwr yn unig: canys felly mae Criſt, yn ei Deſtament hwn, yn rhoddi, yn ei Ewyllys da, Radau a Bendithion mawrjon, a Theyrnas Neſoedd; a chyd â hynny, yn rhoddi i ni ei Hun hefyd, heb hawl na meddiant gennym o ddim.

6. Mae'n gyffelyb i *Gerbyd* y Brenin *Salomon*, a wnaeth eſe o *goed Libanus, a'i byſt o arjan, ei lawr o aur, ei lenni o borphor, a'i ganol a balmantwyd â chariad i ferched Jeruſalem.* Canys, y Cyfammod Gràs yw Cerbyd y Brenin tragywyddol, i ddwyn adref ei Briod, yr Eglwys, atto ei hun i'r Neſoedd. Mae'r Cyfammod hwn yn barhäus fel coed *Libanus*, yn gryf fel arjan, yn bur fel aur, a thaenelliad Gwaed Criſt fel llenni o borphor ynddo, ac i gyd yn llawn o Gariad. *Can.* iii. 9, 10.

7. Mae'n gyffelyb i *Arch Noah*, ym mha un yr achubwyd ef a'i deulu, pan ddaeth y Diluw i foddi'r byd: canys yn y Cyfammod Gràs yn unig y mae Diogelwch rhag Colledigaeth, ac yr achubir holl Deulu'r Ffydd, pan ddêl y Diluw tanllyd ar holl annuwjoljon y byd yn y Dydd olaf.

Cw. Pa bethau neillduol y mae Duw yn addaw i chwi yn y Cyfammod hwn?

Atr. 1. Mae Duw ei hun yn addaw, bod yn Dduw ac yn Dâd i mi yn y Cyfammod Gràs; ac y bydd eſe yn Dduw i mi yn ei holl Briodoliaethau: ſef, yn Dduw Hollalluog, Hollwybodol, Hollbreſennol; yn Dduw Graſol a Thrugarog i mi, ac yn Dduw Anghyfnewidiol i mi, na's gellir ddiddymmu, na throi ei Galon oddi wrthyf byth. 2 *Cor.* vi. 18. *Jer.* xxxi. 33. xxxii. 40. *Eſay* liv. 10. *Hebr.* viii. 10. *Mal.* iii. 6.

2. Y mae Duw yn addaw Criſt i mi, yn ei holl Berthynaſau, a'i Swyddau, a'i Briodoliaethau, ynghyd â'r holl Ddonjau a bwrcaſodd; i'm cymhwyſo i Gymmundeb â

Duw, ac i Deyrnas Neſoedd. 1 *Cor.* iii. 22, 23. *Sal.* lxviii. 18, 19. *Eph.* i. 3. 1 *Cor.* i. 30.

3. Y mae Duw yn addaw ei Ysbryd Glân, i'm nerthu, a'm cynghori, a'm diddanu; ac i'm hadnewyddu, a'm ſancteiddio oddi wrth fy holl halogrwydd pechadurus, a'm gwneuthur yn ufudd i holl Ewyllys Duw. *Ezec.* xxxvi. 26, 27. *Diar.* i. 23.

4. Mae Duw yn addaw Maddeuant cyflawn o'm holl bechodau; ynghyd â'r holl Freintjau mawrjon eraill ag ſy'n waſtad yn cydgerdded: ſef. *Cyfiawnhâad*, a *Mabwyſiad*, a *dyſodfa hyderus ger bron Duw*, a'r cyffelyb. *Hebr.* viii. 12.

5. Mae Duw yn addaw, y bydd i mi gael fy nghyfraid o bob Trugareddau tymhorol; a derbyn llês, ac nid dim niwaid, oddi wrth drallodau 'r byd: ac yn addaw fy nerthu â'i Râs, i orchfygu pob profedigaethau. *Math.* vii. 33. *Rhuf.* viii. 28. 1 *Cor.* x. 13. 2 *Cor.* xii. 9.

6. Mae Duw yn addaw fy ngwaredu oddi wrth y caethiwed blîn o Ofn Marwölaeth, a Barn y Dydd olaf. *Hebr.* ii. 14, 15. *Rhuf.* viii. 15.

7. Mae Duw yn addaw Bywyd tragywyddol mewn Gogoniant diddiwedd yn y Byd arall. *Joan* iii. 16.

Cw. Beth a ddylech yſtyriaid ychwaneg ynghylch y Cyfammod Gras?

Att. 1. Mi a ddylwn ryſeddu Cariad Duw, yn trefnu Cyfammod mor dda am Fywyd tragywyddol: canys pob un o Berſonau 'r Drindod a wnaethant ran Cariad anfeidrol yn y Cyfammod hwn. Y Tâd a'i lluoiodd; y Mâb a bwrcaſodd Fendithion y Cyfammod; a'r Ysbryd Glân ſy'n eu ſelio ar ein calonnau, ac yn ein dwyn i fod yn gyfrannog o honunt. *Job* vii. 17. *Rhuf.* viii. 31, 32.

2. Mae'n gyfiawn galarus, i fod heb ran yn y Cyfammod Grâs. Pwy na lefai, nad oes iddo ran yn Llythyr Cymmun ei Dâd? Nid oes i 'r rhai ſydd allan o'r Cyfammod ran na chyfran yn neb o Addewidjon Duw, nac mewn dim a bwrcâſodd Criſt: mae porth y Neſoedd ynghau yn eu herbyn, a dinyſtr uwch eu pennau; *heb obaith gandduw, ac heb Dduw yn y byd.* Ac wele, mae Duw hefyd yn eu melldithio hwynt, am wrthod ei Gyfammod ef. —— Jer. xi. 3. —— *Felhyn y dywed Arglwydd Dduw Iſräel; Melldigedig fyddo 'r gêr, ni wrendy ar eirjau 'r cyfammod hwn.* Eph. ii. 12. Dad. xxii. 15.

3. Mi

3. Mi a ddylwn gydnabod, na ddichon neb fod yn Bobl gyfammodol i Dduw, heb ddilyn Sancteiddrwydd: canys Cyfammod ſanctaidd yw efe. —— Sal. l. 16, 17. *Wrth yr annuwiol y dywedodd Duw, Beth ſydd i ti a ſynegech ar fy neddfau, neu a gymmerech ar ſy nghyfammod yn dy enau; gan dy fod yn casâu addyſg, ac yn taflu fy ngeirjau i'th ôl?* 2 Cor. vii. 1. 2 Pedr i. 4.

4. Mi a ddylwn yſtyriaid, mai yn y Cyfammod hwn y mae holl Gyffur a Diddanwch Pobl Dduw ym mhob cyflwr: Fe ddichon pob un o honunt ddywedud, *Yr Arglwydd yw rhan fy etifeddiaeth. — Y llinynnau a ſyrthiaſant i mi mewn lleoedd hyfryd: y mae i mi etifeddiaeth dêg.* —— Eſay xii. 2. *Wele, Duw yw fy jechydwriaeth: gobeithiaf, ac nid ofnaf.* 2 Sam. xxiii. 5. Sal. l. 4, 5. Hebr. viii. 10, 12. Luc x. 20.

5. Mi a ddylwn yſtyriaid, mor echrydus yw i fod yn dwyllodrus yng Nghyfammod Duw: canys godineb ac anudonjaeth yw; ag fy'n tynnu ar ddynjon Farnau trymmion a dioſturi. —— Jer. xi. 10, 11. — *Ty Juda a'ihŷ Iſräel a dorraſant fy nghyfammod, yr hwn a wneuthum â'u tadau hwynt. Am hynny, fel hyn y dywed yr Arglwydd, Wele fi yn dwyn drwg arnunt, yr hwn ni's gallant fyned oddi wrtho: yna y gwaeddant arnaf, ac ni wrandawäf hwynt.* Hoſ. x. 4. Jer. xxxiv. 19, 20. Leſ. xxvi. 25. Sal. xliv. 14, 17.

6. Mi a ddylwn yſtyriaid yn ofalus, mai trwy ddefbyn Criſt, y mae cael hawl yn y Cyfammod: canys efe yw'r Swm a'r Cyflawnder o hono. Gwaed Criſt yw Gwaed y Cyfammod, trwy ba un y prynwyd y Gollyngdod ſydd yn y Cyfammod; ac iddo ef y gwnaed Addewïdjon y Cyfammod. —— Zech. ix. 11. *Trwy waed dy ammod y gollyngais dy garcharorjon o'r pydew heb ddwfr ynddo.* —— Gal. iii. 19. *Efe yw'r hâd, i'r hwn y gwnaethid yr addewid.*

7. Mi a ddylwn yſtyriaid, mai ymgyfammodi â Duw mewn pryd, ſydd fwyaf dymunol, ac yn fwyaf angentheidjol, ac yn fwyaf manteiſiol o bob peth; o blegid nad yw'r cwbl ag ſydd yn y byd, na'r cwbl ag iydd mewn Crefydd hefyd, yn ralu dim, heb ran yn y Cyfammod hwn: canys felly yn unig y'n gwaredir oddi wrth Ddigofaint Duw, i fod yn Bobl wynfydedig. —— 2 Cron. xxix. 10. *Yn awr y mae yn fy mryd i wneuthur cyfammod ag Arglwydd*

Dduw Iſräel; fel y trô ei ddigofaint llidiog ef oddi wrthym ni. 1 Pedr ii. 9, 10.

Cw. Pwy ſydd mewn gwirionedd yn y Cyfammod Grâs?

Att. Ni's gallwn ni wybod pwy ydynt, wrth eu henwau, ſy'n 'ſgrifennedig yn Llyfr y Bywyd: canys, *Dirgeledigaethau a berthyn i Dduw, a'r pethau amlwg a roddwyd i ni.* (Deut. xxix. 29.) Eithr,

1. Mae Goruchwiliaeth y Cyfammod yn perthyn i bawb yn yr Eglwys weledig, a galwâd cyffredinol i bawb a ewyllyſio ddyfod i mewn iddo; ac yr ydys mewn modd difrifol yn eu galw hwynt. —— Eſay lv. 3. *Gogwyddwch eich cluſt, a deuwch attaf; gwrandêwch, a bydd byw eich henaid: a mi a wnâf gyfammod tragywyddol â chwi; ſef, ſicr drugareddau Dafydd.* Math. xi. 28, 29. Dad. xxii. 17. Joan iii. 16.

2. Mae Nodau priodol yn perthyn i'r rhai a ddygwyd, trwy Râs Duw, i'r Cyfammod mewn gwirionedd; ac y mae'r drws yn agored i dderbyn eraill i mewn, o's mynnant ddyfod tra fytho Dydd Grâs yn parhâu.

Cw. Beth yw Nodau'r rhai ſydd yn y Cyfammod Grâs?

Att. 1. Hwy a gawſant farn angau ynddunt eu hunain, trwy ddeddf y Cyfammod Gweithredoedd; ſef, golwg ar eu Colledigaeth, ag ſy'n peri iddunt ffôi am eu bywyd, i gymmeryd gafael yn y Gobaith a oſodwyd o'u blaen yng Nghriſt, trwy'r Cyfammod Grâs, ac i lynu wrtho er gwaethaf pob rhwyſtrau. *Hebr.* vi. 18. *Rhuf.* vii. 9. *Phil.* iii. 7. *Math.* x. 6.

2. Mae'r Berthynas gyfammodol ſy rhyngddunt a Chriſt, yn ei wneuthur ef yn werthfawr ac yn annwyl jawn iddunt: maent yn gweled Doethineb a Gallu Duw ynddo; fel nad yw holl odidowgrwydd y byd hwn ond dom mewn cymhariaeth iddo, er fod eraill yn ddiyſtyr am dano. 1 *Cor.* i. 23, 24. 1 *Pedr* ii. 7. *Phil.* iii. 7, 8. *Hebr.* xi. 24–26.

3. Mae Cyfraith y Cyfammod yn 'ſgrifennedig yn eu calonnau, i'w gwneuthur yn ufudd i Ewyllys Duw; ſef, i arferyd yn barchus ei holl Ordinhadau, ac i rodio yn ei holl Ddeddfau ef yn ddiargyoedd. —— Hebr. viii. 10. *Hwn yw y cyfammod a ammodaf fi â thŷ Iſräel ar ôl y dyddjau hyny, medd yr Arglwydd: Myfi a ddodaf fy nghyfreithjau yn eu meddwl, ac yn eu calonnau yr yſgrifennaf hwynt; a mi a fyddaf iddunt hwy yn Dduw, a hwythau a fyddant i*

minnau

minnau yn bobl. —— Ezec. xxxvi. 27.— *A gwnâf i chwi rodio yn fy neddfau, a chadw fy marnedigaethau, a'u gwneuthur.* Sal. cxix. 5. Luc i. 6.

4. Mae Cariad Duw yng Nghrift, a amlygir yn y Cyfammod, yn tynnu eu Serch a'u Hiraeth yn ôl Duw, ac yn gwneuthur eu Hufudd-dod iddo yn hoff ac yn eſmwyth. —— Sal. lxxiii. 25. *Pwy ſydd gennyfi yn y nefoedd ond tydi? ac ni ewyllyſiais ar y ddaear neb gyd â thydi.* —— Sal. xl. 8. *Da gennyf wneuthur dy ewyllys, O fy Nuw! a'th gyfraith ſydd o fewn fy nghàlon.* 1 Joan v. 3.

5. Maent yn gwaſanaethu Duw a'i addoli yn ysbrydol, nid yn ffurfiol fel eraill; ac yng Nghrift yn unig y mae holl hyder eu Ffydd a'u Gorfoledd hwy, heb ymddiried mewn dim a wnelont eu hunain: canys Crift yw eu holl Jechydwriaeth, a Chyflawnder y Cyfammod. *Joan* iv. 24. *Phil.* iii. 3. *Rhuf.* x. 4. *Col.* i. 19.

6. Mae Ysbryd Duw, yn ôl Addewïd y Cyfammod, ynddunt; ſef, Ysbryd Crift, Ysbryd Grâs a Gweddiau, Ysbryd Mabwyſiad, yn llefain, *Abba, Dâd*, yn eu calonnau; Ysbryd Cariad, a Nerth, a Phwyll, i'w diddanu, a'u dyſgu, a'u nerthu i fyw ac i farw iddo ef. *Ezec.* xxxvi. 27. 1 *Cor.* vi. 17. *Zech.* xii. 10. *Rhuf.* viii. 15, 16. xiv. 8. *Eſay* xliv. 3.

7. Mae Grâs y Cyfammod yn eu tynnu oddi wrth annuwioldeb a chwantau bydol, i fyw yn ſobr, yn gyfiawn, ac yn ddduwiol, ac i ddiſgwil (er cyffur iddunt ym mhob gorthrymder ac adfyd) am y Gobaith gwynfydedig ag ſydd ar eu medr yn Ymddanghoſiad Crift. *Dit.* ii. 11—13. *Rhuf.* v. 2. viii. 18.

8. Mae'r rhai ſydd yn y Cyfammod Grâs, yn tebygu i Grift yn eu Serch a'u Synniad ysbrydol; megis y mae y rhai ſy dan y Cyfammod Gweithredoedd (yn eu ſerch daearol, a'u tuedd yn ôl y ffrwyth gwaharddedig) yn tebygu i *Adda*. —— 1 Cor. xv. 47—49. *Y dyn cyntaf, o'r ddaear yn ddaearol; yr ail dyn, yr Arglwydd o'r nef. Fel y mae y daearol, felly y mae y rhai daearol hefyd; ac fel y mae y nefol, felly y mde y rhai nefol hefyd. Ac megis y dygaſom ddelw y daearol, ni a ddygwn hefyd ddelw y nefol.*

9. Mae'r Yſgrythur yn galw'r ſawl ſydd yn y Cyfammod, yn *Bobl gyfiawn*, ac yn *Bobl ſanctaidd*: canys felly y maent, trwy Grift, yngolwg Duw a dynjon. —— Eſay lx.

21. *Dy bobl fyddant gyfiawn oll.* —— Eſay lxii. 12. *Galwant hwynt heſyd yn bobl ſanctaidd, yn waredigion yr Arglwydd.* 1 Cor. vi. 11.

10. Mae pob un yn wirioneddus yn y Cyfammod, ag ſy'n credu'n wirioneddus yn yr Arglwydd Jeſu. —— Joan iii. 16. *Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fâb, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol.*

Cw. Mynegwch, mewn ychydig eirjau, ym mha lun y mae i chwi ddyfod yn wirioneddus i'r Cyfammod Gras?

Att. Trwy Ysbryd Criſt, yn fy nerthu i dderbyn Criſt yn Waredwr ac yn Arglwydd i mi; ag ydys yn ei gynnyg, yn rhad ac yn ddihaeddiant, i'r mwyaf ac i'r gwaethaf o bechadurjaid. O blegid,

1. Yng Nghriſt y mae holl Gyflawnder y Bendithion a addewïr yn y Cyfammod hwn, a Chyflawnder y Gras i gyflawnu Gofynnad ac Ammodau'r Cyfammod. —— Col. iii. 11. — *Criſt ſydd bob peth, ac ym mhob peth.* —— Eph. i. 23. — *Yr hwn ſydd yn cyflawnu oll yn oll.* Col. i. 19. ii. 9. Joan i. 16. iii. 35.

2. O blegid mai trwy Griſt yn unig, ac nid yn un ffordd arall, y mae myned i mewn i'r Cyfammod hwn. —— Joan x. 9. *Myfi yw y drws: o's â neb i mewn trwofi, efe a fydd cadwëdig.* Joan xiv. 6.

3. O blegid mai trwy dderbyn Criſt, a'n Hundeb ag ef, y gwneir ni'n gyfrannog o holl Freintjau'r Cyfammod. — 1 Cor. i. 30. *Yr ydych chwi o hono ef yng Nghriſt Jeſu, yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, ac yn ſanctteiddrwydd, ac yn brynedigaeth.* Rhuf. viii. 32.

Cw. Pa ham y mae Duw yn rhoi Bendithion Jechydwriaeth trwy Gyfammod; gan y gallai Duw eu rhoi heb gyfammodi am danunt?

Att. 1. Er mwyn deffrôi ac annog dynjon i'w ceiſio: canys pa fodd y gallem geiſio, oni buaſai fod Duw wedi ymgyfammodi i roddi? 2 *Sam.* vii. 27.

2. Er mwyn i Ffyddlondeb a Gwirionedd Duw ymddangos yn ogoneddus, yn ei Waith, yn cyflawnu Addewïdjon ei Gyfammod. *Deut.* vii. 9. 1 *Bren.* viii. 23. *Rhuf.* xv. 8, 9.

3. Er mwyn gofod ychwaneg o Anrhydedd ar ei Bobl: canys pa genhedlaeth ar wyneb y ddaear mor anrhydeddus ac

arddêrchog, a'r rhai y mae Duw yn gymmeryd yn Bobl iddo ei hun trwy Gyfammod? *Deut.* xxvi. 18, 19. 1 *Cron.* xvii. 21, 22.

4. Er mwyn dodi ar ei Bobl ychwaneg o Rwymedigaeth i rodio'n ffyddlon yn Ffordd yr Arglwydd: canys nid peth bychan yw torri Cyfammod â Duw. *Gen.* xvii. 7, 9. *Ezec.* xx. 37. *Jer.* xiii. 11.

5. Er mwyn ychwaneg o ſicrwydd Ffydd a Chyſſur i'w Bobl, yn erbyn amheuon ac ofnau: canys ni thyrr Duw ei Gyfammod. *Hebr.* vi. 17—19. x. 23. 2 *Cron.* xxi. 7.

Cw. Pa ffordd y mae Duw yn ſicrhau'r Cyfammod i'ch Ffydd chwi?

Att. 1. Trwy ei Air, a'i Lw. —— Hebr. vi. 18. *Fel trwy ddau beth dianwadal, yn y rhai yr oedd yn ammhoſſibl i Dduw ſod yn gelwyddog, y gallem ni gael cyſſur cryf.*

2. Trwy Waed a Mechniaeth Criſt: canys am ei Bobl gyfammodol y dywedodd efe, *Yr ydwyf yn rhoddi iddunt fywyd tragywyddol; ac ni chyfrgollant byth, ac ni ddŵg neb hwynt allan o'm llaw i.* Joan x. 28.

3. Trwy Seliad ac Erneſt yr Ysbryd Glân. —— 2 Cor. i. 21, 22. *Yr hwn ſydd yn ein cadarnhau ni gyd â chwi yng Nghriſt, ac a'n henneiniodd ni, yw Duw; Yr hwn hefyd a'n ſeliodd, ac a roes ernes yr Ysbryd yn ein calonnau.* Eph. i. 13, 14. iv. 30.

4. Trwy Anghyfnewidioldeb Duw ei hun. —— Mal. iii. 6. *Canys myfi'r Arglwydd ni'm newidir; am hynny ni ddifethwyd chwi, meibion Jacob.*

5. Trwy'r Sacramentau, a appwyntiodd Criſt yn Seliau o'r Cyfammod.

Cw. Pa Sacramentau oedd yn Eglwys Duw yn y dyddjau gynt, cyn dyfod Criſt i'r byd?

Att. 1. Fe ordeiniodd Duw Arwyddjon cyffelyb i Sacramentau, i'n Rhieni cyntaf ym Mharadwys; canys yr oedd ffrwyth y pren ynghanol yr ardd, yn Arwydd o Fywyd; megis yr oedd pren gwybodaeth da a drwg, yn Arwydd o Farwolaeth. *Gen.* ii.

2. Fe ordeiniodd Duw yn ôl hynny ddau Sacrament yn yr Eglwys *Juddewig*; ſef, *Enwaediad*, ac *Oen y Pâſg*.

Cw. Pa ſawl Sacrament a ordeiniodd Criſt yn ei Eglwys?

Att. Dau yn unig, megis yn gyffredinol yn angenrhaid i Jechydwriaeth; ſef, *Bedydd*, a *Swpper yr Arglwydd.*

Cw. Pa ſawl peth a ddylech yſtyriaid ynghylch hyn?

Att. Pum peth.

1. Awdwr y Sacramentau hyn; ſef, *Criſt*: Eſe a'u hordeiniodd; ac am hynny, mae'r rhai a'u hefgeuluſant, yn dirmygu Criſt, ac yn anufuddhâu iddo. *Dit.* i. 16. *Luc* vi. 46.

2. Nifer y Sacramentau; ſef, nad ydynt *ond dau yn unig*: ac am hynny, y mae'r Pabyddjaid yn cyfeiliorni'n ammhwyllog, ag ſy'n dal ſaith Sacrament yn eu ffiaidd eulynaddoliad.

3. Enwau'r Sacramentau; ſef, *Bedydd*, a *Swpper yr Arglwydd.*

4. Angenrheidrwydd y Sacramentau tu ag at Jechydwriaeth: ac am hynny yr ydym yn eſgeuluſo ein Jechydwriaeth, pan fyddom yn eſgeuluſo'r Sacramentau. *Hebr.* ii. 3.

5. Yr Yſtyr ym mha un y maent yn angenrheidjol i Jechydwriaeth; ſef, *yn gyffredinol*; nid yn anhepgorol, fel pe fyddai yn gwbl-ammhoffibl, mewn un cyflwr oll, i gael Jechydwriaeth hebddunt. Y Lleidr edifeiriol ar y groes a aeth i Baradwys, er na's derbyniodd y Sacramentau; o blegid na's gallai eſe gael un o honunt: canys eſgeuluſo a diyſtyru'r Sacramentau, nid y diffyg o honunt, ſy'n dwyn Colledigaeth.

Cw. Pa wahaniaeth ſy rhwng *Sacramentau'r Efengyl*, a *Sacramentau'r Hên Deſtament* yn yr Eglwys *Juddewïg*?

Att. Yr un oedd Awdwr y ddau; ſef, Duw; ac i arwyddocâu pethau anweledig, yr oedd y ddau: ond y mae gwahaniaeth rhyngddunt mewn tri pheth.

1. Nid yr un yw eu Defnydd: *Enwaediad*, ac *Oen y Paſg*, oedd gynt; ond *Bedydd Dwfr*, a *Bara a Gwin*, yw'r Sacramentau yn awr.

2. I *Genedl yr Juddewïon* y rhoddwyd y *Sacramentau gynt*; ond y mae *Sacramentau'r Efengyl i holl Genhedlaethau'r byd*, ag a ddeuant i Gyfammod â Duw.

3. Y

3. Y *Sacramentau gynt* oeddynt Arwyddjon o Grift *i ddyfod*; ond y mae *Sacramentau'r Efengyl* yn Arwyddjon o Grift *wedi dyfod* i'r byd.

Cw. Pa wahaniaeth ſydd rhwng *Gair Duw* a'r *Sacramentau*?

Att. Oddi wrth yr un Awdwr, ſef o Dduw, mae'r ddau; ac i'r un Diben y maent; ſef, er Jechydwriaeth i ni, ac yn Foddjon buddjol o Râs: ond y mae gwahan rhyngddunt mewn tri pheth.

1. Y mae *Gair Duw* i'w weini i *bawb*; ond ni ddylyd weini'r *Sacramentau* i neb, ond i'r *rhai ſo* (mewn barn Cariad) *o Deulu'r Ffydd.*

2. Mae *Gair Duw* yn mynegu pethau ysbrydol i'n *cluſtau* ni; ond y mae'r *Sacramentau* yn portreiadu pethau ysbrydol, trwy *arwyddjon gweledig*, o flaen ein *llygaid.*

3. Mae *Gair Duw* yn *bysbyſu* i ni Gyfammod ac Addewidjon Duw; eithr y mae'r *Sacramentau* yn eu *ſicrhâu* fel Seliau.

Cw. Pa beth yr wyt ti yn ei ddyall wrth y gair hwn, *Sacrament*?

Att. Yr wyfi yn dyall Arwydd gweledig oddi allan o Râs ysbrydol oddi fewn, a roddir i ni; yr hwn a ordeiniodd Criſt ei hun, megis Modd i ni i dderbyn y Grâs hwnnw trwyddo, ac i fod yn Wyſtl i'n ſicrhâu ni o'r Grâs hwnnw.

Cw. Pa ſawl peth a ddylech yſtyriaid ymma?

Att. Tri pheth. 1. Yſtyr y gair hwn, *Sacrament.* 2. Pwy a'i hordeiniodd; ſef, *Criſt.* 3. I ba Ddiben.

Cw. Beth yw meddwl neu yſtyr y gair hwn, *Sacrament*?

Att. Mae *Sacrament* yn enw perthynaſol ar yr Ordinadau hyn; o herwydd fod y gair hwn gynt yn arwyddocâu tri pheth.

1. *Sacrament* oeddyd yn galw *Nôd-wiſgoedd* (neu Liſtral) weiſion Gwŷr mawrjon, ac Arglwyddi, i'w adnabod oddi wrth ddynjon eraill; ac felly mae'r Ordinhadau hyn fel Nôd yn gwahaniaethu, yngolwg y byd, rhwng Gweiſion Criſt a dynjon eraill ni bônt yn ei arddel ef.

2. *Sa-*

2. *Sacrament* oeddyd yn galw *Gwyſtl* a roddai un i atteb
Cofyn mewn Cyfraith, ac i wneuthur ei Ddadl yn dda:
Felly mae'r Ordinhadau hyn yn Wyſtl o Ffyddlondeb Criſt
i atteb drofom ni, ac i wneuthur ein hachos yn dda ger bron
Duw. *Rhuf.* viii. 34.

3. *Sacrament* oeddyd yn galw *Llw Milwr* am ei Ffydd-
londeb i Bentywyſog y llu: ac felly yr ydym ni yn yr Or-
dinhadau hyn yn myned dan Lw'r Cyfammod, i fod yn
Filwyr ffyddlon i'r Arglwydd Jeſu, yn erbyn pechod, y byd
a'r cythraul. *Num.* xxx. 2. *Neh.* x. 29.

Cw. Beth yr ydych yn yſtyriaid am Waith Criſt yn or-
deinio'r Sacrament?

Att. 1. Mi a ddylwn yſtyriaid, mai Criſt yw'n Pennaeth
a'n Brenin, ac mai iddo ef yn unig y perthyn i appwyntio'r
Sacramentau a welo fod yn dda yn ei Eglwys. *Eph.* i. 22.

2. Mi a ddylwn yſtyriaid, mai gan Criſt yn unig y mae
Awdurdod a Gallu, i ſendithio'r Sacramentau a ordeiniodd
efe, i'w gwneuthur yn lleſiol i ni. *Math.* xxviii. 18.

3. Mi a ddylwn yſtyriaid, nad oes i mi arferyd nebrhyw
Sacramentau o lyfellaeth dynjon, fel y Pabyddjaid, nac eſ-
geuluſo'r rhai a ordeiniodd Criſt; dan berygl o ſyrthio dan
y Farn echrydus ag y mae'r fath ryfyg yn haeddu. *Dad.*
xxii. 18.

Cw. I ba Ddiben yr ordeiniodd Criſt y Sacramentau
hyn?

Att. Fe ordeiniodd Criſt y Sacramentau hyn,

1. Yn Arwyddjon gweledig oddi allan o Râs ysbrydol
oddi fewn, a roddir i ni; fel wrth weled yr Arwyddjon o
hono, er fod y Grâs a arwyddocëir yn anweledig, na fyddom
yn hwyrfrydig i gredu.

2. Fe ordeiniodd Criſt y Sacramentau, megis Moddjon i
ni dderbyn y Grâs hwnnw trwyddunt: o blegid na ddichon
yr Ordinhadau mae Criſt yn gyſſegru, lai nâ bod yn lleſiol,
i'r rhai a ddêl iddunt yn addas.

3. Fe ordeiniodd Criſt y Sacramentau, i fod yn Wyſtl i'n
ſicrhâu ni o'r Grâs hwnnw; fel y nesâem at ei Ordinhad-
au ef mewn llawn ſicrwydd Ffydd, heb ammau dim.

Cw. Pa ſawl rhan y ſydd mewn Sacrament?

Att. Dwy: yr Arwydd gweledig oddi allan, a'r
Grâs ysbrydol oddi fewn.

Cw. Beth

Cw. Beth a ddylech ddyſgu oddi wrth hyn?

Att. 1. Nad oes i mi orphwys ar arferiad o'r Moddjon oddi allan yn unig, heb ymdrech yn egniol am y Grâs ysbrydol oddi mewn: canys yna mi fyddaf yn twyllo fy hun; o blegid nad yw'r hyn ſydd oddi allan, ond Moddjon neu Arwyddjon o Râs; nid y Grâs ei hun ydynt.

2. Nad oes i mi ddiſgwil am y Grâs ysbrydol oddi mewn, ra fyddwyf yn eſgeuluſo'r Moddjon oddi allan: canys yna mi fyddaf yn temtio Duw; o blegid na ddylai neb wahanu'r pethau a gyſſylldodd Criſt.

3. Mi a ddylwn gydnabod, ſod megis corph ac enaid yn perthyn i bob Dyledſwydd; ſef, cyflawniad y Ddyledſwydd oddi allan, a chydweithrediad fy ysbryd oddi ſewn: ac ni ddylem ni eſgeuluſo un o'r ddau.

Cw. Pa beth yw'r Arwydd gweledig oddi allan, neu'r Ffurf yn y *Bedydd?*

Att. Dwfr: yn yr hwn y bedyddir un, *Yn Enw'r Tâd, a'r Mâb, a'r Yſbryd Glân.*

Cw. Beth a ddylech yſtyriaid ynghylch *Bedydd* yn gyffredinol?

Att. 1. Mai'r Sacrament cyntaf o'r Teſtament Newydd yw, a ordeiniwyd gan Griſt ei hun; ac am hynny, na ddylyd ei arferyd yn yſgafn, na'i eſgeuluſo. *Math.* xxviii. 19. *Joan* iv. 1.

2. Mai trwy *Fedydd* yr ordeiniodd Criſt ein derbyniad cyntaf i mewn i'w Eglwys ef; heb yr hyn nid oes i neb ddewïd am Jechydwriaeth.—Act. ii. 47.—*A'r Arglwydd chwanegodd beunydd at yr eglwys y rhai ſyddent gadwedig.* Dad. xxii. 15.

3. Nad oes i neb dderbyn *Bedydd* ychwaneg nag *unwaith*; nwy nag y dylem arddel ychwaneg nag *un Criſt*, neu broffeſu chwaneg nag *un Ffydd*, neu addoli ychwaneg nag *un Duw*. — Eph. iv. 5, 6. *Un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, un Duw a Thâd oll.*

4. Nad oes i neb fedyddio, neu weini'r Sacrament hwn, nd Gweinidogjon Gair Duw: canys iddunt *hwy yn unig* y hoddodd Criſt Orchymmyn ynghylch hynny. *Math.* xxviii. 6, 18, 19.

5. Mai Sêl, ac Arwydd o'r Cyfammod Grâs, yw *Bedydd*, gryfhâu'n Ffydd i ddiſgwil am y Bendithion a addewïr ynddo;

yndd o ; megis yr oedd yr *Enwaediad* gynt : ac nid oes na Sêl nac Arwydd gan y difedydd, am ran yng Nghyfammod y Bywyd tragywyddol. *Rhuf.* iv. 11.

6. Mai *Bedydd* yw Ordinhâad ag fy'n gyffredinol yn angenrheidiol i Jechydwriaeth. —— Joan iii. 5. *Jeſu a attebodd ac a dywedodd, Yn wîr, yn wîr meddaf i ti, Oddieithr geni dyn o ddwfr ac o'r Ysbryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Ddduw.*

Cw. Pa fodd yr ymddengys fod *Bedydd* wedi ei ordeinio yn lle'r *Enwaediad* ?

Att. 1. Mae'n amlwg, fod *Bedydd* yn lle'r *Enwaediad*; megis y mae *Swpper yr Arglwydd* yn lle *Oen y Pâſg* : canys mae *Enwaediad* wedi diflannu, a'i fwrw ymmaith ; a phe na fuaſai un Sacrament arall yn ei le, fe fuaſai diffyg ; ac ni ddichon neb enwi un Sacrament wedi ordeinio yn lle'r *Enwaediad*, ond *Bedydd* yn unig.

2. Mae'n addas fod dau Sacrament dan yr Efengyl, megis yr oedd dan y Gyfraith ; un i'r Ffyddlonjaid mewn oedran, a'r llall i'w Plant hwy : canys felly yr oedd *Oen y Pâſg* a'r *Enwaediad*, dan y Gyfraith ; eithr nid oes un Arwydd Sacramentaidd oll o Gariad a Chyfammod Duw yn awr i Blant y Ffyddlonjaid dan yr Efengyl, oni ddaeth *Bedydd* i mewn yn lle'r *Enwaediad*.

3. Mae'r *Bedydd* wedi ei ordeinio i'r un gyffelyb waſanaeth a'r *Enwaediad* ; ſef, i dderbyn y rhai mewn oedran ar broffes o Ffydd, a'u plant heb Ffydd. *Abraham* a gredodd cyn enwaedu arno ; ac *Iſmäel* ei fâb a phlant yr *Juddewön* a enwaedwyd cyn iddunt gredu : felly y bedyddir y rhai fy mewn oedran (ag ni fedyddiwyd o'r blaen) pan y credont ; a'u plant a fedyddir hefyd gyd â hwy, er nad ydynt etto yn credu.

4. Mae'r Ysbryd Glân yn galw'r *Bedydd* dan Enw *Enwaediad* ; ſef, *Enwaediad nid o waith llaw* ; o herwydd fod *Bedydd* o'r un *Yſtyr ysbrydol* a'r *Enwaediad*: ac *Enwaediad Criſt* y mae'r Ysbryd Glân yn ei alw ; am mai *Bedydd* yw'r Ordinhâad ſy'n cyfatteb i'r *Enwaediad*, a ordeiniodd Criſt dan yr Efengyl, yn lle'r *Enwaediad* dan y Gyfraith.

5. Mae'r *Enwaediad* a *Bedydd* yn arwyddocâu yr un gyffelyb bethau ; âc am hynny fe ellir barnu yn ddiamheuol, *Fedydd* ddyfod i mewn yn lle'r *Enwaediad*.

Cw. P

Cw. Pa gyffelyb bethau y mae 'r *Enwaediad* a *Bedydd* yn arwyddocâu?

Att. 1. Yr oedd yr *Enwaediad*, ac felly mae *Bedydd*, yn arwyddocâu, llygredigaeth gwreiddiol. *Jer.* iv. 4. 1 *Pedr* iii. 21.

2. Yr oedd yr *Enwaediad*, ac felly y mae *Bedydd*, yn arwyddocâu 'r Adenedigaeth, neu Enwaediad y Galon. *Deut.* xxx. 6. *Dit.* iii. 5.

3. Yr oedd yr *Enwaediad*, ac felly mae 'r *Bedydd*, yn Sêl o 'r Cyfammod Grâs. *Rhuf.* iv. 11.

4. Trwy 'r *Enwaediad* yr oedd gynt, a thrwy 'r *Bedydd* y mae yn awr, ddyfodiad i mewn i 'r Eglwys weledig.

5. Yr oedd yr *Enwaediad*, ac felly mae *Bedydd*, yn gosod Rhwymedigaeth ar ddynjon i ddioſg corph pechod, ac i arwain buchedd newydd. *Col.* ii. 11. *Rhuf.* vi. 4, 6.

6. Yr oedd yr *Enwaediad*, ac felly mae 'r *Bedydd*, yn Nôd o wahaniaeth rhwng Aelodau 'r Eglwys weledig a dynjon eraill. *Ezec.* xvi. 21. *Math.* xvi. 26.

Cw. I ba Ddiben yr ordeiniwyd *Bedydd*?

Att. Fe ordeiniwyd *Bedydd*,

1. I arwyddocâu a ſelio ein himpiad ni yng Nghriſt; ac o 'n hawl, trwyddo ef, ym Mreintjau 'r Cyfammod Grâs.

2. I arwyddocâu a ſelio 'n Rhwymedigaeth i gyflawnu Gofynniad a Dyledſwyddau 'r Cyfammod.

Cw. Pa rai yw Breintjau enwëdigol y Cyfammod, ag ydys yn arwyddocâu, ac yn ſelio yn y *Bedydd*?

Att. 1. Ein hundeb, trwy Griſt, â chorph ei Eglwys ef, i fod yn gyd-ddinaſyddjon â 'r Saint a Theulu Duw, ac yn gydgyfrannog o 'r Breintjau a berthyn iddunt. *Eph.* ii. 12, 13, 19.

2. Maddeuant, trwy Griſt, o 'n holl bechodau. —— Act. ii. 38. — *Bedyddier pob un o honoch yn Enw Jeſu Griſt, er maddeuant pechodau.*

3. Golchiad ymmaith ammhuredd ac euogrwydd pechod oddi arnom. —— Act. xxii. 16. *Ac yr awr hon, beth yr wyt ti yn ei aros? Cyfod, bedyddier di, a golch ymmaith dy bechodau, gan alw ar Enw yr Arglwydd.*

4. Adenedigaeth, ac Adnewyddiad o 'n natur bechadurus hi, trwy 'r Ysbryd Glân. —— Dit. iii. 5. — *Yn ôl ei drugaredd ef achubodd efe nyni, trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân.*

5. Mab-

5. Mabwyſiad; i fod, trwy Griſt, yn Blant i Dduw. —— Gal. iii. 26, 27. *Canys chwi oll ydych blant i Dduw, trwy ffydd yng Nghriſt Jeſu. Canys cynnifer o honoch ag a fedyddiwyd yng Nghriſt, a wiſgaſoch Griſt.*

6. Cyfran o holl Haeddiant Marwölaeth Criſt. —— Rhuf. vi. 3. *Oni wyddoch chwi, am gynnifer o honom ag a fedyddiwyd i Griſt Jeſu, ein bedyddio ni i'w farwölaeth ef?* Gal. iii. 27, 29.

7. Sicrwydd o Adgyfodiad gogoneddus ein Cyrph ar y Dydd olaf, i fod gyd â Chriſt yn dragywydd. —— 1 Cor. xv. 29. *O's amgen, beth a wnâ y rhai a fedyddir dros y meirw, o's y meirw ni chyfodir ddim? pa ham ynte y bedyddir hwy dros y meirw?*

Cw. Pa Ddyledſwyddau enwëdigol y mae *Bedydd* yn arwyddocâu, ac yn ſelio'n Rhwymedigaeth yn eu cylch?

Att. 1. Ymwrthod â gweithredoedd y diafol, a gwagedd y byd, ac â chwantau pechadurus y cnawd. —— Rhuf. vi. 12. *Na theyrnaſed pechod gan hynny yn eich corph marwöl, i ufuddhâu o honoch iddo yn ei chwantau.*

2. Credu'n ffyddlon yng Nghriſt: canys trwy Ffydd y'n cyfodir megis o feirw i fod yn eiddo ef. —— Col. ii. 12. *Wedi eich cydgladdu ag ef yn y bedydd, yn yr hwn hefyd y'ch cydgyfodwyd trwy ffydd gweithrediad Duw, yr hwn a'i cyfodes ef o feirw.*

3. Ufudd-dod ffyddlon i Griſt, mewn Newydd-deb Buchedd, a Chydwybod dda. —— Rhuf. vi. 4. *Cladduwyd ni gan hynny gyd ag ef trwy fedydd i farwölaeth; fel megis ag y cyfodwyd Criſt o feirw trwy ogoniant y Tâd, felly y rhodiom ninnau hefyd mewn newydd-deb buchedd.* —— 1 Pedr iii. 21. — *Ymatteb cydwybod dda tu ag at Dduw.*

4. Byw mewn Cariad â'i gilydd, fel aelodau o'r un corph. —— 1 Cor. xii. 13. *O herwydd trwy un Ysbryd y bedyddiwyd ni oll yn un corph, pa un bynnag ai Juddewön a'i Groegwyr, ai caethion ai rhyddion; ac ni a ddiodwyd oll i un Ysbryd.*

5. Ymddwyn ym mhob peth yn ôl Athrawjaeth Efengyl Criſt. —— Gal. v. 3, *Yr wyf yn tyſtiolaethu drachefn i bob dyn a'r a enwaedir, ei fod ef yn ddyledwr i gadw yr holl ddeddf.*

Cw. A ydyw'n angenrheidjol, fod y Cynheddfau da hyn ym mhawb, ſef yn y plant a fedyddir, ym mlaen llaw?

Att. Nac

Att. Nac ydyw, mwy nag yr oedd yn angenrheidjoli Enwaediad y Gâlon fod ym mlaen llaw ym mhlant yr *Iſraelaid* cyn eu henwaedu; eithr y mae Sêl ac Arwydd weledig Cyfammod yn eu rhwymo i gwplâu 'r Dyledjon hyn pan ddelont i oedran.

Cw. Pa ſawl peth a ddylech yſtyriaid am yr Arwydd oddi allan yn y *Bedydd*?

Att. Tri pheth.

1. Yr Arwydd ei hun; ſef, Dwfr, â pha un y bedyddir.

2. Y weithred o Fedyddio; ſef, cyfaddaſu 'r Dwfr, trwy Air Duw a Gweddi, at gorph y neb a fedyddir.

3. Yn Enw pwy y dylyd bedyddio; ſef, yn Enw 'r Tâd, a 'r Mâb, a 'r Ysbryd Glân.

Cw. Pa fodd yr ymddengys i Grift ordeinio *Bedydd Dwfr* yn Sacrament: canys mae 'r *Soſiniaid*, ag ſy 'n gwadu Duwdod Crift, yn gwadu *Bedydd Dwfr*; a 'r *Crynwyr*, ag ſy 'n gofod Goleuni tufewnol o flaen Athrawjaeth yr Yſgrythurau, yn maeru, mai *Bedydd yr Ysbryd yn unig* yw 'r Sacrament?

Att. Nid oes neb, ond y rhai a wadant Grift, ac yn ddiarch i 'r Yſgrythurau, a ddichon wadu *Bedydd Dwfr*. O blegid,

1. Na allai *Bedydd* fod yn Sacrament, heb fod ynddo Arwydd gweledig oddi allan; a 'r Arwydd gweledig ynddo yw, *Dwfr*.

2. Mae 'n amlwg fod, nid yn unig *Joan* Fedyddiwr, eithr befyd yr Apoſtoljon, tra 'r oedd Crift gyd â hwy yn y byd, n bedyddio â *Dwfr*, wrth Orchymmyn Crift. *Joan* iv. 1, 2.

3. Mae 'n amlwg fod yr Apoſtoljon, a wyddent orau feddwl Gorchymmyn a roddodd Crift iddunt; yn bedyddio â *Dwfr*, ar ôl Dyrchafiad Crift i 'r Nefoedd. *Tair mil a fedyddiwyd â dwfr mewn un dydd. Philip a fedyddiodd amryw o 'r Samariaid, ac a fedyddiodd hefyd yr eſnuch o Ethiopia â dwfr; a llawer eraill a fedyddiwyd â dwfr, yn ôl iddunt gael eu bedyddio â 'r Ysbryd Glân mewn modd anghyffredin ynghyntaf. Felly y derbyniodd Cornelius, a phawb oedd gyd ag ef, yr Ysbryd Glân, dan bregeth Pedr; ac a fedyddiwyd â dwfr ar ôl hynny.* Act. x. 44, 46, 47.

4. *Bedydd Dwfr* a orchymmynnodd Crift i 'w Apoſtoljon, y barhâu ynghyd â Phregethiad yr Efengyl hyd ddiwedd y byd: canys ni allent hwy, na neb ond Duw ei hun, roddi *Bedydd yr Ysbryd*. A Chriſt hefyd ſy 'n gorchymmyn iddunt,

iddunt, i fodyddio *yn Enw'r Ysbryd Glân*, ac nid *â'r Ysbryd Glân*. Math. xxviii. 19, 20.

5. Mae'r neb ſy'n gwadu *Bedydd Dwfr*, yn gwadu *Swpper yr Arglwydd* hefyd, dan ſedrith cyfeiliornus o u harddel yn ysbrydol: canys ysbryd o amryfuſedd ſydd yn eu dallu, i wneuthur eu hunain megis yn ddoethach na Chriſt, gan ddiſtrywio'r Ordinhadau a ordeiniodd Criſt i barhau hyd ddiwedd y byd; y rhai hefyd y mae holl Eglwyſydd Criſt trwy'r byd yn eu harferyd yn ofalus: ac am hynny, mi ddylwn ochelyd i roddi un meſur o achlyſur i'r fath ynfydrwydd rhyfygus. —— Diar. xix. 27. *Fy mâb, paid â gwrando'r addyſg a bair i ti gyfeiliorni oddi wrth eir jau gwybodaeth.* Ezec. xxviii. 3, 10.

Cw. Beth a ddyſgwch oddi wrth hyn?

Att. 1. Mi allaf weled, nad oes un peth mor olau yng Ngair Duw, na thwylla Satan rai neu gilydd i ddal yn ei erbyn, a'i wrthwynebu. —— 2 Theſſ. ii. 10, 11. — *Am na dderbyniaſant gariad y gwirionedd, fel y byddent gadwedig. Ac am hynny y denfyn Duw iddunt hwy amryfuſedd cadarn, fel y credont gelwydd.*

2. Na ddichon neb, yn ddiryfyg, nac yn ddiberygl, i gymmeryd arnunt fod uwch law'r Ordinhadau a appwyntiodd Criſt. —— Preg. vii. 16. *Na fydd ry gyfiawn, ac na chymmer arnat fod yn rhy ddoeth: pa ham y'th ddifethit dy hun?* Rhuf. xii. 3.

Cw. Pa ham yr ordeiniodd Criſt yr Elfen gyffredin o *Ddwfr*, yn hytrach nâ rhyw beth arall, i fod yn Arwydd weledig yn y *Bedydd*?

Att. 1. O blegid mai felly y gwelodd yr Arglwydd yn dda: yr hyn a ddylai fodloni pob dyn, pe na fyddai un rheſwm arall ond hynny. —— Math. xi. 26. *Ie, O Dad! canys felly y rhyngodd bodd i ti.*

2. O blegid fod Duw yn arferol i ddwyn pethau mawrion i ben trwy foddion dichwaith, er ychwaneg o Ogoniant i'w Enw. *Trwy eurych ar y ſarph bres, yr jachaowyd claſſau marwol y ſeirph ranllyd. Trwy udgarnu â chyrn hyrddod, yr emmiwyd dinas Jericho. Trwy ymolchi yn llyn Siloam, y parodd Criſt i'r dall weled.* Num. xxi. Joſ. vi. Joan ix. Fe ordeiniodd Criſt *Ddwfr* yn Arwydd gweledig yn y *Bedydd*, am fod yndo gyffelybiaeth gyfleus o'r Peth buddiol

jol ac angenrheidjol ſy 'n dyfod trwy Gorph a Gwaed Criſt i ni.

Cw. Ym mha yſtyr y mae *Dwfr* yn gyffelybiaeth gyflëus o'r Lês buddjol ac angenrheidjol ſy 'n dyfod trwy Gorph a Gwaed Criſt i ni?

Att. 1. Mae *Dwfr* yn angenrheidjol i gynnal bywyd naturjol yn mhob creadur byw; ac ni ddichon neb, heb Rinwedd Gwaed ac Yſbryd Criſt, gyrraedd Bywyd tragywyddol. *Joan* vi. 53, 54. *Act.* iv. 12.

2. Mae *Dwfr* yn ſuddjol i lonni ac adfywjo y rhai ſo yn trengu o ſyched. Graſau 'r Arglwydd Jeſu yn unig, ſy 'n adfywjo ac yn diwallu y rhai a ſychedant am dano. —— Joan vi. 35. *A'r Jeſu a ddywedodd wrthunt, Myfi yw bara'r bywyd. Yr hwn ſydd yn dyfod attaf, ni newyna; a'r hwn ſydd yn credu ynofi, ni ſycheda un amſer.* Sal. xlv. 1, 2.

3. Mae 'r *Dwfr* yn aml, ac yn rhad, ac yn lleſiol i bawb; felly mae 'r Gras ſydd yng Nghriſt Jeſu mor aml, na ſydd un gronyn llai ar ôl diwallu pawb: mor lleſiol, nad oes dim yn y byd a wnâ lês hebddo; ac mor rhâd, ag y dichon y tlottaf a 'r annheilyngaf o bechadurjaid ei gael. *Eſay* lv. 1, 2. *Joan* vii. 37—39. *Eph.* iii. 8. *Luc* xiv. 21, 22.

4. Mae 'r *Dwfr* yn ſuddjol i lanhâu a ffrwythloni; mae 'n golchi ymmaith ammhuredd y cnawd: a thrwy ddyfrhâu y gwneir y glennydd ſychion yn ddoldir ffrwythlawn. Trwy Griſt yn unig y 'n puria oddi wrth bechod, ac y 'n gwneir yn ffrwythlawn mewn Sancteiddrwydd er Gogoniant i Dduw. 1 *Cor.* vi. 9—11. *Act.* xxii. 16. 1 *Joan* i. 7. *Joel* iii. 18. *Eſay* lviii. 11. *Sal.* lxxii. 6, 7.

5. Mae 'n rhaid arferyd y *Dwfr* at ei bwrpas, cyn y bo yn ſuddjol i ni; ac ni 's gallwn gael Lês oddi wrth Griſt, heb ei dderbyn ef trwy Ffydd i fod yn Jachawdwr i ni. *Joan* iii. 36.

Cw. Pa lun y mae cyfaddaſu'r *Dwfr* at Gorph yr un a fedyddir? canys y mae ymbleidiau ac ymryſon lawer yng-hylch hyn; ſef, pa un ai Trochiad mewn llawer o Ddwfr, neu Daenelliad ag ychydig Ddwfr, a ddylyd arferyd yn y *Bedydd*?

Att. 1. Er ddywaid yr Yſbryd Glân, mai gweithredoedd y cnawd yw ymbleidiau, ac mai dynjon cnawdol anyſbrydol ſy 'n eu hoffi; y rhai a orchymmynnir i ni yn fynych yn yr Ysgrythur gilio oddi wrthunt. —— 1 Cor. iii. 3. *Cnawdol*

ydych chwi eiro. Canys tra ſyddo yn eich plith chwi gynfigen, a chynnen, ac ymraniadau, onid ydych yn gnawdol, ac yn rhodio yn ddynol? —— Rhuf. xvi. 17. *Yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, gnaffu ar y rhai ſy yn peri anghydfod a rhwyſtrau, yn erbyn yr athrawiaeth a ddyſgaſoch chwi; a chiliwch oddi wrthynt.* Gal. v. 19—21. 1 Dim. i. 4. vi. 3—5. 2 Dim. ii. 16, 17, 23. 2 Joan 10, 11.

2. Y dynjon yſgafnaf mewn Crefydd, ſy fwyaf dadleugar ynghylch amgylchion ammhwys a berthyn i Ordinhâdau. Y *Phariſeaid* a hilient y gwybedyn, gân ddadlau yn erbyn Crift ei hun: a'r Gwŷr duwjolaf ſy fwyaf heddychol, ac yn lleiaf ymryſongar ynghylch eu barnau neillduol; megis y dylai pob un o wîr Aelodau Eglwys Grift fod. —— 1 Cor. xi. 16. *Od oes neb a fyn fod yn ymryſongar, nid oes gennym ni gyfryw ddefod; na chan eglwyſi Duw.*

3. Nid wyfi yn dyall, fod yr Yſgrythur Lân, nac Eglwys Loegr, wedi appwyntio'n bendant, pa un ai Trochi, neu Dywallt Dwfr, ſydd i'w arferyd wrth fedyddio; eithr yn gadael y naill fel y llall yn ddiragoriaeth i'n dewiſiad, megis llawer o fân amgylchion Dyledſwyddau crefyddol eraill.

4. Gan nad yw yn orchymmynnedig yn ddilys, pa un ai Trochi, neu Daenellu, a ddylai ſod yn y *Bedydd*, mwy na pha un ai yn ei Enau, neu yn ei Law yn gyntaf, y dylai'r Cymmunwr dderbyn y Bara a'r Gwin; nid yw'n debygol, fod y naill ffordd yn fwy angenrheidjol na'r llall i Sylwedd yr Ordinhâad hon: eithr y mae derbyniad parchus o'r Arwydd, ſef cyfaddaſu'r Dwfr at y Corph, yn ddiammau'n angenrheidjol, i arwyddocâu Cymhwyſiad ysbrydol o Grift a'i Ddonjau at ein Henêidjau.

5. Nid yw yn annhebygol, fod yr Apoſtoljon yn bedyddio trwy daenellu Dwfr; canys amryw a fedyddiwyd yn eu tejau. *Act.* ix. 17, 18. xvi. 33. —— Ac y mae hanes i lawer yn y prif oeſoedd gael eu bedyddio yn glâf yn eu gwelyau.

6. Mae Taenelliad neu Dywalldiad o Ddwfr, yn Arwydd gyfleus o Dywalldiad neu Daenelliad Ysbryd Duw, a Gwaed Crift: canys trwy'r gyfflelybiaeth o daenellu Dwfr, y mae Duw yn addaw rhoddi ei Ysbryd. Fel hyn y dywaid efe ei hun: *Tywalldaf fy Ysbryd ar dy hâd, a'm bendith ar dy hilfogaeth.* Eſay xliv. 3. —— Ac yn y modd hyn y dywaid yr Ysbryd Glân am Ddioddefaint Crift, ſef, iddo *dywallt ei enaid i farwolaeth*: a *Gwaed y Taenelliad* y gelwir

Gwaed Crist. *Ezec.* xxxvi. 25, 26. *Hebr.* xii. 24. 1 *Pedr* i. 2. *Eſay* liii. 12. xliv. 3. lii. 15.

7. Gan mai Arwydd a Sêl yw *Dwfr* yn y *Bedyddˆ*, mae ychydig o hono yn atteb y diben o arwyddocâu y Donjau a brynodd Crist, megis y mae ychydig o Fara a Gwin yn y Sacrament arall: ac y mae Sêl fychan o'r un ſorwyd ag un fai'n llawer mwy o faintioli. Ni ddichon neb dybiaid, fod mwy o Lês ysbrydol yn dyfod oddi wrth lawer o Ddwfr, nag a ddêl oddi wrth ychydig: canys nid oddi wrth y *Dwfr*, eithr oddi wrth Fendith Crist ar ei Ordinhâad, y mae Lês yr Enaid yn dyfod.

8. Mae taenellu Dwfr ar yr Wyneb, rhan o'r Corph, yn Arwydd ddigonol o'r cyfan: canys yn yr Wyneb yr ymddengys fwyaf o Sylwedd yr Enaid; ac mae'r Wyneb yn fynych yn yr Yſgrythur yn arwyddocâu Perſon Dyn. yn gyfan. Crist a ddywedodd wrth *Bedr*, *Yr hwn o olchwyd, nid rhaid iddo ond golchi ei draed, eithr y mae yn lân oll.* Gen. xvi. 8. xix. 21. xlviii. 11. Lef. xix. 32. Num. xix. 3. Preg. viii. 1. Luc x. 1.

Cw. Beth yn bennaf y mae bedyddio *â Dwfr* yn arwyddocâu?

Att. Fy nglanhâad oddi wrth euogrwydd pechod trwy Waed Crist, a Sanctteiddiad fy natur lygredig trwy'r Ysbryd Glân. 1 *Joan* i. 7. 1 *Cor.* vi. 10, 11.

Cw. Beth y mae bedyddio *yn Enw'r Tâd, a'r Mâb, a'r Ysbryd Glân*, yn arwyddocàu?

Att. 1. Mae'n arwyddocâu, fy rhoddiad i ſynu mewn ffordd o Gyfammod i Dduw, dan Rwymedigaeth i fod yn eiddo ef; ac am hynny nid oes i mi dynnu byth yn ôl. *Ezec.* xvi. 8. *Jer.* xxx. 22.

2. Mae'n arwyddocâu, y Dyled ſydd arnaf i gredu ac addoli Duwdod pob un o'r tri Pherſon, un Undod y Duwdod; o blegid mai yn Enw pob un o'r tri fel ei gilydd y'm bedyddiwyd yn ôl Gorchymmyn Crist: canys un Duw ydynt. —— 1 Joan v. 7. *O blegid y mae tri yn tyſtiolaethu yn y nêf; y Tâd, y Gair, a'r Ysbryd Glân: a'r tri hyn un ydynt.* Math. xxviii. 19.

3. Mae'n arwyddocâu, fy Nyled i ymoſtwng yn ufudd i gael fy nyſgu a'm rheoli ym mhob peth gan y Tâd, a'r Mâb, a'r Ysbryd Glân: canys fe'm rhoddwyd b'r Tâd

trwy Gyfeyngdod y Mab, a Sancteiddiad yr Ysbryd Glân, pan fy medyddiwyd. 1 *Cor.* i. 13. — *Matth.* xxviii. 19, 20.

Cw. Pa beth yw'r Grâs ysbrydol oddi fewn (yn y *Bedydd?*)

Att. Marwölaeth i bechod, a genedigaeth newydd i gyfiawnder: canys gan ein bod ni wrth naturjaeth wedi ein geni mewn pechod, ac yn blant digofaint, trwy Fedydd y gwnair ni yn blant Grâs.

Cw. Pa fawl peth a ddylech yftyriaid ymma, yoghylch y Grâs ysbrydol oddi mewn?

Att. Pedwar peth.

1. Mi ddylwn yftyriaid, y Farwölaeth i Bechod, ag y mae Grâs yn ei weithio ynnom; fef, ein gwaredu oddi wrth rym a llywödraeth pechod, fel na byddom fyw ynddo mwyach. —— Rhuf. vi. 2. — *A ni wedi meirw i bechod, pa wedd y byddwn fyw eito ynddo ef?* Rhuf. vi. 11, 12. 1 Pedr iv. 2.

2. Mi ddylwn yftyriaid, yr *Enedigaeth* newydd i Gyfjawnder; a elwïr weithjau yn *ail Enedigaeth*, weithjau yn *ail Greadigaeth*, neu *Greadigaeth newydd*; ac weithjau yn *Adgyfodiad*, a weithier ynnom trwy Rinwedd Adgyfodiad Criſt. —— 1 Pedr i. 3. *Bendigedig fyddo Duw a Thâd ein Harglwydd Jeſu Griſt, yr hwn yn ôl ei fawr drugaredd a'n hadgenhedlodd ni i obaith bywjol, trwy adgyfodiad Jeſu Griſt oddi wrth y meirw.* Col. iii. 1. 2 Cor. v. 17. 1 Pedr ii. 24.

3. Mi ddylwn yftyriaid, yr Angenrheidrwydd o Farwolaeth i Bechod, a Genedigaeth newydd i Gyfiawnder; *o blegid ein geni mewn pechod, ac yn blant digofaint:* canys yr ym ni wrth naturjaeth yn bechadurus, a than Ddigofaint Duw, trwy bechod ein Rhieni cyntaf. —— Sal. li. 5. *Wele, mewn anwiredd y'm lluniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf.* —— Rhuf. v. 18, 19. — *Trwy gamwedd un y daeth barn ar bob dyn i gondemniad.* — *Trwy anufudd-dod un dyn y gwnaethpwyd llawer yn bechadurjaid.* — Eph. ii. 3. — *Yr oeddym ni wrth naturjaeth yn blant digofaint, megis eraill.* Job xiv. 4. Joan iii. 6.

4. Mi ddylwn yftyriaid, mai diben y Farwölaeth i Bechod, a'r Enedigaeth newydd i Gyfiawnder, yw, ein gwneuthur yn

yn *Blaun Grâs*; ſef, ein ſymmud oddi dan ddamnedigaeth a digofaint i ſtâd o Jechydwriaeth; i fod, trwy Undeb â Chriſt, yn Blant i Ddouw, ac Etifeddion Teyrnas Nefoedd.

Cw. Pa ham y gelwïr y Grâs mawr hwn yn Enedigaeth *newydd*?

Att. 1. O herwydd fod y Grâs hwn yn ein ſymmud i ſtâd a chyflwr newydd, allan o golledigaeth i feddiant o Bywyd tragywyddol. —— Luc xv. 32. — *Dy frawd hwn oedd farw, ac a aeth yn fyw drachefn; ac a fu golledig, ac a gafwyd.* 2. O herwydd fod y Grâs hwn yn gweithio tymherau a thuedd newydd ynnom; *fel y gwaſanaethom Ddouw mewn newydd-deb yſbryd, ac y rhodiom mewn newydd-deb buchedd.* —2 Cor. v. 17. *Od oes neb yng Nghriſt, y mae efe yn greadur newydd. Yn hên berhau a aethant heibio; wele, gwnaethpwyd pob peth yn newydd.* Rhuf. vi. 4. vii. 6. Eph. iv. 22, 23.

3. O herwydd fod y Grâs hwn yn ein dwyn i feddu llawer o ragorfreintjau a pherthynaſau newydd, nad oedd gennym o'r blaen; ſef, Duw yn Dâd, Criſt yn Briod, yr Ysbryd Glân yn Helpiwr, y Seintjau yn Frodyr, a'r Nefoedd yn Etifeddiaeth i ni. *Eph.* ii. 13, 14. 1 *Cor.* iii. 22, 23. 1 *Pedr* i. 3, 4.

Cw. Pa ham y mae'r Enedigaeth newydd yn angenrheidiol?

Att. 1. O blegid cymmaint yw'n pechod, a llygredigaeth ein natur, trwy'n genedigaeth gnawdol, ni's gallwn fyned i'r Nefoedd hebddi. —— Joan iii. 3. *Jeſu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Yn wîr, yn wîr meddaf i ti, Oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Ddouw.* Hebr. xii. 14. Dad. xxi. 27.

2. Ni's gallwn gael rhan yng Nghriſt hebddi. —— Joan i. 12, 13. *Cymmiſer ag a'i derbyniaſant ef, efe a roddes iddunt allu i fod yn feibion i Ddouw; ſef, i'r ſawl a gredant yn ei Enw ef: y rhai ni aned o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gŵr, eithr o Ddouw.*

3. Ni's gallwn gyflawnu neb Gweithredoedd da hebddi, ag y fo'n wîr yn dda yngolwg Duw. —— Math. vii. 16, 18. — *A gaſgl rhai rawnwin oddi ar ddrain, neu ffigys oddi ar yſgall? Ni ddichon pren da ddwyn ffrwythau drwg, na phren drwg ddwyn ffrwythau da.*

Cw. Trwy ba ſoddjon y mae Gràs yn dwyn yn y blaen yr Enedigaeth newydd?

Att. Trwy *Fedydd*, pan fyddo Gràs ysbrydol yn cydweithio; ac am hynny a elwir yn Olchiad yr Adenedigaeth, megis y dywaid yr Apoſtol. —— Dit. iii. 5. —*Yn ôl ei drugaredd yr achubodd efe nyni, trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân.*

Cw. Pa fodd nad yw *Bedydd* yn effeithjol i ddwyn yn y blaen yr Enedigaeth newydd ym mhawb?

Att. 1. Nid yw'r Moddjon gorau yn effeithjol i bawb, o herwydd eu cyndynrwydd. Rhoddodd Duw Fara o'r Nefoedd, ſef *Manna*, i gadw'r *Iſraëljaid* yn yr anialwch; ac eto y rhan fwyaf o honunt fuant feirw yno, trwy gyfiawn Farn Duw, o herwydd eu gwrthryfelgarwch.

2. Mae'r rhan fwyaf yn gorphwys ar yr arwydd a'r ffurf weledig yn unig, heb ofal parchus a diſgwiliad difrifol am y Gràs ysbrydol anweledig oddi fewn. —— Rhuf. ii. 28, 29. —*Nid enwaediad yw yr hyn ſydd yn yr amlwg* (yn unig.) —*Enwaediad y gâlon ſydd yn yr yſbryd, nid yn y llythyren.*

3. Na ddichon neb ddiſgwil am Addewid y Cyfammod *Bedydd*, heb gyflawnu'r Gofynniad ſydd ynddo; eithr mae'n ſicr i fod yn ſuddjol i bawb a'i harferant yn ddyledus, yn ôl Addewid ac Ordeiniad Duw. —— Hebr. x. 23. —*Canys ffyddlon yw'r hwn a addawòdd.* 1 Theſſ. v. 24. 2 Dim. ii. 13. Rhuf. iii. 3.

Cw. Pa beth a ddiſgwilir gan y rhai a fedyddier?

Att. Dau beth yn bennaf. 1. Edifeirwch, trwy'r hon y maent yn ymwrthod à phechod. 2. Ffydd, trwy'r hon y maent yn ddiyſgog yn credu Addewidjon Duw, y rhai a wnair iddunt yn y Sacrament hwnnw.

Cw. Paham y diſgwilir Edifeirwch gan y rhai a fedyddier?

Att. 1. Ni ddichon dynjon anedifeiriol gael Heddwch à Duw; canys y maent yn elynjon iddo. —— Rhuf. viii. 7. *Synniad y cnawd ſydd elyniaeth yn erbyn Duw: canys nid yw ddaroſtyngedig i ddeddf Duw; o blegid ni's gall chwaith.* Col. i. 21.

2. Y mae Cyfraith Dduw, a'r Efengyl hefyd, yn condemnio pob dyn a barhao yn anedifeiriol. —— Luc xiii. 3. —*Onid edifar-*

edifarhêwch, chwi a ddifethir oll yn yr un modd. Math. xviii. 2, 3.

3. Ni ddichon neb ddychwelyd yn gywir oddi wrth eu pechodau, na chael Maddeuant, heb wir Edifeirwch. —— Act. iii. 19. *Edifarhêwch gan hynny, a dychwelwch, fel y dileer eich pechodau.*

4. I roddi Edifeirwch a Maddeuant ynghŷd, nid Maddeuant heb Edifeirwch, y rhoddwyd Crist yn Awdwr Jechydwriaeth yn y Cyfammod Gras. —— Act. v. 31. *Hwn a dyrchafodd Duw â'i ddeheulaw, yn Dywysog, ac yn Jachawdwr, i roddi edifeirwch i Israel, a maddeuant pechodau.*

5. Ni ddichon neb feddu gwir Ffydd, heb wir Edifeirwch; canys y maent yn cydgerdded. Edifeirwch tu ag at Dduw; a Ffydd tu ag at Grist. yw Swm yr Athrawjaeth a bregethodd Crist a'i Apostolion, pan oeddynt ar y ddaear. Yr Jesu, gan bregethu, a ddywedodd (Marc i. 15.) *Edifarhêwch, a chredwch yr efengyl.* Act. xx. 21.

Cw. Pa ham y disgwilir am Ffydd gan y rhai a fedyddier?

Att. 1. Heb Ffydd ni ddichon Edifeirwch, na dim arall a wnelom, fod yn ddderbyniol gan Dduw, nac yn lleshol i ninnau: canys trwy Ffydd yng Nghrist y mae'n Dyledswyddau yn gymmeradwy, a Moddjon Gras yn suddjol. —— Hebr. xi. 4, 6. *Trwy ffydd yr offrymmodd Abel i Dduw aberth rhagorach na Chain, trwy'r hon y cafodd efe dystiolaeth ei fod yn gyfiawn. Heb ffydd ammhossibl yw rhyngu ei fodd ef.* Hebr. iv. 2. Math. xxi. 22. Rhuf. xiv. 23.

2. Trwy Ffydd y mae'n Hundeb â Christ, a'n Mabwysiad i fod yn Blant i Dduw, a'n Hawl o'r Breintjau a berthyn iddunt. —— Gal. iii. 26. *Chwi oll ydych blant i Dduw trwy ffydd yng Nghrist Jesu.* Joan i. 12. Rhuf. v. 1, 2. viii. 17. Gal. iii. 14, 22.

3. Trwy Ffydd y mae gorchfygu holl brofedigaethau'r byd a Satan, ag y fo'n gwrthwynebu'n Jechydwriaeth ni. —— 1 Joan v. 4. —*Hon yw'r oruchafiaeth sydd yn gorchfygu'r byd; sef, ein ffydd ni.* —— Eph. vi. 16. —*Tarian y ffydd fyn'n diffodd holl biccellau tanllyd y fall.* Hebr. xi. 33—37.

4. Trwy Ffydd y'n sancteiddir, ac y'n dygir i gyffesu ein pechodau, a'u gadel, i fyw yn gyfiawn hyd ddiwedd ein bywyd. —— Act. xv. 9. —*Gan buro eu calonnau hwy trwy ffydd.* —— Act. xix. 18. *A llawer o'r rhai a gredasant a*

ddaethant, ac a gyffesasant, ac a synegasant eu gweithredoedd. Hebr. x. 38.

5. Trwy Ffydd y sicrhëir i ni Fywyd tragywyddol; a'r diffydd a gaiff allan o'r Nefoedd dan Ddigofaint Duw. — Joan iii. 36. *Yr hwn sydd yn credu yn y Mâb, y mae ganddo fywyd tragywyddol: a'r hwn sydd heb gredu i'r Mâb, ni wêl fywyd; eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef.* Hebr. iii. 18.

Cw. Pa ham wrth hynny y bedyddir plant bychain, pryd na's gallant, o herwydd eu hieuengtid, gyflawnu'r pethau hyn?

Att. O blegid eu bod yn addaw pob un o'r ddau trwy eu mechniaid: yr hwn addewid, pan ddelont i oedran, y maent hwy eu hunain yn rhwym i'w gyflawnu.

Cw. A ydyw'r Drefn o Fechniau yn y *Bedydd*, yn Drefn 'sgrythurol?

Att. 1. Mae llawer o fân amgylchion Ordinhadau Crefydd heb eu pennodi'n bendant yn yr Ysgrythur; eithr adawyd i Ddoethineb yr Eglwysydd i'w trefnu fel y gwelont yn fwyaf adeiladus a gweddaidd. —— 1 Cor. xiv. 26, 40. — *Gwneler pob peth er adeiladaeth. Gwneler pob peth yn weddaidd, ac mewn trefn.*

2. Er nad yw'r Drefn hon wrth ei henw yn yr Ysgrythur, etto mae'n Drefn gyffredinol yn yr Eglwysydd oddi ar y prif oesoedd; ac yn ddyledus arnom, o Barch i'r Arglwydd, i ymostwng i Ordinhadau dynol, na fyddont yn wrthwyneb i Ordinhadau Duw. —— 1 Pedr ii. 13. *Ymddarostyngwch o blegid hyn i bob dynol ordinhâd, o herwydd yr Arglwydd.*

3. Yr Arglwydd ei hun a ordeiniodd yr Awdurdodau ag sy'n trefnu'r amgylchion hyn; a'r Arglwydd ei hun sy'n gorchymmyn yn gaeth, i bawb roddi Ufudd-dod iddunt, yn y pethau ni fyddo yn anghyfreithlon. —— Rhuf. xiii. 1, 2. *Ymddarostynged pob enaid i'r awdurdodau goruchel. Canys nid oes awdurdod ond oddi wrth Dduw: a'r awdurdodau sydd, gan Dduw y maent wedi eu hordeinio. Am hyny, pwy bynnag sydd yn ymofod yn erbyn yr awdurdod, sydd yn gwrthwynebu ordinhâd Duw: a'r rhai a wrthwynebant,*

daerbyniant ſarnedigaeth idaunt eu hunain. Dit. iii, 1, 2.

4. Ni ddichon neb ammau, na fyddai'n ſuddjol i'r Mechniau gyflawnu eu Dyled; ac nid yw eſgeuluſdra rhai, yn gwneuthur y peth ſy'n ſuddjol yn anghyfreithlon i eraill, mwy nag y mae anghrediniaeth rhai yn diſtrywio Ffydd rhai eraill. —— Rhuſ. iii. 3. *Beth o's anghredodd rhai? a wnâ eu hanghrediniaeth hwy ffydd Duw yn ofer?*

5. Fe fyddai yn fwy lleſiol, ac yn llai peryglus, i ymrôl yn oſtyngedig i ddefnyddio Treſniadau Eglwyſig yn well, yn hytrach na u cablu'n ddirmygus; gan yſtyriaid beth a ddywed yr Ysbryd Glân am ddirmygwyr Llywödraeth. —— 2 Pedr ii. 10, 12. —— *Rhyfygus ydynt, cyndyn, nid ydynt yn arſwydo cablu urddas. — Hwy gablant y perthau ni wyddant ddi wrthunt, ac a ddifethir yn eu llygredigaeth eu hunain.* Jud. 8.

Cw. Pa Sail ſydd am fedyddio Plant bychain?

Att. 1. Ni ddylyd naccâu *Bedydd*, ag ſy'n Sel o'r Cyfammod Gràs, i Blant y Ffyddlonjaid; o blegid eu bod dan Gondemmad trwy'r Cyfammod Gweithredoedd: a phe gadawid hwy heb hawl yn y Cyfammod Gràs hefyd, hwy yddent, er anghyfiur mawr i'w Rhieni, dan Farn echrydus Golledigaeth dragywyddol yn ddiammau, heb arwydd nac ddewid am Drugaredd Duw, na rhan yng Nghrift; eithr n blant Digofaint, megis eraill wrth nàtur; ac felly yn wyr-ddiobaith am Jechydwriaeth, pan fyddont farw'n abanod. *Eph.* ii. 3, 11, 12.

2. Fe ddylyd bedyddio Plant y Ffyddlonjaid; o blegid negis yr oedd y Cyfammod Gweithredoedd, a'r Sel o hono, n perthyn i *Adda* a'i Blant; felly y mae'r Cyfammod Gràs, 'r Sel o hono, yn perthyn, trwy Grift, i'r Ffyddlonjaid a'u Plant: canys nid oes i ni feddwl, fod mwy o effaith yn y yfammod Gweithredoedd, i ddwyn Damnedigaeth ar blant rhai digred trwy Gwymp *Adda*, nag y fydd o Rinwedd yn Cyfammod Gràs, trwy Gyfryngdod Crift, yr ail *Adda*, i dwyn Jechydwriaeth i Blant y Ffyddlonjaid. —— Rhuſ. 15, 18. —— *Canys o's trwy gamwedd un y bu feirw llawer, rwy o lawer yr amlhaodd gràs Duw, a'r ddaun trwy ras r un dyn Jeſu Grift, i laweroedd. Felly gan hyny, megis rwy gamwedd un y daeth barn ar bob dyn i gondemnïad,*

felly

felly hefyd trwy gyfiawnder un y ddaeth y dawn ar bob dyn i gyfiawnhâd bywyd.

3. Fe ddylyd bedyddio Plant y Ffyddlonjaid i'r un Cyfammod â hwynt eu hunain; o blegid fod plant bychain megis rhannau naturjol o'u rhieni, tra font yn fabanod, ag a gynhwyfir yn y Bygythion a wneir i rieni drwg, ac yn yr Addewidjon a wneir i Rieni da, fel cangau o'r un gwraidd. ——— Rhuf. xi. 16. *Canys o's ſanctaidd y blaenffruyth, y mae'r clamp roes hefyd yn ſanctaidd: ac o's ſanctaidd y gwreiddyn, y mae'r canghennau hefyd felly.* Deut. iv. 37, 40. xxviii. 1—4. xxx. 6, 19. Sal. cii. 28. Diar. xi. 21. xx. 7. Jer. xxxii. 38, 39. Eſeſod. xx. 5. xxxiv. 7. Deut. xxviii. 15, 28, 45, 46. Sal. xxi. 10. cix. 9, 10. Eſay. xiv. 20, 21. Jer. xxii. 28. xxxvi. 31.

4. Fe welir Eſamplau lawer yn yr Yſgrythur o blant bychain yr annuwjol, yn gydgyfrannog â'u rhieni o Farnedigaethau trymmion: ac am hynny, megis y mae Barn a Melldith y rhai drygionus yn perthyn i'w plant gyd â hwy; felly y mae Breintjau'r Scintjau, trwy Grift, yn perthyn i'w Plant hwyntau, oddieithr iddunt ymwrthod â Duw eu tadau: canys nid yw Cyfnawnder a Digoſaint Duw yn helaethach i ddifetha, hiljogaeth yr annuwjol, nag yw ei Râs a'i Drugaredd ef i achub Plant y Ffyddlonjaid; ac am hynny, ni ddylyd pallu *Bedydd*, Arwydd yr Addewidjon o Drugaredd Duw, iddunt. *Num.* xiv. 33. 2 *Bren.* v. 27. *Joſ.* vii. 24, 25. *Jer.* xxii. 28.

5. Fe ddylyd bedyddio Plant y Ffyddlonjaid yn awr, megis yn enwaedwyd plant yr *Iuddewon* gynt; canys Sêl y Cyfammod ydoedd yr *Enwaediad* y pryd hynny, fel y mae y *Bedydd* yn awr; a ordeiniodd Crift yn lle'r *Enwaediad*. *Abraham* ac *Iſmael* ei fâb, a phawb a aneſid yn ei dŷ, a enwaedwyd yr un dydd: a Duw a orchymmynnodd i holl bobl *Iſrael* ddwyn eu plant i'r Cyfammod gyd â hwynt, a rhoddi iddunt Sêl y Cyfammod, ac enwaedu armunt. *Gen.* xvii. *Deut.* xxix. 10—12. *Col.* ii. 11, 12.

6. Fe ddylyd bedyddio Plant y Ffyddlonjaid, yn ganlyniad i Enwaediad plant yr *Iuddewon*; o blegid mai'r un *Cyfammod o Res*, o ran ſylwedd, a wnaeth Duw â hwy a ninnau. Inſel Cyfnawnder y Ffydd, ſef y Cyfammod Grâs, oedd yr *Enwaediad*. Ni wnaeth Duw Gyfammod Gweithredoedd â neb, ar ôl i ni oll ei dorri yng Nghwympo *Adda*.

am

am nad allai neb fod yn gadwedig trwyddo: ac fe'n himpiwyd ni (y Cenhedloedd) i mewn i'r unrhyw Ragorfreintjau a'r *Iuddewön* yn gyflawn: ac am hynny, megis y torrwyd hwy a'u *plant* ymmaith oddi wrth Sêl a Goruchwiliaeth y Cyfammod Gràs, minnau a'n *plant* a himpiwyd i mewn i'r un gwreiddyn: Canys, *Benaith Abraham a ddaeth ar y cenhedloedd trwy Grift Jefu.* —— *Ni wnaeth efe ddim gwahaniaeth rhyngom ni a hwynt.* —— *Yn yr un modd yr oeddynt hwy a ninnau yn gadwedig.* Gal. iii. 14. Act. xv. 9, 11. Rhuf. iv. 11. xi. 15—17.

7. Ni a ddylem ddwyn ein Plant i'r Cyfammod trwy *Fedydd*, fel y gwnai'r *Iuddewön* trwy'r *Enwaediad*; o blegid fod y Cyfammod Gràs o'r un helaethrwydd yn awr dan y Teftament Newydd, ar ôl dyfod Grift i'r byd, ag ydoedd y pryd hynny dan yr Hen Deftament, cyn i Grift ddyfod: canys ni ddaeth Crift i'r byd i gyfyngu'r Cyfammod, nac i wneuthur cyflwr babanod yn wnaeth. O'r oeddynt yn y Cyfammod o'r blaen, y maent felly etto. Ni ellir diddymmu un Ragorfraint ysbrydol ag a roddodd Duw unwaith i blant, neu eraill, oddieithr i Dduw ei hun ei galw yn ôl; eithr ni alwodd Duw erioed yn ôl Ragorfreintjau Plant y Ffyddloniaid. —— Rhuf. xi. 29. *Canys diedifarus yw doniau, a galwedigaeth Dduw.* —— Jer. xxx. 20. *Eu meibion hefyd fydd megis cynt, a'u cynnulleidfa a ficrbëir ger fy mron: a mi a ymwelaf â'u holl orthrymmwyr hwynt.*

8. Fe ddylai Efampl *Abraham* a phobl yr *Iuddewön*, yn en waedu eu plant yn ôl Gorchymmyn Duw, ein rhwymo ni i fedyddio ein plant; o blegid mai Sêl y *Cyfammod cragyfnyddol* oedd yr *Enwaediad* y pryd hynny; fef, Cyfammod ag oedd, yn y Sylwedd a'r Rhwymedigaeth ysbrydol o hono, i barhau byth, ac nid i fyned heibio fel defodau feremoniawl y Ddeddf: canys hwn yw'r Cyfammod a gadarnhaodd Duw trwy Lw, er cyffur cryf i *ni* dan yr Efengyl; ac nid yw, gan hynny, wedi ei gyfnewid er gwaeth mewn dim, mewn perthynas i blant, na neb arall. Duw a ddywedodd wrth *Abraham* (Gen. xvii. 7.) *Cadarnhaaf fy nghyfammod rhyngof a thi, ac â'th hâd ar dy ôl di trwy eu hoefoedd, yn gyfammod cragyfnyddol, i fôd yn Dduw i ti, ac i'th hâd ar dy ôl di.* —— Hebr. vi. 13, 18. *Canys Duw, wrth wneuthur addewid i Abraham, o blegid nad allai dyngu i neb oedd fwy, a dyngodd*

dyngodd iddo ei hun. Fel trwy ddau beth dianwadal, yn y rhai yr oedd yn ammhoſſibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gallem ni gael cyſſur cryf. Mic. vii. 18—20. Gal. iii. 8, 17.

9. Fe ddylyd bedyddio Plant y Ffyddlonjaid, o herwydd ei fod yn ddiammau yn beryglus ac yn feius, i ddibriſio Rhagorfraint werthfawr, a appwyntiodd Duw o'r dechreuad i Blant ei Bobl: canys Duw a ordeiniodd i dorri ymmaith yr enaid a eſgeuluſai'r *Enwaediad* (Gen. xvii. 14.)—Ac nid ellir rhoi un eſgus cyfiawn am eſgeuluſo *Bedydd Plant*, a ordeiniwyd yn Sêl o'r Cyfammod yn lle'r *Enwaediad*. Gan fod Plant y Ffyddlonjaid yn y Cyfammod gynt gyd â'u Rhieni dan yr Hên Deſtament, ac na ddichon neb ddangos eu bwrw hwynt allan dan y Teſtament Newydd, nac i fod eu cyflwr yn waeth, na'u Breintjau ysbrydol yn llai, dan Efengyl Criſt, nag yr oeddynt dan Gyfraith *Moſes*; nis gellir meddwl, yn ddiryfyg, i Griſt erioed fwriadu eu torri hwynt ymmaith oddi wrth Ordinhâad a ganiattaodd Duw iddunt: canys pe buaſai Criſt yn difreinio plant o'u perthynas i Gyfammod ac Eglwys Duw, gan dynnu ymmaith yr *Enwaediad*, heb ordeinio *Bedyad* i Blant y Ffyddlonjaid yn ei le; oni fuaſai'r *Judderwŷn* yn crochlefain, ei fod ef yn eſgymmuno eu plant allan o Eglwys a Chyfammod Duw? Ac y mae'n ddiammau, y buaſai hyn yn wrthddadl cryfach ganddunt yn erbyn Criſt, nâ'r holl wrthddadleuon eraill i gyd; megis ag y byddai yn ddiammau yn awr hefyd yn rhwyſtr i'w Tröedigaeth hwy: a phe tröent i dderbyn Gweinidogaeth y Teſtament Newydd, hwy fynnent yn ddilys, naill ai'r *Enwaediad*, neu *Fedydd*, yn Sêl o'r Cyfammod i'w plant gyd â hwy, yn ôl y Gyfraith, ac Athrawjaeth *Moſes* a'r Prophwydi; ac nid oes dim yn Efengyl Criſt i ddywedud yn eu herbyn: canys Criſt ei hun a ddywaid,—Math. v. 17. *Na thybiwch fy nyfod i dorri'r gyfraith neu'r prophwydi: ni ddaethym i dorri, ond i gyflawnu.* Jer. xxx. 20. Hebr. viii. 6.

10. Fe ddylyd bedyddio Plant dan y Cyfammod Gras, o blegid i'r holl Gyfammodau a wnaeth Duw â dynjon erioed, gael eu gwneuthur, nid yn unig â hwynthwy eu hunain, eithr â'u plant hefyd gyd â hwy. Felly y gwnaeth Duw y Cyfammod Gweithredoedd ag *Adda*, as â'i hâd: felly y gwnaeth Duw Gyfammod â *Noah* a'i blant, ar ôl

y Diluw: felly y gwnaeth Duw Gyfammod ag *Abraham*, ag *Iſaac*, ac â *Jacob*, ac â'u plant gyd â hwy: felly y gwnaeth Duw Gyfammod yr Offeiriadaeth â *Leſi* a *Phineas*, ac â'u plant gyd â hwy; ac ar ôl hynny, â *Dafydd* ac â'i had hefyd. Yr oedd y Cyfammodau hyn yn Rhagffurfiau, a rhai o honunt o'r un ſylwedd a'r Cyfammod Gràs. A Duw hefyd a ddywaid wrth bawb o'i Bobl, —— Gen. ix. 9. *Wele myfi, ie myfi, ydwyf yn cadarnhàu fy nghyfammod â chwi, ac â'ch had ar eich ôl chwi.* Gen. xvii. 7. xxvi. 4. xxxv. 12. Deut. xxix. 10, 11. Num. xxv. 10—13. Deut. xviii. 5. 1 Cron. xxiii. 13. 2 Sam. vii. 12. xxiii. 5.

11. Fe ddylyd bedyddio Plant y Ffyddlonjaid dan y Cyfammod Gràs; ac onid ê, fel Paganjaid y cyfrifir hwy, ac megis had y rhai digred ac eulynaddolwyr y byd, y rhai nid oes addewid nac arwydd o Obaith iddunt: Eithr y mae'r Yſgrythur yn gwahaniaethu llawer rhyngddunt. Mae'r Yſbryd Glân yn galw plant *yn ſanctaidd*, o herwydd eu perthynas i'r Cyfammod ſanctaidd, pan fytho naill ai tâd neu mam yn credu. 1 *Cor.* vii. 14. — Mae'r Apoſtolion yn eu galw *Ddiſgyblion*; ſef, y plant a enwaedwyd arnunt cyn dyfod *Bedyddi* i mewn. *Act.* xv. 10. — A Chriſt ſy'n eu cyfrif ym mhlith y *rhai crediniol*, o herwydd eu perthynas i Deulu'r Ffydd. *Math.* xviii. 6. — A'r Prophwyd *Eſay* a ddywaid, mai *hâd y rhai bendigedig ydynt hwy a'u heppil gyd a hwy*. Eſay lxv. 23. — A *Dafydd* a ddywaid, y cyfrifir hwynt yn *Genhedlaeth i'r Arglwydd*; a bod yr *Arglwydd yn Dduw iddo ef o grôth ei fam.* Sal. xxii. 10, 30. — A Duw ei hun a ddywaid, mai iddo ef y mae *ei Bobl yn planta meibjon a merched*; ac mai *Plant iddo ef ydynt.* Ezec. xvi. 20, 21. — Ac am hynny, iddo ef y dylyd eu cyflwyno hwy, trwy'r Ordinhâad a appwyntiodd efe i'r diben hynny.

12. Fe ddylyd bedyddio Plant y Ffyddlonjaid, o herwydd fod perthynas Eglwyſig yn ddyledus iddunt, megis y mae dinasfraint yn perthyn i blant y bwrdeiſiaid; a thrwy *Fedydd* y derbynir hwy yn gyntaf i'r Eglwys weledig. Ac nid oes Cyfammod nac Addewid o Jechydwriaeth allan o'r Eglwys: canys Eglwys Criſt yw Teyrnas Nefoedd ar y ddaear; a Chriſt a ddywaid, ei bod yn eiddo plant bychain, gan orchymmyn eu dwyn hwy atto: ac ni ddylyd cadw Etifeddion

y

y Deyrnas allan, na phallu iddunt eu hawl ddyledus yn Nheyrnas Nefoedd, na gofod yn erbyn y peth y mae Crist yn orchymmyn. —— Marc x. 13, 14. *Hwy a ddygasant blant bychain atto, fel y cyffyrddai efe â hwynt: a'r disgyblion a gerydd̂asant y rhai oedd yn eu dwyn hwynt. A'r Iesu pan welodd hynny fu anfodlon, ac a ddywedodd wrthunt, Gedwch i blant bychain ddyfod attafi, ac na waherddwch iddunt: canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas Duw.*

13. Wyn Praidd a Defaid Crist yw eu Plant; ac ni ddylyd cadw yr Wyn allan o Gorlan Crist, na'u rhwystro i'r Olchfa fydd yn ei Waed ef: canys y mae Crist yn addaw'n bennodol i fod yn *Fugail* iddunt; a'i Ysbryd ef a ragddywedodd trwy'r Prophwydi gynt, y byddai i blant bach gael eu dwyn atto dan yr Efengyl ym mreichjau eu rhieni, ac ar eu hysgwyddau. — Esay xl. 11. *Fel bugail y portha efe ei braidd, â'i fraich y casgl ei wyn, ac a'u dwg yn ei fynwes, ac a goleddâ'r mammogjaid.* —— Esay xlix. 22. *Fel hyn y dywed yr Arglwydd Duw, Wele, cyfodaf fy llaw at y cenhedloedd, a dyrchafaf fy maner at y bobloedd: a dygant dy feibjon yn eu mynwes, a dygir dy ferched ar ysgwyddau.* Can. vi. 6. Joan xxi. 15.

14. Fe ddylyd bedyddio Plant y Ffyddlonjaid, o herwydd fod plant yn gyfrannog o'r holl Fedyddiau gynt i gyd ag y fonier am danunt yn yr Ysgrythur, ag oeddynt yn Rhagffurfiau o'r *Bedydd* a ordeiniodd Crist. *Noah* a'i blant a fedyddiwyd yn yr Arch, er nad oedd Ffydd gan bob un o honunt. 1 *Pedr* iii. 20. — Pobl *Israel* a'u plant a fedyddiwyd yn y *Môr Côch* a'r cwmmwl. 1 *Cor.* x. 1, 2. *Ecsod.* xii. 37. — Amryw o blant a fedyddiwyd â *Bedydd yr Ysbryd*; canys amryw a gyflawnwyd â'r Ysbryd Glân o groth eu mammau. Holl fechgyn *Bethlehem*, dan ddwy flwydd oed, a fedyddiwyd â *Bedydd Merthyrdod*; fel, y rhai a laddodd *Herod* yn achos Crist. *Math.* ii. — A *Joan* a fedyddiodd lawer o blant yn ddiammau â *Bedydd Dwfr*: canys fe fedyddiodd yr holl wlâd yn gyffredinol; ac nid oeddynt i gyd yn ddiblant, nac yn debygol i rieni fod yn fodlon, heb i'w plant gael eu bedyddio hefyd, a hwyntau'n arferol, a than Orchymmyn oddi wrth Dduw ei hun, i ddwyn eu plant gyd â hwy i Gyfammod ac Ordinhadau Duw. *Math.* iii. *Gen.* xvii. *Deut.* xxix. 10—13. *Joel* ii. 16.

Y

15. Y mae'n wrthwyneb i Dreſn yr Apoſtoljon, i adel neb mewn Teuluoedd Criſtjonogol heb eu bedyddio; canys yr oeddynt hwy yn bedyddio'r Teulu i gyd, pan fyddai'r Penteulu yn credu. Pan gredodd *Lydia*, hi a'i theulu a fedyddiwyd. Pan gredodd *Ceidwäd y carchar* hanner nôs, yntef hefyd a'i holl deulu a fedyddiwyd yn y man; a *Phanl a* fedyddiodd dylwyth *Stephanas*: ac mae'n amlwg, mai meibjon, a merched, a phlant bach, a feddylir yn bennaf wrth *Deulu* yn yr Yſgrythur. Cymharwch *Eſod.* i. 1. a *Gen.* xlvi. 5. xlv. 18, 19. Cymh. 1 *Sam.* xxvii. 3. a 1 *Sam.* xxx. 6. 1 *Dim.* v. 8. *Gen.* xxx. 30. *Num.* iii. 15.

16. Ni ddichon neb y ſo'n gwîr ofni Duw, ammau'n ſicr ac yn bwyllog, nad oedd plant bychain lawer yn y tair mil a fedyddiwyd gan yr Apoſtoljon ar unwaith: canys nid oedd yr *Juddewon* fodlon i neb Ordinhadau, heb gael eu plant gyd a hwy. Fe ddywaid yr Apoſtol wrth gynnifer ag oedd mewn oedran, am edifarhau, ac a ddywaid am fedyddio *pob un* o honunt, heb ofod dim yn erbyn eu plant: o blegid (medd efe) fod yr Addewid iddunt hwy ac i'w plant hefyd. Ac y mae hyn yn Orchymmyn eglur am *Fedydd Plant*, i bawb a farno'n ddiduedd. —— Act. ii. 38, 39. *A Phedr a ddywedodd wrthunt, Edifarhewch, a bedyddier pob un o honoch yn Enw Jeſu Griſt er maddeuant pechodau; a chwi a dderbyniwch ddawn yr Ysbryd Glân. Canys i chwi y mae'r addewid, ac i'ch plant.*

17. Fe ddylyd bedyddio Plant y Ffyddlonjaid, o herwydd fod y Breintjau a'r Bendithion a arwyddocäir ac y ſelir yn y *Bedydd* yn angenrheidjol i'w Jechydwriaeth hwy, ac nad oes Jechydwriaeth hebddunt; ſef, hawl o'r Cyfammod Gras, Maddeuant Pechod gwreiddiol, Undeb â Chriſt, Sanctteiddiad yr Ysbryd Glân, a'r Adenedigaeth: heb yr hyn bethau ni's dichon neb fod yn gadwedig. —— Joan iii. 5. *Jeſu a atrebodd ac a ddywedodd, Yn wîr, yn wîr meddaf i ti, Oddieithr geni dyn o ddauſr ac o'r Ysbryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Duw.*

18. Fe ddylyd bedyddio Plant y Ffyddlonjaid, o blegid ei fod yn dodi Rhwymedigaeth grymmus arnunt i ymwrthod â gweithredoedd y diafol, a llawer a dderbyniaſant lesoddi wrtho yn ieuainge. Fe welwyd Argoelion gobeithiol o Ras Duw yn ymddangos mewn amryw yn gynnar jawn,

er, ysgatfydd i gymdeithas drwg eu llygru eilwaith. Ac y mae *Bedydd Plant* hefyd yn cynnal i fynu Gyffes gyffredin o Grefydd a Chrediniaeth; ag fy'n gwneuthur y Gair a Moddion Gras yn rymmusach, nâ phe baent yn llwyr-ymwadu â'r Ffydd Gristjonogol, i brofferu anghrediniaeth; a chyd â hynny, yn dodi Rhwymedigaeth gref ar eu Rhieni, ac eraill, i ddysgu iddunt eu Dyledswydd: yr hyn beth yw un Diben cyffredinol o'r holl Ordinhadau a orchymmynnodd Duw. —— Sal. lxxviii. 5, 6. *Canys efe a sicrhaodd dystiolaeth yn Jacob, ac a osodod gyfraith yn Israël, y rhai a orchymmynnodd efe i'n tadau eu dysgu i'w plant: Fel y gwybyddai'r oes a ddêl, sef y plant a enid: a phan gyfodent, y mynegent hwy i'w plant hwythau.*

19. Fe ddylyd bedyddio Plant y Ffyddlonjaid, er nad oes ganddunt Ffydd weithredol: canys nid am blant y mae Crist yn dywedud, *Y neb a gretto, ac a fedyddier, a fydd cadwëdig*; ac onid è, ni bydd bosibl i neb plant oll fod yn gadwëdig, a fyddo farw yn jeuainge, am nad ydynt yn credu. Eithr y mae mor sicr, mai nid am blant bach, ond am rai mewn oedran, y dywed Crist hyn; ag yw yn sicr, mai am rai mewn oedran, ac nid am blant bach, y dywaid yr Apostol, *Y neb ni fynno weithio, na chaed fwyta chwaith.* Nid babanod y mae Crist na'r Apostol yn seddwl, y rhai ni's gallant gredu, na gweithio. Ond y mae yn ddiammau, fod mewn babanod gymmaint o gymhwysder i *Fedydd*, ag sydd ganddunt i Gyfiawnhâad a Bywyd tragywyddol; heb yr hyn y byddent i gŷd yn golledig: canys fe fedr Ysbryd Duw weithio y fath Gymhwysdra ag fy raid mewn plant bychain, fel mewn dynjon mawrjon, er na wyddom ni pa fodd y mae'n gweithio yn y naill na'r llall. *Jeremi*, a *Joan Fedyddiwr*, ac amryw eraill, a sancteiddiwyd o grôth eu mammau. *Joan* iii. 8, 9. *Preg.* xi. 5. *Luc* i. 15, 44. *Jer.* i. 5. *Esay* xliv. 3. *Sal.* viii. 2.

20. Fe ddylyd bedyddio Plant y Ffyddlonjaid, o herwydd fod eu Braint i Gyfammod ac Eglwys Duw wedi ei defydlu o'r dechreuad, yn eglurach nag amryw Ordinhadau angenrheidjol eraill. Nid oes Orchymmyn pennodol, nac Esampl, am Wragedd i dderbyn *Swpper yr Arglwydd*; na Gorchymmyn pennodol yn y Testament Newydd, am *Addoliad cenluol*, a *chadwraeth y Sabboth* ar *y dydd cyntaf o'r wythnos*;

wythnos; er eu bod, er hynny, mor eglur, na feiddia un Criſtion ammau yn eu cylch: Ac nid oes un gwrthddadl yn erbyn *Bedydd Plant*, ond y cyffelyb ag a alleſid wrthddywedud gynt yn erbyn yr *Enwaediad*, ac yn awr hefyd yn erbyn amryw Ordinhadau eraill, a orchymmynnodd Duw ei hun; y rhai y bydd rhyw ddynjon tueddol neu gilydd yn gwrthreſymmu yn eu herbyn, tra parhao cyfeiliorni yn y byd. — Rhuf. ix. 20. *O ddyn, pwy wyt ti yr hwn a ddadleui yn erbyn Duw?**

Cw. Ym mha le y dylyd gweini'r Ordinhâad o *Fedydd*?

Att. Nid yn breifat, yn y tŷ gartref, heb angenrheidrwydd mawr; eithr yn gyhoeddus, yn wyneb yr Eglwys, pan fyddo'r Gynnulleidfa ynghŷd. O blegid,

1. Yngwŷdd y Gynnulleidfa mae'n weddus i dderbyn un yn gydaelod â hwy o gorph Eglwys Criſt; fel y byddont oll yn dyſtion, ac oll i gyduno â'i gilydd yn barchedig yn y rhan honno o Addoliad Duw.

2. O blegid fod cyfle i'r Gynnulleidfa dderbyn Adeiladaeth pan y bedyddir un: canys, nid edrych oddi amgylch yn ſegur, neu abſennu oddi wrth y Sacrament cyſſegredig hwn, ym mha un y mae'r Drindod Fendigedig yn breſennol, a ddylent; eithr dwys-yſtyriaid bob un, ac adgofio Addunedau eu *Bedydd*, trwy Help Duw, ar yr achlyſur hyn.

3. O blegid mai Dyled pawb o'r Gynnulleidfa yw, cyd-weddio ar Dduw yn deilwng, am Fendith ar y Sacrament hwn i'r neb a fedyddir: canys pe baem yn fwy difrifol yn ein Gweddiau, mae'n ddiammau y byddai Ordinhadau Duw yn fwy lleſiol; arferiad ammharchus o honunt, yw'r achos o'u hafles.

E *Cw.* Beth

* Gan nad yw'r Awdwr ond amddiffyn Eglwyddor a Defod ddiddadl yr Eglwys Gatholig ym mhob oes o honi, mae'n gobeithio y bydd i'r goftyngedig a'r pwyllog, ag ſy'n ofni Duw, ac yn hoffi Heddwch, o'u hanfol farn, i bwyſo'r Yſtyriaethau hyn yn ddiduedd; ac o's nid allant gydſynnio â hwynt, y parhaant yn heddychol tu ag at yr Awdwr, megis y mae'r Awdwr tu ag atynt hwy. Eithr, o's mŷn neb gynhennu ac ymryſon, nid yw'r Awdwr yn hoffi hynny: ond y mae yn hwriadu, o's bydd rhaid, ddangos Amddiffynfa ychwanegol o'r Duw a fyn, erbyn y bo achos wrtho; eithr, nid heb gymmeryd dan ei yſtyriaeth Gynghor y *Gŵr doeth*. Diar. xxvi. 4, 5.

Cw. Beth yw Dyled Rhieni y Plant a fedyddier?

Att. 1. Hwy a ddylent ymddaroſtwng yn bruddaidd ger bron Duw, o blegid y llygredigaeth gwreiddjol a dderbyniodd eu Plant oddi wrthunt, fel gwahanglwyf marwöl a ddug Ddinyſtr tragywyddol arnunt, oni ragflaena Gràs Duw.

2. Hwy a ddylent gyflwyno eu Plant mewn Cyfammod i Dduw yn wîr ddifrifol, ac â'u holl galonnau; gan weddio ar Dduw, eu ſanctteiddio hwy â'i Ysbryd Glân, a'u golchi yng Ngwaed Criſt; a pharhâu i weddio droſtunt.

3. Hwy a ddylent ddiolch i Dduw am y Cyfammod Gràs, heb ba un ni fuaſai Gobaith am Fywyd tragywyddol iddunt hwy, na'u Plant ychwaith; ac yſtyriaid, pa un a ydynt yng Nghyfammod Duw mewn gwirionedd: canys, er fod Proffes o Grefydd yn rhoi hawl iddunt o Oruchwiliaeth y Cyfammod ger bron dynjon; etto, nid dim llai nâ Gwirionedd Gràs ynddunt, all roi iddunt Sail ficr i obeithio fod yr Arglwydd yn Dduw cyfammodol iddunt hwy a'u hâd.

4. Hwy a ddylent ddyſgu i'w Plant Wyddorjon a Dyledſwyddau Crefydd, a'u dwyn yn ddyfal dan Foddjon Gràs, a rhoddi Eſamplau bucheddol iddunt, a gwilio droſtunt, rhag i arferion pechadurus y byd, a chymdeithas ddrwg, eu llygru; yr hyn a lygrodd filoedd o rai a oeddynt yn Blant gobeithiol unwaith yn eu jeuengctid.

5. Hwy a ddylent, hyd eithaf o'u gallu, oſod eu Plant i gydfyw â Theulu'r Ffydd, a fyddo yn gwîr-addoli Duw, pan fyddont yn ymadel â thŷ eu Tâd. Trwy gymmyſgedd Plant Duw â chenhedlaeth ddrygionus yr annuwjoljon, y llygrwyd trigoljon yr hên fyd, ac y llanwyd y ddaear â phechod; nes cyffrôi Duw i'w ddiſtrywio â'r Dwfr Diluw.

Cw. Beth yw Dyled y Plant a gafodd eu bedyddio?

Att. 1. Pan ddelont i oedran a dyall, hwy a ddylent yſtyriaid yn alarus lygredigaeth eu nàtur, a'u colledigaeth ynddunt eu hunain pân ddaethont i'r byd; am nad oedd Jechydwriaeth iddunt, ond trwy Gyfryngdod Criſt yn y Cyfammod Gràs: canys er Maddeuant pechodau y'n bedyddir oll; fel na's dichon neb wadu Pechod gwreiddjol, heb wadu Diben eu *Bedydd*; nac yn unjawn i wadu *Bedydd Plant*, heb wadu Pechod gwreiddjol. *Act.* ii. 38.

2. Hwy a ddylent ddiolch i Dduw, am eu cymmeryd yn Blant iddo ei hun trwy Griſt Jeſu, i feddu rhan yn yr Addewidjon a'r Breintjau a berthyn i Bobl Dduw; ac i fod

dan

dan Nawdd ei Ddajoni, a Gofal neillduol ei Ragluniaeth ef; gan weddio yn ddyfal am Râs, fel na fforffettont y Breintjau hyn byth.

3. Hwy a ddylent lafurio am Wybodaeth o'r Cyfammod trwy ba un y derbyniwyd hwy yn Blant i Dduw; fel y dyfgont i gymmeryd Duw fel eu Tâd a'u Dedwyddwch pennaf, yr Arglwydd Jeſu fel eu Tywyſog a'u Jachawdwr, yr Yſbryd Glân fel eu Sancteiddiwr a'u Diddanwr, Gogoniant Duw yn Ddiben, a Gair Duw yn Rheol ym mhob peth, a Phobl Duw yn Gyffeillion ac yn Frodyr iddunt.

4. Hwy a ddylent gymmeryd Cyfammod eu *Bedydd* arnunt eu hunain, yn gydwybodol, ac yn gynnar, yn *Swpper yr Arglwydd*: canys, oni *unant* eu hunain yn ewyllyſgar â'r Arglwydd pan ddelont mewn oedran, maent yn ymwadu â'u *Bedydd*, ac ni chânt lês oddi wrtho.

5. Hwy a ddylent yn fynych atgofio Ammodau eu Cyfammod *Bedydd*, i'w deffrôi i edifarhau am eu troſedd o honunt; ac yſtyriaid y Rhwymedigaeth ſydd arnunt i ymwrthod â holl weithredoedd y diafol, rhodres y byd, a chwantau pechadurns y cnawd; ac i gredu holl Byngcjau Ffydd Criſt, a chadw Ewyllys gwynfydedig Duw a'i Orchymmynnion; o's mynnant fod yn Aelodau i Griſt, yn Blant i Dduw, ac Etifeddion Teyrnas Nefoedd.

6. Fe ddylai pob dŷn gofio Adduned ei *Fedydd* yn amſer profedigaeth, pan ſo pechod yn ymgynnyg iddo; a dywedud ynddo ei hun, Pa fodd y gwadaf fy *Medydd*, ac y torraf fy Nghyfammod â Chriſt? Fe'm cyſſegrwyd i Dduw, ac i 'Stâd o Jechydwriaeth, yn Enw'r Tâd, a'r Mâb, a'r Yſbryd Glân; pa fodd gan hynny y gallaf dynnu yn ôl, i roddi fy hun i'r diafol, ac i daflu fy hun i golledigaeth, am bleſer y pechod hwn? 1 *Cron.* xvi. 15.

7. Fe ddylai pawb a fedyddiwyd, ddyfal-arferyd pob moddjon i gynhyddu yng Ngrâs Duw; fel na chymmeront yn gywilydd i gyffeſu Ffydd Criſt a groeſhoeliwyd; ac y gallont ymrôi, trwy ei Râs ef, i filwrio yn wrol dan Faner Criſt, yn erbyn pechod, y byd, a'r cythraul; a pharhàu yn filwyr, ac yn weiſion ffyddlon i Griſt holl ddyddjau eu bywyd. *Diar.* xxvii. 10. *Gal.* iii. 3. *Preg.* xii. 1. *Diar.* vi. 17. xxvii. 10. 2 *Cor.* vi. 20. 2 *Pedr* ii. 21, 22.

Cw. Chwi a ſoniaſoch yn helaeth am *Fedydd*; beth yw *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Swpper yr Arglwydd yw'r ail Sacrament, a ordeiniodd Criſt yn ei Eglwys dan yr Efengyl, yn lle *Oen y Pâſg* yn yr Eglwys *Juddewïg* dan Gyfraith *Moſes*.

Cw. Wrth ba enwau y gelwïr y Sacrament hwn yn yr Yſgrythur?

Att. 1. Yr ydys yn ei alw yn *Gwppan y Fendith*; o blegid y Bendithion a bwrcaſodd Criſt, ag ydys yn arwyddocâu ac yn ſelio ynddo. 1 *Cor.* x. 10.

2. Yr ydys yn ei alw yn *Gymmun Corph a Gwaed Criſt*; am fod y Cymmunwyr difrifol yn gydgymmunol neu'n gydgyfrannog o Ddonjau'r Prynedigaeth a bwrcaſodd Criſt. 1 *Cor.* x. 16.

3. Yr ydys yn ei alw, *Bwrdd yr Arglwydd*; o herwydd fod yr Ordinhâad hon fel Gwlêdd ysbrydol, lle mae Gweiſion Criſt yn bwyta ac yn yfed gyd ag ef ar ei Fwrdd. 1 *Cor.* x. 21.

4. Yr ydys yn ei alw yn *Dorri Bara*; o herwydd fod Bara yn cael ei dorri a'i fwyta ynddo, yn arwyddocâad o Ddioddefaint Criſt, ac o Gymmundeb y Saint. *Act.* ii. 24. 1 *Cor.* x. 17.

5. Yr ydys yn ei alw yn *Waed y Teſtament newydd*; o herwydd fod Bendithion y Teſtament newydd, ſef y Cyfammod newydd, yn cael eu ſelio yng Ngwaed Criſt i'w Bobl ef yn y Sacrament hwn.

6. Yr ydys yn ei alw yn *Swpper yr Arglwydd*; o herwydd mai ar ddiwedd ei Swpper ddiweddaf, cyn ei fradychu a'i groeſhoelio, y darfu i'r Arglwydd Jeſu ordeinio'r Sacrament hwn.

Cw. Pa wahaniaeth ſydd rhwng *Swpper y Arglwydd*, yr ail Sacrament, a *Bedydd*, y Sacrament cyntaf yn Eglwys Criſt?

Att. Yr un yw Awdwr y ddau; ſef, Criſt: Seliau'r un Cyfammod yw'r ddau; ein Colledigaeth ynnom ein hunain, a'r Jechydwriaeth ſydd yng Nghriſt, a'n Dyled i gredu, a oſodir allan yn bennaf, yn y ddau: eithr y maent yn gwahaniaethu mewn pum peth; ſef,

1. Y maent o wahan enwau: *Bedydd*, a *Golchiad yr Adenedigaeth*, y gelwïr y Sacrament cyntaf; *Swpper yr Arglwydd*, a *Bwrdd yr Arglwydd*, a *Chymmun Corph a Gwaed Criſt*, y gelwïr yr ail Sacrament.

2. Nid yr un Arwyddjon gweledig ſydd ynddunt: *Dwfr* yw'r Arwydd weledig yn y *Bedydd*; *Bara a Gwin* a ordeiniodd Criſt yn *Swpper yr Arglwydd*.

3. Nid i'r un Pwrpas neillduol y mae'r ddau: canys, Arwydd o'n Himpiad cyntaf i mewn i Gorph Criſt dan Oruchwiliaeth y Cyfammod Grâs, yw *Bedydd*; eithr Arwydd o'n Sefydliad a'n Cynnydd yng Nghriſt, yw *Swpper yr Arglwydd*.

4. Nid yw pob un o'r ddau Sacrament hyn i'w harferyd amryw weithjau: canys ni ddylyd bedyddio ond unwaith yn unig; *un Duw*, *un Bedydd*; eithr ſe ddylyd derbyn *Swpper yr Arglwydd* yn fynych.

5. Mae *Bedydd*, y Sacrament cyntaf, yn perthyn i Blant y rhai a broffeſant Ffydd Criſt, i'w derbyn i Eglwys Duw, megis i Fammaethdy ysbrydol, i'w meithrin ar fronnau eu mam; eithr ni ddylyd derbyn neb i *Swpper yr Arglwydd*, ond y rhai a fo mewn oedran yn unig.

Cw. Pa ham na roddir *Swpper yr Arglwydd* i Blant; canys mae'r Criſt'nogjon a'r Eglwyſydd *Groegaidd*, ag ſy'n aml jawn trwy wledydd y dwyrain, nid yn unig yn bedyddio, ond yn rhoddi *Swpper yr Arglwydd* heſyd i'w Plant?

Att. 1. Ni ddylyd rhoddi *Swpper yr Arglwydd* i Blant bach; o blegid ei fod yn anghyttun à Threfn yr holl Eglwyſydd puraf, trwy holl oeſoedd a gwledydd y byd; er fod tyſtiolaethau aneirif, eu bod hwy oll yn bedyddio Plant y Crediniol.

2. Mae Cyflwyniad o Blant mewn ffordd o Gyfammod i Dduw, yn Enw'r Tâd, a'r Mâb, a'r Ysbryd Glân, yn y *Bedydd*, yn ddigon i wahaniaethu rhyngddunt a phlant Paganjaid digred, ac yn Sail ddigonol o Obaith i Rieni duwjol am Jechydwriaeth eu Plant, pan fyddont farw yn fychain; ac nid ellir cadarnhâu'r Cyfammod hwnnw yn rymmuſach, nes delont mewn oedran a dyall i'w gymmeryd arnunt eu hunain, ac i'w wneuthur yn weithred o'u heiddo eu hun.

3. Mae Duw yn gorchymmyn tri pheth pennodol i bawb a ddêl i *Swpper yr Arglwydd*, ag ſy'n cau allan blant bach

a dynjon cuall; ſef, (1) Bod i'r Cymmunwyr oll gofio Marwölaeth Criſt. (2) Bod i bob un holi ei hun; ac felly i fwyta o'r Bara, ac yfed o'r Cwppan. (3) Bod iddunt oll jawnfarnu Corph yr Arglwydd; ſef, adnabod Yſtyr ysbrydol y Bara a'r Gwîn, a'r gwahaniaeth ſy rhyngddunt ag ymborth cyffredin: yr hyn ni ddichon Plant, nes dyfod i oedran a dyall.

Cw. Pa wahaniaeth ſydd rhwng *Swpper yr Arglwydd* ac *Oen y Pâſg*, Sacrament yr *Juddewön* gynt?

Att. 1. Yr oedd *Oen y Pâſg* yn Arwydd o Waredigaeth dymhorol yr *Juddewön* o wlâd yr *Aipht*; mae *Swpper yr Arglwydd* yn Arwydd o'n Hymwared ni oddi wrth Golledigaeth dragywyddol.

2. Yr oedd *Oen y Pâſg* yn Arwydd o Griſt *i ddyfod*; ond y mae *Swpper yr Arglwydd* yn Arwydd o Griſt *wedi dyfod.*

3. Yr oedd *Oen y Pâſg* i barhâu hyd Ddioddefaint Criſt; ond y mae *Swpper yr Arglwydd* i barhâu hyd Ddyfodiad Criſt i'r Farn.

Cw. Ym mha bethau y mae *Swpper yr Arglwydd* ac *Oen y Pâſg* yn gyffelyb i'w gilydd?

Att. 1. Ar Enw'r Arglwydd y gelwïr y ddau. *Pâſg yr Arglwydd* y gelwïr y naill, a *Swpper yr Arglwydd* y gelwïr y llall; canys yr Arglwydd a ordeiniodd y ddau. *Ecſod.* xii. 12. 1 *Cor.* xi. 20.

2. Yr oedd *Oen y Pâſg* i fod yn berffeithgwbl, ac i'w ladd a'i fwyta wedi roſtio wrth dân, yn gyffelybiaeth o Griſt, *Oen Duw*, a groeſhoeliwyd droſom, i dynnu ymmaith ein pechodau; ag y ddylem ni ymborthi arno trwy Ffydd, yn *Swpper yr Arglwydd.* Ecſod. xii.

3. Yr oedd gwaed *Oen y Pâſg* yn Arwydd i'r *Iſräeljaid* o'u Gwaredigaeth hwy, pan oedd Duw yn diſtrywio'r *Aiphtjaid.* Trwy Waed Criſt, a arwyddocëir yn *Swpper yr Arglwydd*, y gwaredir Pobl Dduw, pan ddiſtrywïr holl annuwioljon y byd. *Ecſod.* xii. 12, 13.

4. Er coffadwriaeth i bobl *Iſräel* o'u Gwaredigaeth o dîr yr *Aipht*, a thŷ'r caethiwed, trwy'r *Môr Coch*, yr ordeiniwyd y *Pâſg*; ac er coffadwriaeth o'n Hymwared ni oddi dan gaethiwed Satan a phechod, trwy Waed Criſt, yr ordeiniwyd *Swpper yr Arglwydd.* Ecſod. xii. 14. 1 Cor. xi.

5. Yr

5. Yr oedd pobl *Iſräel* i fwyta *Oen y Pâſg* yn gyſan, gyd â dail ſurion, a bara croyw, ac heb ſurdoes yn eu teiau; a chwedi ymwiſgo, i fyned ar ffrwſt allan o'r *Aipht* oddi dan lywödraeth *Pharao:* ac felly y mae i ninnau dderbyn Criſt yn *Swpper yr Arglwydd*, yn gyflawn, nid mewn rhan yn unig; gyd ag Edifeirwch a Phurdeb duwjol; gan fwrw ymmaith lefain malais a drygioni, ac ymwiſgo ag arfogaeth Grâs Duw, i ymadel ar ffrwſt oddi dan lywödraeth Satan a phechod dros byth. *Ecſod.* xii. 1 *Cor.* v. 7, 8.

6. Nid oedd i neb dienwaededig, na dieithr, nac aflan, i fwyta o *Oen y Pâſg*; ac nid oes i neb difedydd, neu ddieithr i Deulu'r Ffydd, nac un o fuchedd aflan, ddyfod i *Swpper yr Arglwydd.* Ecſod. xii. 43, 48.

7. *Pâſg yr Arglwydd* oedd yr Ordinhâad uchaf, a mwyaf rhagorol, ag a roddodd Duw i'w Bobl dan y Gyfraith; a *Swpper yr Arglwydd* dan yr Efengyl, yw'r Ordinhâad fwyaf ardderchog a ganiattaodd Duw i'w Bobl erioed; lle'r arwyddocëir y pethau mwyaf rhyfeddol ac ardderchog, ac y'n derbynier ni gan yr Arglwydd, nid fel gweiſion, eithr yn hytrach fel Cyfeillion, a Brodyr, a Gwahoddedigion, i gydwledda ag ef, ac i gyfrannu rhyngom Olud anchwiliadwy ei Râs, a ſicrwydd o Deyrnas Nefoedd.

Cw. Pa ham yr ordeiniwyd Sacrament *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Er mwyn tragywyddol gôf am aberth dioddefaint Marwölaeth Criſt, a'r llesâad yr ydym ni yn ei dderbyn oddi wrtho.

Cw. Pa ſawl peth a ddylech gofio am danunt yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Tri pheth.

1. Mi ddylwn gofio am Ddioddefaint a Marwölaeth Criſt: canys felly y gorchymmynnir i ni. —— 1 Cor. xi. 26. *Cynnifer gwaith bynnag y bwytaoch y bara hwn, ac yr yfoch y cwppan hwn, y dangoſwch farwölaeth yr Arglwydd oni ddelo.*

2. Mi ddylwn gofio, fod Dioddefaint Marwölaeth Criſt yn Aberth i Dduw drofof. —— 1 Cor. v. 7. —— *Canys Criſt ein Pâſg ni a aberthwyd drofom ni.*

3. Mi ddylwn gofio am y llesâad ſydd i mi trwy Aberth Dioddefaint a Marwölaeth Criſt; canys efe a ddaeth i *ddileu pechod, trwy aberthu ei hun.* Hebr. ix. 26.

Cw. Beth a ddylech yſtyriaid ynghylch Aberth Dioddefaint Marwölaeth Criſt?

Att. 1. Mi ddylwn yſtyriaid, fod yr holl fyd wedi pechu a fyrthio dan Ddigofaint Duw; ac nad oedd yn gyttun â Chyfiawnder Duw, i faddau pechod heb Aberth am dano. *Rhuf.* iii. 23—25.

2. Mi ddylwn yſtyriaid, nad oedd aberthu holl greadurjaid y byd yn jawn ddigonol am bechod dŷn; canys nid oedd yr Aberthau gynt ond Cyſgodau o Griſt. *Hebr.* ix. 9. x. 1.

3. Mi ddylwn yſtyriaid, nad oes boſſiblrwydd na gobaith am lês jachuſol i'm Henaid, ond trwy Aberth Dioddefaint Criſt yn unig. *Act.* iv. 12. *Sal.* xlix. 7, 8.

Cw. Pa Lesâad ſy'n dyfod trwy Aberth Dioddefaint Marwölaeth Criſt?

Att. Llês annhraethol. Canys,

1. Trwy Aberth Dioddefaint Marwölaeth Criſt, y rhyddhëir ni o feddiant ein gelynjon ysbrydol, ag ydym wrth nàtur dan eu llywödraeth a'u meddiant. *Hebr.* ix. 12. *Luc* i. 74, 75. *Act.* xxvi. 18.

2. Trwy Aberth Dioddefaint Marwölaeth Criſt, y mae Maddeuant ac Ymwared oddi wrth y golledigaeth a'r poenau tragywyddol a ddygodd pechod arnom. —— Hebr. ix. 22. —*Heb ollwng gwaed nid oes maddeuant.* Math. xxvi. 27, 28. Joan iii. 16. Rhuf. viii. 1, 34. Ecſod. xii. 22, 23.

3. Trwy Aberth Dioddefaint Marwölaeth Criſt, y rhoddir Ysbryd Duw i adnewyddu a ſancteiddio ein nàtur bechadurus, ac i'n cymmorth yng Ngwaſanaeth Duw. *Joan* xvi. 7. *Gal.* iii. 13, 14.

4. Trwy Aberth Dioddefaint Marwölaeth Criſt yn unig, y cyflawn-fodlonwyd Cyfiawnder Duw, fel y'n derbynid ni i Heddwch â Duw, ac yn Blant iddo. *Rhuf.* iii. 25. 1 *Joan* ii. 2.

5. Trwy Aberth Dioddefaint Marwölaeth Criſt, yr agorwyd i ni ffordd newydd a bywjol i nesâu yn hyderus ger bron Duw, fel y credom yn ddiamhëus, y derbyn Duw, trwyddo ef, ein Gweddiau a'n holl Ddyledſwyddau yn gymmeradwy. *Eph.* iii. 12. *Hebr.* iv. 16. x. 19—21.

6. Trwy

6. Trwy Aberth Dioddefaint Marwölaeth Crift, y rhoddir i bawb a gredant Fywyd tragywyddol, er eu bod wrth naterjaeth yn blant digofaint, a than farn marwölaeth. *Joan* iii. 14, 15. *Hebr.* v. 8, 9.

7. Trwy Aberth Dioddefaint Marwölaeth Crift, y rhoddir i ni Ymwared ficr oddi wrth holl Felldithion echrydus y Gyfraith, a Hawl ficr o holl Fendithion yr Efengyl, ac Addewidjon y Cyfammod Grâs, a bwrcafodd Crift, ac a felir yn ei Waed ef. *Hebr.* ix. 16, 17. *Gal.* iii. 13. 2 *Cor.* i. 20.

Cw. Pa ham yr ordeiniwyd *Swpper yr Arglwydd* er coffadwriaeth o Aberth Dioddefaint Crift?

Att. 1. Am mai'r peth mwyaf pwysfawr, mwyaf buddjol, a mwyaf angenrheidjol, yw: canys pethau angenrheidjol a phwysfawr a orchymmynnir yn yr Yfgrythur i ni gofio am danunt. *Eofod.* xx. 8. *Preg.* xii. 1. *Joan* xv. 20.

2. Am ein bod, trwy'r llygredd pechadurus fydd ynnom, yn dueddol i anghofio'r pethau rheitiaf, megis yr anghofiodd pobl *Ifräel* eu Gwaredigaeth o'r *Aipht* trwy'r *Môr Coch*, a'r Gwyrthjau mawrjon a wnaeth Duw drofunt, ac yr anghofiafant Gyfammod eu Duw, nes ei gyffrôi ef o'r diwedd i'w torri hwynt ymmalth. *Deut.* iv. 23, 24. xxxii. 18—20.

3. Fe ordeiniwyd y Sacrament hwn, i gofio Aberth Dioddefaint Crift, i ddangos i ni ddrwg pechod, a Chyfiawnder a Chariad Duw; ac i ddeffrôi ein Serch a'n Ffydd tu ag at Grift, a'n Diolchgarwch iddo; yr un gyffelyb a phe baem yn ei weled ef â'n llygaid yn aberthu ei hun ar y Groes drofom. —— Gal. iii. 1. *O y Galatiaid ynfyd, pwy a'ch llygad-dynnodd chwi, fel nad ufuddhäech i'r gwirionedd, i ba rai o flaen eu llygaid y portreiadwyd Jefu Grift, wedi ei groefhoelio yn eich plith?*

Cw. I ba ddiben ychwaneg yr ordeiniwyd *Swpper yr Arglwydd*, heb law er côf am dano?

Att. 1. Fe ordeiniwyd *Swpper yr Arglwydd*, yn Sêl o'r Cyfammod Grâs, i'r rhai y mae'r Cyfammod yn perthyn iddunt, i'w rhwymo i gyflawnu'r Gofynniad o hono. *Luc* xxii. 20. *Math.* xxvi. 28. *Hebr.* ix. 15, 16, 22.

2. Fe ordeiniwyd *Swpper yr Arglwydd*, yn fodd i adfywio a chynhyddu Grâs Duw ynnom; fef, i weithio ynnom ychwaneg o Edifeirwch, a Thriftwch duwjol, a Thynerwch Calon; ychwaneg o Ffydd, a Chariad, a Diolch i Dduw, a

Llawenydd

Llawenydd yn yr Ysbryd Glân. *Zech.* xii. 10. *Luc* xxiv. 30—32.

3. Fe ordeiniwyd *Swpper yr Arglwydd*, i wahaniaethu rhwng Diſgybljon Criſt a phobl y byd; ac yn arwydd o Gyffes ein Ffydd, a'n Proffes o Grefydd Criſt: ac ni ddylai ſod yn gywilydd gennym ei arddel ef. *Joan* x. 27, 28. *Rhuf.* i. 16.

4. Fe ordeiniwyd *Swpper yr Arglwydd*, i'n nerthu yn erbyn profedigaethau, a'n diddanu dan bob trallodau, ac i'n cymmorth ym mhob Dyledſwyddau i ogoneddu Duw. 2 *Dim.* ii. 1. 2 *Pedr* iii. 17, 18. *Sal.* xxxiv. 5.

5. Fe ordeiniwyd *Swpper yr Arglwydd*, i ſefydlu Pob Duw mewn Undeb ysbrydol â Chriſt, ac mewn Undeb a Chariad brawdol â'i gilydd, ſel cydaelodau o'i Gorph ef. 1 *Cor.* x. 16, 17. xii. 27. *Rhuf.* xii. 5.

6. Fe ordeiniwyd *Swpper yr Arglwydd*, i'n gwneuthur yn ddiolchgar am Gariad Criſt yn dioddef drosom. Criſt ei hun a'i Ddiſgybljon a ganaſant Hymn o Fawl i Dduw ar ddiwedd y *Swpper*. Math. xxvi. 30.

Cw. Pa beth yw y rhan oddi allan, neu 'r arwydd weledig, yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Bara a Gwîn; y rhai a orchymmynnodd yr Arglwydd eu derbyn.

Cw. Beth a ddylech yſtyriaid ynghylch hyn?

Att. Dau beth.

1. Yr Arwyddjon gweledig a ordeiniodd Criſt yn y Sacrament hwn; ſef, *Bara, a Gwîn.*

2. Gorchymmyn Criſt i dderbyn yr Arwyddjon hyn, ſef, i fwyta o'r Bara, ac i yfed o'r Gwîn. *Math.* xxvi. 26, 27.

Cw. Pa ham yr ordeiniodd Criſt Fara a Gwîn i ſod yn Arwyddjon yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Nid o herwydd ſod rhinwedd naturjol ynddunt wneuthur Lles ysbrydol i ni; canys, trwy Fendith Criſt y mae 'r Sacrament yn lleſiol; eithr y mae cymhwyſder lawer yn y Bara a'r Gwîn i arwyddocâu amryw bethau ddylem yſtyriaid yn *Swpper yr Arglwydd.*

Cw. Pa gymhwyſder ſydd yn y Bara a'r Gwîn, i arwyddocâu amryw bethau y ddylech yſtyriaid yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att.

Att. 1. Yn y parotoad o bonunt, rhaid i'r ŷd gael ei ddyrnu, a'i falu, a'i bobi â thân, cyn y bo yn fara; megis y mae'n rhaid yſſigo'r grawnwin, a'i briwio yn y gwingafn, cyn y bônt yn wîn: ag ſy'n dangos allan Ddioddefaint Criſt, *Hebr.* v. 9.

2. Mae Bara a Gwîn yn dal allan yr angenrheidrwydd o Griſt i bob dŷn: canys ni ddichon neb fyw heb ſuniaeth, neu heb Fara a Gwîn; hynny yw, heb fwyd a diod: ac felly ni's dichon neb byth fwynhâu Bywyd tragywyddol, heb i Griſt fod yn Ymborth ysbrydol iddunt. *Joan* vi. 53. *Act.* iv. 12.

3. Mae Bara a Gwîn yn ſuddjol i feithrin y rhai bychain, i ddiwallu'r rhai newynog, ac i nerthu'r rhai gweinjon i'w gwaith yn y byd. Criſt ſy'n digoni'r Eneidjau newynog, ac yn Gryfdwr iddunt yng Ngwaſanaeth Duw; a thrwyddo ef y mae eu cynnydd mewn Grâs. *Joan* xv. 5. *Phil.* iv. 13. 2 *Dim.* ii. 1. 2 *Pedr* iii. 18.

4. Mae Bara a Gwîn yn adfywjo ac yn llonni càlon dŷn, ac yn fwy dymunol nâ dim i'r rhai ſo mewn diffyg. Criſt yw Diddanwch ei Bobl; efe yw Llawenydd eu calonnau; acnid oes dim mor ddymunol ganddunt yn yr holl fyd: canys hwy ymadawënt â'r cwbl er ei fwyn; megis y gwnai dŷn newynog am dammaid o fara, yn hytrach nà marw o newyn. *Phil.* iii. 7—9. *Sal.* lxxiii. 25. *Hebr.* xi. 24—26. 1 *Pedr* ii. 7.

5. Bara a Gwîn, ſef bwyd a diod, neu luniaeth, yw'r gwerthfawroccaf o'r holl Drugareddau tymhorol; ond ni wnânt lês i neb, heb eu derbyn, ac ymborthi arnunt. Y gwerthfawroccaf o holl Drugareddau Duw i gŷd yw'r Arglwydd Jeſu; eithr ni ellir cael llês oddi wrtho, heb ei dderbyn, ac ymborthi arno trwy Ffydd.

Cw. Pwy yw'r dynjon, a orchymmynnir iddunt dderbyn yr Arwyddjon hyn o Fara a Gwîn yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Diſgybljon Criſt; ſef, pawb a gredant ynddo, ac a dderbyniant ei Athrawjaeth, i fod yn Ddilynwyr iddo: i'r Diſgybljon i gŷd, a fedr jawnfarnu Corph Criſt; ac nid i neb ond i'w Ddiſgybljon, y mae Criſt yn ordeinio'r Sacrament hwn. —— Math. xxvi. 26, 27. *Ac fel yr oeddynt yn bwyta, yr Jeſu a gymmerth y bara; ac wedi iddo fendithio, efe a'i torrodd, ac a'i rhoddodd i'r diſgybljon, ac a ddywedodd, Cymmerwch, bwytêwch; hwn yw fy nghorph. Ac wedi*

iddo

iddo gymmeryd y cwppan, a diolch, efe a'i rhoddes iddunt, gan ddywedud, Yfwch bawb o hwn.

Cw. A ddylai pawb o'r Cymmunwyr dderbyn y ddwy Arwydd hyn; ſef, y Bara a'r Gwîn? canys ni rydd yr Offeiriaid *Pabaidd* ond y Bara yn unig i'r bobl, ac yn yſed y Gwîn eu hunain?

Att. Mae'r *Pabyddjaid* yn ymgrymmu i ddelwau cerfiedig, ac yn addoli'r Forwyn *Fair*, a'r Seintjau, ac yn eu gwneuthur yn Gyfryngwyr iddunt yn lle Criſt. Maent yn gwneuthur iddunt Dduw o dammaid o fara; gan haeru, fod y Bara a'r Gwîn yn troi, wrth ei gyſſegru, yn wîr Ddyndod a Duwdod Criſt: maent yn cadw'r Yſgrythurau oddi wrth y bobl, ac yn lloſgi pawb ni chyttuno â'u celwyddau hwy: maent yn dyrchafu eu hunain goruwch i Griſt, trwy newid Trefn ei Efengyl, a llyfelu rheolau cableddus gwrthwyneb iddo, ac yn cyfeiliorni'n reſynus mewn llawer o bethau; ac felly y maent, trwy naccâu'r Cwppan i'r bobl yn *Swpper yr Arglwydd.*

Cw. Pa ham y mae'n ddyledus i'r bobl dderbyn, nid yn unig y Bara, ond y *Gwîn* hefyd, yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. 1. Oblegid i Griſt ordeinio'r Bara, a'r *Gwîn* hefyd; nid y naill na'r llall yn unig, ond y ddau ynghŷd; i arwyddocâu cyflawnder y Llês ag ſydd yntho. Megis y mae Bara a Gwîn yn cynnwys, yn yr yſtyriaeth o honunt, bob peth angenrheidjol i gyſſur a chynhaliaeth naturjol ein cyrph; felly y mae pob peth yn gyflawn yng Nghriſt, ag ſydd angenrheidjol i Fywyd ysbrydol ein Heneidjau.

2. Fe ordeiniodd Criſt y Bara a'r Gwîn, i fod megis Sêl ddauddyblyg, i arwyddocâu ſicrwydd y pethau mae Duw yn addaw yn y Cyfammod, ag y ſelir yn y Sacrament hwn. *Gen.* xli. 32.

3. Mae cadw'r Gwîn, neu'r Cwppan, oddi wrth y bobl yn y Sacrament, yn llwyr-wrthwyneb i Feddwl Criſt: canys ſe a orchymmynnodd yn fwy pennodol am y Gwîn, nag am y Bara; gan ddywedud, *Yfwch bawb o hwn*: megis yn rhagweled y codai rhai cyfeiliornus mewn amſer, i ballu'r Cwppan i bawb. *Math.* xxvi. 27. *Ezec.* xxviii. 2, 3.

Cw. Pa beth yw y rhan oddi fewn, neu'r peth a arwyddocëir?

Att. Corph

Att. Corph a Gwaed Criſt; y rhai y mae'r ffyddlonjaid yn wîr ac yn ddiau yn eu cymmeryd ac yn eu derbyn yn *Swpper yr Arglwydd.*

Cw. Pa ſawl peth a ddylech yſtyriaid yn yr atteb hyn?

Att. Tri pheth.

1. Mai Corph a Gwaed Criſt yw'r peth oddi ſewn a arwyddocëir wrth Fara a Gwîn.

2. Mai'r Ffyddlonjaid ſydd yn derbyn Corph a Gwaed Criſt yn *Swpper yr Arglwydd*; ac nid neb arall.

3. Fod y Ffyddlonjaid yn cymmeryd ac yn derbyn Corph a Gwaed Criſt *yn wîr ac yn ddiau* yn *Swpper yr Arglwydd.*

Cw. Pa beth yr ydych yn feddwl wrth Gorph a Gwaed Criſt, ag y mae'r Bara a'r Gwîn yn arwyddocâu?

Att. 1. Yr wyf yn meddwl, fod y Bara a'r Gwîn yn arwyddocâu Perſon Criſt, a offrymmodd efe yn Aberth o anfeidrol Haeddiant (trwy undeb ei Ddyndod ef â'r Duwdod) dros ein pechodau ni.

2. Yr wyf yn meddwl, fod y Bara a'r Gwîn yn arwyddocâu Dioddefaint Criſt yn ei Farwölaeth, pan groeſhoeliwyd ei Gorph, ac y tywalldwyd ei Waed ef.

3. Yr wyf yn meddwl, fod y Bara a'r Gwîn yn arwyddocâu y Llês a'r Budd ysbrydol ſy'n dyfod oddi wrth Ddioddefaint Criſt i'r Pfyddlonjaid.

Cw. Pa ham yr ydych yn dywedud, mai'r Ffyddlonjaid ſy'n derbyn Corph a Gwaed Criſt yn *Swpper yr Arglwydd?*

Att. 1. Am nad yw'r anffyddlonjaid yn ewyllyſio derbyn Criſt: canys hwy a ddywedant yn eu calonnau, *Ni fynnwn ni hwn i deyrnaſu arnom.* Luc xix. 27. Job xxi. 14. Sal. x. 4.

2. Ni roddir Corph a Gwaed Criſt i'r rhai a barhâant yn anffyddlon: canys y maent yn anufudd; ac i'r rhai a ufuddhâant iddo, y gwnaethpwyd Criſt yn Awdwr Jechydwriaeth dragywyddol. *Hebr.* v. 9.

3. Ni ddichon yr anffyddlonjaid dderbyn Corph a Gwaed Criſt, er iddunt dderbyn Bara a Gwîn: canys trwy Ffydd yn unig y mae i ni dderbyn Criſt. *Joan* i. 12.

Cw. Ym mha yſtyr y mae'r Ffyddlonjaid yn cymmeryd ac yn derbyn Corph a Gwaed Criſt, *yn wîr ac yn ddiau*, yn *Swpper yr Arglwydd?*

Att. Nid

Att. Nid yn yr yſtyr lythyrennol; ſel pe bai 'r Bara a 'r Gwîn yn troi 'n wîr ac yn ddiau yn Gorph a Gwaed Criſt. Eithr,

1. Y mae 'r Ffyddlonjaid yn derbyn Corph a Gwaed Criſt *yn wîr ac yn ddiau*, mewn Yſtyr ſacramentaidd; ſef, yn derbyn yr Arwyddjon gweledig i 'r Diben cywir, ac effeithiol o honunt, yn wîr ac yn ddiau, megis y maent yn arwyddo ac yn ſelio iddunt bethau anweledig; lle nid yw 'r Arwyddjon yn arwyddocâu nac yn ſelio dim Lles i 'r anffyddlonjaid.

2. Mae 'r Ffyddlonjaid yn derbyn Corph a Gwaed Criſt *yn wîr ac yn ddiau*, mewn Yſtyr gyſammodol: canys y maent yn wîr ac yn ddiau yn cymmeryd ac yn derbyn Criſt yn gyſangwbl, yn ei Awdurdod, a 'i Lywödraeth, a 'i holl Swyddau, ſel eu Gwaredwr, a 'u Harglwydd, a 'u Prophwyd, a 'u Brenin, a 'u Hoffeiriad, dan rwymedigaeth feliedig a ſicr, i gredu yn ufudd ac yn ffyddlon iddo, ac i lynu wrtho dros byth.

3. Mae 'r Ffyddlonjaid yn derbyn Corph a Gwaed Criſt *yn wîr ac yn ddiau*, mewn Yſtyr ysbrydol: canys hwy a dderbyniant Rinwedd Aberth ei Gorph a 'i Waed, a Ffrwythau ei Ddioddefaint ef, yn wîr ac yn ddiau, i 'w meithrin trwy Ffydd i Fywyd tragywyddol. Yn yr yſtyr hyn y dywed Criſt, —— Joan vi. 55. *Fy nghnawd i ſydd fwyd yn wîr, a 'm gwaed i ſydd ddiod yn wîr.*

Cw. Pa fodd y profwch, nad yw 'r Bara a 'r Gwîn yn troi, wrth eu cyſſegru, yn wîr Gorph a Gwaed Criſt, fel y mae 'r *Pabyddjaid* yn haeru; o blegid (meddant hwy) i Griſt ddywedud am y Bara, ar ôl iddo ei gyſſegru ef, *Hwn yw fy nghorph*; ac am y Cwppan, *Hwn yw fy ngwaed*?

Att. 1. Fe gyffelybodd Criſt ei hun i lawer o bethau, heb iddunt newid eu natur, a throi i fod yn wîr Gorph a Gwaed Criſt. Yr un peth yw i 'r *Pabyddjaid* haeru, fod *Drws*, neu *Fforàd*, neu *Olewyddden*, yn Griſt, ag yw iddunt ddywedud, fod y Bara a 'r Gwîn yn Griſt: canys fe ddywedodd Criſt, *Myfi yw 'r drws, Myfi yw 'r ffordd, Myfi yw 'r olewyddden.* Ac am hynny amryfuſedd haerllug y'w dywedud, fod y Cyffelybiaethau neu 'r Arwyddjon o Griſt yn troi i fod yn Gorph ac yn Waed Criſt.

2. Mae 'r cyfeiliorni hyn yn diſtrywio natur y Sacrament, lle mae Arwyddjon gweledig o bethau ysbrydol anweledig; canys, pe ſyddai 'r Bara a 'r Gwîn yn troi yn wîr Gorph a

Gwaed

Gwaed Crift ; yna ni fyddai un Arwydd, ac ni fyddai'r Ordinhâad hon yn Sacrament.

3. Mae'n holl fynhwyrau yn tyftio, nad yw'r Bara a'r Gwîn yn newid eu natur yn y Sacrament ; canys, yr ydym yn gweled ac yn profi, yn arogli ac yn teimlo, eu bod, ar ôl eu cyffegru, o'r un lliw a llun, a blâs a fylwedd, ag oeddynt o'r blaen.

4. Mae'r Ysbryd Glân yn eu galw yn *Fara*, a *Chwppan yr Arglwydd*, yn y Sacrâment, pan fydder yn bwyta ac yn yfed o honunt ; ac am hynny, ni ddarfu iddunt newid eu natur ar ôl eu cyffegru. 1 *Cor.* xi. 26—28.

5. Mae amryw ganlyniadau gwrthun yn tarddu oddi wrth gyfeiliorni'r *Pabyddjaid*, er eu bod yn lladd ac yn poeni pawb a wrthodo eu cyfeiliorni hwy : canys, pe troir y Bara a'r Gwîn yn Gorph a Gwaed, ac yn wîr Berfon cyfan Crift, fel yr haerant hwy ; yna yr oedd dau Gorph neu ddau Berfon i Grift wrth ordeinio'r Sacrament ; un yng Nghrift ei hun, a'r llall yn y Bara a'r Gwîn : ac fe a ganlynai hefyd, fod cynnifer o Gyrph a Pherfonau i Grift, ag fy dammeidjau o Fara yn yr aneirif fannau lle gweinir *Swpper yr Arglwydd* : ac yna hefyd, fe allai'r affan fel y glân, meddwön a phutteinwyr, neu gwîn ac anifeiliaid, fod yn gyfrannog o Gorph a Gwaed Crift ; ac nid oes neb yn ei jawn bwyll a ddichon goelio'r fath gabledd.

Cw. Pa lesâad yr ydym ni yn ei gael wrth gymmeryd y Sacrament hwn ?

Att. Cael cryfhâu a diddanu ein heneidjau trwy Gorph a Gwaed Crift, megis y mae'n cyrph yn cael trwy'r bara a'r gwîn.

Cw. Pa fawl peth a ddylech yftyriaid yn yr arteb hyn ?

Att. Dau beth.

1. Bod ein Heneidjau yn cael eu *cryfhâu* trwy Gorph a Gwaed Crift yn *Swpper yr Arglwyad*, megis y mae'n Cyrph yn cael trwy'r Bara a'r Gwîn.

2. Bod ein Heneidjau yn cael eu *diddanu* trwy Gorph a Gwaed Crift yn *Swpper yr Arglwydd*.

Cw. Ym mha fodd y cryfheir ein Henaid trwy Gorph a Gwaed Crift yn *Swpper yr Arglwydd*, megis y mae'r Corph yn cael trwy'r Bara a'r Gwîn ?

Att.

Att. 1. Y mae Corph a Gwaed Criſt, ſef yr Aberth o honunt droſwyf i Dduw, yn Ymborth, neu Fwyd a Diod ysbrydol i'm Henaid: canys Criſt a ddywaid, *Fy nghnawd i ſydd fwyd yn wir, a'm gwaed i ſydd ddiod yn wir.* Joan vi. 55.

2. Mae Rhinwedd Aberth Corph a Gwaed Criſt yn fy meithrin mewn Cryfdwr ysbrydol; ac nid ymborth dileſiant yw: canys, megis y dywaid yr Apoſtol, *Felly y mae'r Arglwydd yn meithrin ei bobl.* Eph. v. 29.

3. Trwy ymborthi yn ysbrydol ar Gorph a Gwaed Criſt, yn *Swpper yr Arglwydd*, y'm *cyſſylldir* ag ef i dderbyn Nerth a Chryfdwr ysbrydol oddi wrtho; megis trwy gydgorphori'r Bara a'r Gwîn â'm corph, y'm cryfhëir yn y dŷn naturjol. A Chriſt a ddywaid, —— Joan vi. 56. *Yr hwn ſydd yn bwyta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, ſydd yn aros ynnoſi, a minnau yndo ynteſ.*

4. Megis mai cyrph y rhai *byw*, nid y meirwõn, a gryfhëir â Bara a Gwîn; felly hefyd yr Eneidjau a fywhaodd Gras Duw, ac a adgyfodwyd o farwõlaeth pechod, a gryfhëir trwy Gorph a Gwaed Criſt yn *Swpper yr Arglwydd*: nid ymborth i'r meirwõn ſydd yn yr Ordinhâad hon.

5. Megis mai i'r newynog a'r ſychedig y mae Bara a Gwîn yn fwyaf angenrheidjol, ac yn fwyaf lleſiol a blaſus iddunt; felly y mae Corph a Gwaed Criſt i'r Eneidjau newynog a ſychedig am dano: hwynthwy a'i hoffant, ac a dderbyniant Gryfdwr a Diddanwch ysbrydol oddi wrtho yn *Swpper yr Arglwydd.* —— Math. v. 6. *Gwyn eu byd y rhai ſydd arnunt newyn a ſyched am gyfiawnder: canys hwy a ddiwellir.* Luc i. 53. Dad. xxii. 17.

Cw. Ym mha fodd y'ch diddenir trwy Gorph a Gwaed Criſt yn *Swpper yr Arglwydd?*

Att. 1. Gwledd yr Aberth o Gorph a Gwaed Criſt a oſodir ger fy mron yn *Swpper yr Arglwydd: Gwledd o baſgedigion breiſion, ac o loyw-win puredig*, yw; ag ſy'n llonni calon dŷn. Cinio Priodas Mab y Brenin a barotöir ymma gan Dduw ei hun: lle hefyd y mae Ffynhonnau Jechydwriaeth yn llawn ffrydiau Dwfr y Bywyd; fel nad oes dim yn ddiffyg yn *Swpper yr Arglwydd*, ag ſydd ei Diddanwch i ni.

2. Yr ydym yn cael gwledda mewn modd arbennig gyd â'r Arglwydd ei hun, ac ar ei Fwrdd ef, yn y *Swpper*

hon

hon; yn dyſtiolaeth, ei fod yn ein derbyn i Gyfammod ſicr ag ef; yr hyn yw Sail ein holl Ddiddanwch: canys trwy gydwledda yr oedd yn arferol gynt i ſicrhâu cyfammod rhwng cyfeilljon a'i gilydd. —— Gen. xxvi. 26—30. *Abimelech a'i gyfeilljon a ddywedaſant wrth Iſaac,—Bydded cyngrair rhyngom ni a thi, a gwnawn gyfammod.—Ac efe a wnaeth iddunt wledd, a hwy a fwytaſant ac a yfaſant.*

3. Fe ſelir i mi, trwy Gorph a Gwaed Criſt, yn *Swpper yr Arglwydd*, yr holl bethau ſy'n cynnwys ynddunt y Diddanwch mwyaf yn yr holl fyd: ſef, Bywyd, er fy mod fel drwgweithredwr yn haeddu marw; Heddwch a Chymmod â Duw, er fy mod wrth nàtur yn blentyn digofaint; Maddeuant o'm holl bechod, ag yw'r achos o bob triſtwch a gofid; Cyfiawnhâad ger bron Duw, fel na fydd gan y Gyfraith, nac un cyhuddwr, ddim i roi yn fy erbyn; a ſicrwydd am bob peth a berthyn i Fywyd tragywyddol, ac i'r bywyd preſennol hefyd. —— Rhuf. viii. 31, 32. *Beth gan hynny a ddywedwn ni wrth y pethau hyn? O's yw Duw troſom, pwy a all fod i'n herbyn? Yr hwn nid arbedodd ei briod Fâb, ond a'i traddododd ef droſom ni oll; pa wedd gyd ag ef hefyd na ddyry efe i ni bob peth?*

4. Trwy Gorph a Gwaed Criſt, yn *Swpper yr Arglwydd*, y mae'n Heneidjau yn cael eu diddanu yn ôl eu hamrywjol achoſion; Eneidjau blinderog a llwythog yn cael eu hefmwythâu, Eneidjau cleiſion eu jachâu, Eneidjau llefg eu hadfywio, Eneidjau newynog eu llonni, ac Eneidjau athrift eu llawenychu, ac weithjau eu hennyn i fflàm o Lawenydd mawr, a bair iddunt ddywedud, *Da yw i ni fod ymma.*

Cw. Pa fodd yr ymddengys, fod yn ddyledus arnoch i ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*?

Att. 1. Mae Awdurdod Criſt ei hun yn fy rhwymo i ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*: canys, efe a roddodd Orchymmyn pennodol am hynny ar y nôs ddiweddaf o'i Fywyd cyn ei groeſhoelio droſom; ac ni ddichon yr anufudd fod yn Ddiſgybl i Grift, nac yn gadwëdig trwyddo. *Joan* xv. 14. viii. 31. *Hebr.* v. 9. *Eph.* v. 6. *Jago* ii. 10.

2. Mae eſgeuluſo'r Ordinhâad ragorol hon, a ordeiniwyd i Ddibennion mor uchel, yn ddibriſiodd yſgeler o Ddaioni Duw, ac yn cyffroi ei Ddigofaint ef i dywallt Barnau trymmion arnom. *Y Brenin a barodd y ginio briodas, a lidiodd wrth y rhai a wahoddwyd, ac ni fynnent ddyfod;*

ac efe a ddanfonodd ei luoedd i'w dinyſtrio hwy, ac a loſgodd eu dinas. Math. xxii. 2—7.

3. Mae Cariad Criſt yn ein dodi dan y Rhwymedigaeth fwyaf yn y byd i ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*, i gadw coffadwriaeth o'i Gariad ef, yn marw drofom: canys efe a ddywedodd, *Gwnêwch hyn er côf am danaf.* O's eſgeuluſwn, yr ydym yn gwneuthur ein rhan, i adel Cariad a Dioddefaint Criſt fyned yn angof trwy'r holl fyd. 1 *Cor.* xi. 24—26. *Sal.* ix. 17.

4. Ni ddylem ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*, fel y mae yn Rhan bennaf o Addoliad Duw, i dyſtiolaethu ein Diolchgarwch iddo am ei Gariad anfeidrol yn ein Prynedigaeth trwy Griſt Jeſu. Ni wrthododd efe i yfed o afon Digofaint Duw er ein mwyn ni; ac oni ddylem ni ei berchi ef yn phiol Jechydwriaeth? *Sal.* cxvi. 12, 13.

5. Ni ddylem ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*, er ein Llês ein hunain, i gael Preſennoldeb ysbrydol ein Gwaredwr annwyl Criſt Jeſu, i chwanegu ein Ffydd a'n Cariad, a'n cryfhâu a'n diddanu i fyned rhagddom yn gyſſurus yng Ngwaſanaeth Duw; ac y gallom hefyd fyned yn gyſſurus ger bron Duw pan fyddom farw.

6. Ni ddylem ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*, o herwydd i Griſt oſod yr Ordinhâad hon i wahaniaethu rhwng ei Bobl ef a'r rhai ſy'n ei wrthod; y rhai a ddiſtrywïr oll yn ddiammau: canys, trwy Waed Criſt yn unig y mae Jechydwriaeth. *Ecſod.* xii. 21—23. a'r ben. xiv.

7. Ni ddylem ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*, i gyſſegru a ſelio ein hunain yn ewyllyſgar yn Bobl gyſammodol i Dduw; ac onid ê, ni fyddwn *yn eſtronjaid i ammodau'r addewïd, heb obaith gennym, ac heb Dduw yn y byd.* Eph. ii. 12. Zech. ix. 11. Math. xxvi. 27, 28. Hebr. xiii. 20.

Cw. Pa fodd yr ymddengys, ei fod yn ddyledus arnoch i ddyfod i'r Cyfammod Grâs a ſelir yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Ni a ddylem ddyfod i'r Cyfammod Grâs a ſelir yn *Swpper yr Arglwydd*;

1. O blegid fod Criſt ei hun yn ein galw i gymmeryd Jau'r Cyfammod arnom, ac i fod yn Bobl iddo. — Math. xi. 28, 29. *Deuwch attaf bawb ag y ſydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a eſmwythâaf arnoch. Cymmerwch fy jau arnoch, a dyſgwch gennyf; canys addfwyn ydwyf a*

goſtyngedig

goſtyngedig o gâlon: a chwi a gewch orphwyſdra i'ch eneïdjau. Rhuſ. xii. 1, 2.

2. O blegid fod y rhai ſydd allan o Gyfammod â Duw, yn anghymmeradwy, ac heb ran yng Nghriſt, nac yn un o holl Addewïdjon Duw. —— Dad. xxii. 15. *Oddi allan y mae'r cŵn, a'r ſwyngyfareddwyr, a'r putteinwyr, a'r llofruddjon, a'r eulynaddolwyr, a phob un ag ſy yn caru ac yn gwneuthur celwydd.* Eph. ii. 11, 12.

3. O blegid fod y rhai a ddiyſtyrant y Cyfammod, yn ymwrthod â Duw; ac yn annog Duw i ymwrthod â hwyntau. —— 1 Cron. xxviii. 9. — *O ceiſi ef, ti a'i cai; ond o's gwrthodi ef, efe a'th fwrw ymmaith yn dragywydd.* Math. xxiii. 37, 38. Joan v. 40.

4. O blegid mai ar y rhai a wrthodant y Cyfammod, y daw Melldith a Drygfyd, heb Ymwared na Thoſturi byth. —— Jer. xi. 3, 11. — *Fel hyn y dywed Arglwydd Dduw Iſräel; Melldigedig fyddo'r gŵr ni wrendy ar eirjau'r cyfammod hwn. Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd; Wele fi yn dwyn drwg arnunt, yr hwn ni's gallant fyned oddi wrtho: yna y gwaeddant arnaf, ac ni wrandawäf hwynt.* Deut. xxix. 23—25.

5. O blegid fod y rhai a ballant gyfammodi â Duw, yn *Swpper yr Arglwydd*, yn ymwadu â Chyfammod eu *Bedydd*; a'r neb a ddiyſtyro Lw neu Adduned ei Gyfammod â Duw, ſy'n pechu'n erchyll, ac a ddwg ei gôsb, pwy bynnag y fyddo. —— Ezec. xvii. 19. *Am hynny fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw; Fel mai byw fi, fy llw yr hwn a ddiyſtyrodd efe, a'm cyfammod yr hwn a ddiddymmodd efe, hwnnw a roddaf fi ar ei ben ef.* Hoſ. x. 4.

6. O blegid fod Duw yn arferol o drefnu a bendithio rhyw Foddjon neu gilydd i ddwyn Etifeddion Jechydwriaeth i ymgyfammodi ag ef. —— Ezec. xx. 37. *A gwnâf iwch' fyned dan y wialen; a dygaf chwi i rwym y cyfammod.* Jer. l. 4, 5. Sal. cx. 3.

7. O blegid mai'r ſawl a gymmerant y Cyfammod arnunt yn ffyddlon, a gymmerir yn Bobl werthfawr ac annwyl gan Dduw. —— Ecſod. xix. 5, 6. — *O's gan wrando y gwrandêwch ar fy llais, a chadw fy nghyfammod; chwi a fyddwch yn dryſor priodôl i mi o flaen yr holl bobloedd: canys eiddof fi yr holl ddaear. A chwi a fyddwch i mi*

yn frenhinjaeth o offeiriaid, ac yn genhedlaeth ſanctaidd. Deut. xxix. 9, 10, 12, 13.

8. O blegid mai'r ſawl ſydd mewn Cyfammod â Duw, a waredir oddi wrth Ddigoſaint Duw, ac a achubir ganddo yn Nydd y Farn, pan ddiſtrywïr dynjon eraill. —— Sal. l. 3—5. *Ein Duw ni a ddaw, ac ni bydd diſtaw: tân a yſſa o'i flaen ef, a thymmeſtl ddirfawr fydd o'i amgylch. Geilw ar y nefoedd oddi uchod, ac ar y ddaear, i farnu ei bobl. Ceſglwch fy ſainct ynghŷd attaſi, y rhai a wnaethant gyfammod â mi trwy aberth.* 2 Cron. xxix. 10. Sal. cxi. 9.

9. O blegid mai yng Nghyfammod Duw y mae holl Bobl Duw yn cael Cyſſur cryf ym mhob cyfyngder, ac yn yr orjau olaf o'u bywyd. —— 2 Sam. xxiii. 1, 5. *Dymma eirjau diweddaf Dafydd. — Er nad yw fy nhŷ i felly gyd â Duw; etto cyfammod tragywyddol a wnaeth efe â mi, wedi ei luniaethu yn hollol, ac yn ſicr: canys fy holl jechydwriaeth, a'm holl ddymuniad yw, er nad yw yn peri iddo flaguro.* Sal. lxxiv. 19, 20.

10. O blegid mai yn y Cyfammod Grâs, a ſelir yn *Swpper yr Arglwydd*, y ſicrhëir i'r Ffyddlonjaid Faddeuant, ac Addewïd y Bywyd tragywyddol, a'r Breintjau a berthyn iddo, a Hawl ſicr yng Nghariad anghyfnewidiol Duw, er Diddanwch iddunt ym mhob cyflwr. —— Hebr. viii. 10, 12. *O blegid hwn yw y cyfammod a ammodaf fi â thŷ Iſräel ar ôl y dyddjau hynny, medd yr Arglwydd: Myfi a ddodaf fy nghyfreithiau yn eu meddwl, ac yn eu calonnau yr yſgrifennaf hwynt; a mi a fyddaf iddunt hwy yn Dduw, a hwythau a fyddant i minnau yn bobl. Canys trugarog fyddaf wrth eu hanghyfiawnderau, a'u pechodau hwynt a'u hanwireddau ni chofiaf ddim o honunt mwyach.* Eſay liv. 10. Jer. xxxi. 33, 34. xxxii. 40. Ezec. xvi. 8—16. xxxvi. 25—27. Dan. xi. 32. 2 Cron. xv. 12—15.

Cw. Pa rai yw'r Breintjau neillduol a berthyn i chwi trwy'r Cyfammod Grâs, ag a ſelir yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. 1. Criſt ei hun yn Jawn ac yn Aberth droſom. *Eph.* v. 2. 1 *Joan* ii. 1, 2.

2. Duw ei hun yn Dduw heddychol ac yn Dâd i ni trwy Griſt. 2 *Cor.* v. 18. vi. 17, 18. *Jer.* xxxi. 33, 34. *Eſay* liv. 13, 14. *Hebr.* viii. 10. *Gal.* iii. 26.

3. Maddeuant

3. Maddeuant Pechod, ac Ymwared oddi wrth Golledigaeth a Melldith y Ddeddf. *Eph.* i. 7. *Hebr.* viii. 12. *Rhuf.* viii. 1. *Gal.* iii. 13.

4. Dirymmiad a Marwölaeth Pechod, ac Adnewyddiad ein Natur lygredig. *Rhuf.* vi. 6, 7, 14. *Dit.* iii. 5. *Ezec.* xi. 19, 20. xxxvi. 25, 26.

5. Cyfiawnhâad trwy Gyfiawnder Crift, a Mabwyfiad; fef, Dyfodfa hyderus, ger bron Duw fel ein Tâd. 2 *Cor.* v. 21. 1 *Cor.* i. 30. *Rhuf.* iii. 20—26. iv. 5. *Eph.* iii. 12.

6. Eirjolaeth Crift drofom ger bron Duw. 1 *Joan* ii. 1, 2. *Rhuf.* viii. 34. *Hebr.* vii. 25.

7. Addewid o'r Ysbryd Glân yn Gymmorth i ni. *Ezec.* xxxvi. 27. *Eph.* i. 13, 14. *Luc* vi. 11. *Gal.* iii. 14. iv. 5.

8. Angyljon Duw i weini i ni. *Hebr.* i. 14. *Sal.* xxxiv. 7. xci. 11, 12.

9. Hawl yn holl Addewïdjon Duw am bob Bendithion ysbrydol, a Thrugareddau tymhorol angenrheidjol i ni. 2 *Pedr* i. 3, 4. *Eph.* i. 3. *Math.* vi. 33. 1 *Dim.* iv. 8.

10. Parhâad mewn 'Stâd o Râs, a Gobaith ficr o Adgyfodiad gogoneddus, a Bywyd tragywyddol. *Phil.* i. 6. *Jer.* xxxii. 40. 1 *Pedr* i. 3, 4.

Cw. A ddylech chwi ddyfod yn fynych i *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Dylem yn ddiau. Canys,

1. Y mae Gorchymmyn Crift yn dangos yn eglur, y dylem ni ddyfod yn fynych i *Swpper yr Arglwydd.* 1 Cor. xi. 26.

2. Mae Efampl yr Apoftoljon a'r Duwjoljon gynt yn ein dyfgu i ddyfod yn fynych i *Swpper yr Arglwydd:* canys, yr oedd yr Ordinhâad hon yn Rhan o Addoliad Duw ar Ddydd yr Arglwydd yn waftadol ganddunt. *Act.* ii. 42, 46. xx. 7.

3. Fe ddylai ein Cariad i Grift ein cymmell i ddyfod yn fynych i *Swpper yr Arglwydd*, i gofio am ei Gariad ef i ni, ac i fod yn ddiolchgar iddo. 2 *Cor.* v. 14. *Joan* xiv. 15, 21, 23. 1 *Cor.* xvi. 22.

4. Fe ddylai'r mynych eifiau fydd arnom am Lês i'n Heneidjau, ein cymmell i ddyfod yn fynych i *Swpper yr Arglwydd.* Mae'n Calonnau'n fynych yn gelyd, a'n Serchiadau yn fynych yn oerllyd, a'n Ffydd yn fynych yn lleíg, a'n Hysbrydoedd yn fynych yn farwaidd; ac arnom fynych

eiſiau Heddwch Duw, Maddeuant Pechod, a Glanhâad o'r newydd trwy Waed Criſt; fel na's gallaf eſgeuluſo *Swpper Criſt* un amſer, heb fod ar fy ngholled, a phechu yn erbyn fy Enaid fy hun. *Diar.* viii. 34—36.

5. Ni ddylem ddyfod yn fynych i *Swpper yr Arglwydd*, o herwydd fod eſgeuluſo weithjau yn arwydd o glauarwch a gwrthgiliad: canys felly y gadawödd llawer eu Proffes, ac a fyrthiaſant i gyflwr gwaeth nag o'r blaen. *Hebr.* x. 25--27. 2 *Pedr* ii. 20—22. *Job* xxvii. 8—10. *Sal.* xliv. 15—17. cxix. 117.

6. Ni ddylem ddyfod yn fynych i *Swpper yr Arglwydd*, o herwydd fod yn beryglus ei eſgeuluſo un amſer yn ddiachos. Y neb a eſgeuluſai *Oen y Pâſg*, a dorrid ymmaith o fyſg ei bobl. A *Thomas*, un o'r Apoſtoljon, trwy fod yn abſennol oddi wrthunt unwaith pan oedd Criſt gyd â hwy, a fu debyg i fyrthio dan anghrediniaeth. *Num.* ix. 13. *Joan* xx. 24—28.

7. Ni ddylem ddyfod yn fynych i *Swpper yr Arglwydd*, i gynhyddu yng Ngràs Duw yn ddiorphwys; rhag i angau'n gorddiwes yn anghymmwys i Deyrnas Nefoedd: canys, fe allai mai'r odfa a eſgeuluſom fyddai'r odfa olaf, neu ynte a fuaſai yn fwyaf buddjol i ni. 1 *Cor.* vii. 29. *Diar.* xxix. 1. *Joan* v. 4. *Act.* x. 44.

Cw. A ydyw yn rhydd i bawb fel ei gilydd ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Nag ydyw. Ni ddylai neb ryfygu dyfod i *Swpper yr Arglwydd*,

1. Heb iddunt gael eu bedyddio; megis nad oedd i neb fwyta *Oen y Pâſg*, nes eu henwaedu. *Ecſod.* xii. 48.

2. Ni ddylai neb ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*, heb Wybodaeth i jawnfarnu Corph yr Arglwydd, a'r pethau a berthyn i'r Ordinhâad hon. 1 *Cor.* xi. 29. *Hoſ.* vi. 6. *Diar.* xix. 2. *Sal.* l. 16, 17.

3. Ni ddylai neb ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*, heb ddarfodi â Phechod, i heddychu â Duw: canys, plant digofaint ydym wrth natur; ac mae'n beryglus i nesâu at Fwrdd yr Arglwydd yn cin gelynjaeth iddo. *Amos* iii. 3. *Sal.* lxxxv. 8. *Ezec.* xiv. 3. 2 *Cor.* vi. 14, 15. 1 *Cor.* x. 21.

4. Ni ddylai neb ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*, heb Gydſynniad ewyllyſgar i dderbyn Criſt ar Ammodau'r Efengyl, ac Ymroad cywir ifyw yn ſobr, yn gyfiawn, ac

yn

yn dduwjol yn ôl Athrawjaeth Criſt. *Luc* xiv. 26, 27, 28, 31, 33. *Dad.* xxii. 17. *Eſay* lv. 1, 3. 2 *Dim.* ii. 19, 21. *Dit.* i. 15. *Sal.* xxvi. 5, 6. *Diar.* xv. 8.

5. Ni ddylai neb ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*, heb barotôi eu Calonnau i'r Ordinhâad hon; rhag iddunt fwyta ac yfed yn annheilwng, er pergyl iddunt eu hunain. *Jago* iv. 8, 9. 2 *Cron.* xii. 14. xix. 3. xx. 33. xxvii. 6. xxx. 18—20. xxxi. 21. *Ezra* vii. 9, 10. *Jer.* xxx. 21, 22.

Cw. Beth yw'r Perygl o ddyfod yn annheilwng i *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Megis y mae'r Llês yn fawr o ddyfod yn barchus, ac yn echrydus i eſgeuluſo *Swpper yr Arglwydd*; felly hefyd y mae'n beryglus i ddyfod yn annheilwng. Canys,

1. Mae'r rhai a ddeuant yn annheilwng i *Swpper yr Arglwydd*, yn euog o Gorph a Gwaed Criſt; megis pe baent yn ei ailgroeſhoelio ef. 1 *Cor.* xi. 27. *Hebr.* x. 29. vi. 6.

2. Maent yn bwyta ac yn yfed Barnedigaeth iddunt eu hunain; megis yn ſelio eu Condemniad eu hunain, yn lle'r Jechydwriaeth a brynodd Criſt, onid edifarhâant. 1 *Cor.* xi. 29. 2 *Cor.* ii. 15, 16.

3. Maent yn tynnu arnunt eu hunain yn fynych Farnau tymhorol, ac amryw Blaau yn y byd hwn. Llawer o'r *Corinthiaid* oeddynt yn glaf ac yn weinjon, ac eraill wedi marw, o achos iddunt ddyfod yn annheilwng i *Swpper yr Arglwydd*. 1 Cor. xi. 30. 1 Sam. vi. 19. 2 Sam. vi. 6, 7.

4. Mae'r rhai a ddeuant i *Swpper yr Arglwydd* yn annheilwng, yn troi Bendith yr Ordinhâad yn Felldith iddunt, ac yn annog Duw eu gadael i'r diafol i'w temtio'n waeth nag o'r blaen; megis y digwyddodd i *Judas* fradwr, ar ôl y tammaid a fwytaodd efe yn rhagrithiol yn y Sacrament: Satan a aeth i mewn iddo, ac a'i temtiodd i fradychu Criſt. *Joan* xiii. 27. *Mal.* ii. 2. *Ezec.* xvii. 19.

5. Y rhai a ddeuant yn rhagrithiol i *Swpper yr Arglwydd*, onid edifarhâant, a deflir yn y diwedd yn rhwym draed a dwylaw i'r tywyllwch eithaf, lle mae *wylofain a rhingcian dannedd*. Matth. xxii. 11—13.

Cw. Pwy ſy'n dyfod i *Swpper yr Arglwydd* yn annheilwng?

Att. 1. Y rhai a ddeuant i *Swpper yr Arglwydd* yn anyſtyriol, ac heb y cyfryw Wybodaeth am Dduw a Chriſt, ac

o'u Cyflwr eu hunain, ac o Yftyr yr Ordinhâad hon, ag y ddyſgir yn yr Yſgrythurau. *Sal.* l. 16, 17. *Joan* vii. 49. *Diar.* xix. 2. *Hoſ.* iv. 6. *Eſay* v. 13. 2 *Theſſ.* i. 7—9.

2. Y rhai a ddeuant i *Swpper yr Arglwydd*, heb wneuthur Cydwybod o gyflawnu Dyledſwyddau crefyddol eraill; megis, Gweddio'n ſeunyddjol wrthunt eu hunain ac yn eu Teuluoedd, ac i fod yn gyſſon ac yn ddianwadal yn Addoliad Duw. *Jago* ii. 10.

3. Y rhai a ddeuant i *Swpper yr Arglwydd* i ryw ddiben cnawdol, neu o ddefod ac arfer yn unig; fel pe fyddai derbyn y Sacrament yn ddigon tu ag at Jechydwriaeth, heb ddim ychwaneg. 1 *Cor.* x. 31. xi. 24, 25. *Dad.* iii. 15, 16. *Ezec.* xxxiii. 31.

4. Y rhai a ddeuant i *Swpper yr Arglwydd* heb heddychu â'r rhai a ddigiaſant, ac heb gyfiawnu'r camwedd a wnaethant, neu heb faddau 'r cam a wnaeth eraill iddunt hwy.— Math. v. 23, 24. *Gan hynny, o's dygi dy rôdd i'r allor, ac yno dyfod i'th gôf fod gan dy frawd ddim yn dy erbyn: Gâd yno dy rôdd ger bron yr allor, a dôs ymmaith: yn gyntaf cymmoder di â'th frawd; ac yno tyred, ac offrwm dy rôdd.* Jago ii. 13. 1 Joan ii. 10, 11. iii. 14, 15.

5. Y rhai a ddeuant i *Swpper yr Arglwydd* yn hunanhyderus; gan ymddiried yn eu gweithredoedd eu hunain, yn lle ymddiried yng Nghriſt: canys, y mae 'r cyfryw yn difuddio eu hunain o'r Cyfammod Grâs, ac yn troi odd: wrtho at y Cyfammod Gweithredoedd. —— Gal. v. 4. *Chwi a aethoch yn ddifudd oddi wrth Griſt, y rhai ydych yn ymgyfiawnhâu yn y ddeddf: chwi a ſyrthiaſoch ymmaith oddi wrth râs.* Gal. ii. 21.

6. Y rhai a ddeuant i *Swpper yr Arglwydd* heb groeſhoelio eu nwydau poethion, beilchion, ac aflan, a chwantau cybyddus y byd; yr hyn ſydd eulynaddoliad yngolwg Duw: ac nid oes groeſaw i eulynaddolwyr i Fwrdd yr Arglwydd. *Gal,* v. 24. vi. 14. *Ezec.* xxxiii. 31. *Luc* xiv. 33.

7. Y rhai a barhâant mewn cydſynniad heddychol â 'r rhyw bechodau adnabyddus iddunt, ac arhoſant yn eſmwyth heb wîr Dröedigaeth, tra maent yn cymmeryd arnunt i gyfammodi â Duw: hwythwy a dderbyniant *Swpper yr Arglwydd* yn annheilwng; maent yn tyngu i dwyllo, ac yn anffyddlon yn Llw'r Cyfammod. *Hoſ.* x. 4. *Math.* xviii. 3. *Ezec.* xvii. 19.

Cw. Pa fodd y gwybyddwch eich bod yn annychweledig, ac heb Dröedigaeth?

Att. Wrth y Nodau hyn.

1. O's ydwyf heb weled y drwg a'r perygl o bechod, ac heb deimlo fy eiſiau o Griſt, ac heb hiraeth yn fy Enaid am dano.

2. O's ydwyf yn dilyn fy hên arferion pechadurus, a'm nwydau llygredig yn rheoli ynnof; ac yn hawdd gennyf falchio, a digio, a phechu.

3. O's yw yn foddlon gennyf i fyw mewn rhyw bechod gwybodol i mi; neu i aros yn eſmwyth yn y pechod o Anwybodaeth, ag fy'n lladd yn y tywyll, heb ymofyn am Addyſg.

4. O's ydwyf yn eſgeuluſo Dyledſwyddau Creſydd, a Moddjon Grâs, ac yn treulio'r Sabboth yn ſegur heb addoli Duw.

5. O's ydwyf foddlon i barhâu yn ddïweddi, ac heb ddiwygio fy ffyrdd, na dyfod i Gyfammod â Duw.

6. O's ydwyf yn dewis yr annuwjoljon yn gyfeilljon i mi; a'u cymdeithas yn hoffach gennyf nâ'r Duwjol.

7. O's yw meſur bychan o Greſydd yn ddigon i'm boddio; ac yn gorphwys ar y Ffurf o honi, heb ei Grym a'i Phurdeb.

8. O's ydwyf yn digio o blegid Dajoni a Duwjoldeb rhai eraill, fy well nâ fi, ac yn ei gablu fel twyll a rhagrith.

9. O's ydwyf yn rhannu fy Nyled i Dduw, i roi Ufuddod iddo mewn rhai pethau, a naccâu mewn pethau eraill.

10. O's ydwyf yn ymddiried yn fy nghyfiawnder fy hun, ac heb roddi fy hyder yn gwbl ar Griſt; yna, er maint o Gynheddfau da ſy gennyf, yr ydwyf yn annychweledig, ac heb wîr Dröedigaeth.

Cw. Pa fodd y gwybyddwch, fod Grâs Duw wedi gweithio gwîr Ddychweliad a Thröedigaeth ynnoch?

Att. Wrth y Nodau hyn.

1. O's yw fy Nghydwybod wedi ei deffrôi; ac o's goleuwyd fy Enaid i weled llygredigaeth fy nàtur, a thrueni fy nghyflwr, i beri i mi geiſio'r Arglwydd Jeſu yn ewyllyſgar.

2. O's dwysbigwyd fy nghàlon i driſthâu am fy mhechodau, ac i droi oddi wrthunt at Dduw; ac yn well gennyf ddioddef llawer, nâ phechu mwyach o'm gwirfodd.

3. O's

3. O's wyf yn casâu fy *holl* bechodau, yr annwylaf a'r dirgelaf; ac yn ddiccach wrthyf fy hun am bechu, nag wrth arall a wnelo groes neu golled i mi.

4. O's yw fy holl ymddiried yng Nghrist yn gwbl, a hiraeth fy Enaid am ei Râs a'i Gariad ef i'm tynnu yn nês atto yn fy ysbryd o'm mewn.

5. O's yw Crist yn werthfawr yn fy ngolwg ym mhob ystyr; o's yw ei Swyddau fel y Donjau a brynodd, a'i Orchymmynnion fel ei Roddion, yn annwyl gennyf.

6. O's fy niben pennaf a'm dymuniad yw, gogoneddu Duw ym mhob peth, ac yn dymunaid Heddwch Duw fel fy Nedwyddwch a'm Cyffur pennaf.

7. O's yw deisyfiad fy nghàlon i wybod ac i wneuthur holl Ewyllys Duw; a thuedd fy Enaid i rodio yn ei Gyfreithiau ef trwy holl ystod fy mywyd.

8. O's ydwyf ddyfal yn fy ngalwäd o Gydwybod i Dduw, ac yn ddifrifol yn fy arferiad o Foddjon Grâs; gan ochelyd profedigaethau a chyfeillach ddrwg, ac yn caru Pobl Dduw.

9. O's ydwyf yn gwîr-fwriadu, trwy Râs Duw, i ymwadu â phob annuwioldeb a chwantau bydol, i fyw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol.

10. O's ydwyf yn galw i gôf fy Nghyfammod *Bedydd*, ac yn ewyllysio o'm càlon ei adnewyddu, a'i selio, ac i sefyll wrtho yn dragywydd; yna, er maint fy mhechod a'm gwaeledd, yr wyf yn gobeithio fod Grâs Duw wedi gweithio gwîr Dröedigaeth ynnof, ac y gallaf ddyfod yn ddiryfyg i *Swpper yr Arglwydd*.

Cw. Pa beth sy raid i'r rhai a ddêl i *Swpper yr Arglwydd* ei wneuthur?

Att. Eu holi eu hunain, a ydynt hwy yn wîr-edifeiriol am eu pechodau a aeth heibio, ac yn sicr amcanu dilyn buchedd newydd; a oes ganddunt ffydd fywiol yn Nhrugaredd Dduw trwy Grist, gyd â diolchus gôf am ei Angau ef; ac a ydynt hwy mewn cariad perffaith â phob dŷn.

Cw. Pa sawl peth a ddylech ystyriaid ymma?

Att. Dau beth.

1. Y Dyled ſydd arnom i holi ein hunain, cyn dyfod i *Swpper yr Arglwydd*; fel y gwyppom pa un a oes Nodau o Râs Duw ynnom. 1 *Cor.* xi. 28.

2. Y Graſuſau enwëdigol ynghylch pa rai y dylem holi ein hunain.

Cw. Pa ham y mae rhai dynjon yn dywedud yn erbyn holi eu hunain wrth Nodau Grâs?

Att. Am ſod yr ysbryd aflan yn llenwï eu calonnau ô gyfeiliorni, i ddywedud yn erbyn Athrawjaeth yr Ysbryd Glân; ag ſy 'n rhoddi i ni amrywjol Nodau o Râs yn yr Yſgrythur, ac yn gorchymmyn i ni holi ein hunain wrthunt, a phrofi ein Hawl yng Nghriſt. — 2 Cor. xiii. 5. *Profwch chwychwi eich hunain, a ydych yn y ffydd: holwch eich hunain. Ai nid ydych yn eich adnabod eich hunain; ſef, bod Jeſu Griſt ynnoch, oddieithr i chwi ſod yn anghymmeradwy?*

Cw. Beth ſydd i chwi ddyall, wrth eich Dyled i holi eich hunain, cyn y deloch i *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Mi ddylwn ddyall, ei ſod yn ddyledus arnaſi, a phob dŷn, i ymbarotôi, cyn dyfod i *Swpper yr Arglwydd.*

Cw. Pa ham y mae 'n ddyledus arnoch i ymbarotôi, cyn dyfod i *Swpper yr Arglwydd*?

Att. 1. Am ſod y Duw Mawr yn gorchymmyn hynny; ac nad oes i mi feiddio gwrthreſymmu yn ei erbyn. *Samuel* a ddywedodd, trwy Ysbryd Duw, wrth bobl *Iſräel, Parotôwch eich càlon at yr Arglwydd.* 1 Sam. vii. 3.

2. Am ein bod i nesâu ger bron y Duw Mawr, Brenin gogoneddus y Nefoedd, mewn modd enwëdigol, yn yr Ordinhâad ſanctaidd hon. A *phwy*, heb barotôi ei gàlon, *a ddichon ſeſyll yn wyneb y Duw ſanctaidd hwn?* 1 Sam. vi. 20. Amos iv. 12. Sal. v. 5. 2 Cron. xxix. 11. Gen. xli. 14.

3. Am mai y rhai a barotoant eu calonnau i gyfarfod â Duw yn ei Ordinhadau, a gânt Lês, a Llwyddiant, a Chyſſur ynddunt. *Jotham a nerthwyd, o herwydd iddo barotôi ei ffyrdd ger bron yr Arglwydd. A llaw 'r Arglwydd oedd gyd ag Ezra, o herwydd iddo barotôi ei gàlon i geiſio Cyfraith yr Arglwydd. Hezeciah hefyd a phobl Iſräel a lawenychaſant, pan oeddynt yn cyſſegru eu hunain i Dduw, o herwydd i 'r Arglwydd eu parotôi hwynt.* 2 Cron. xxvii. 6.

xxix.

xxix. 36. Ezra vii. 9, 10. Job xi. 13—15. Jer. xxx. 21, 22. Math. xxv. 10.

4. Am fod Parotoad mawr ar ein medr yn yr Ordinhâad hon, a Gwaith mawr gennym i wneuthur ynthi. Mae llawer o Ddyledfwyddau yn cydgyfarfod ymma, ag ſydd o ganlyniad mawr; ſef, perygl mawr o fod yn ammharod, a Lleſiant mawr i'r rhai ſo'n barod ei dderbyn: canys, Bywyd ac Angau, Bendith a Melldith, a oſodir o'n blaen. 1 *Cor.* ii. 9. *Deut.* xxx. 19. *Rhuf.* ii. 9, 10.

5. Am fod pob dŷn annychweledig yn gwbl ammharod; a'r Duwjoljon felly hefyd, yn rhy ſynych, ar ôl eu Dychweliad: ac y mae dyfod yn ammharod i Ordinhadau cyſſegredig, yn annog Duw i'w rhoddi i fynu i'r drygau gwaethaf. *Reboboam a wnaeth yr hyn oedd ddrwg; canys ni pharotôdd ei gâlon i geiſio'r Arglwydd. Judas, ar ôl bwyta ar ſwrdd yr Arglwydd, a fradychodd Criſt; ac ar ôl hynyn a gregodd ei hun.* 2 Cron. xii. 14. xx. 33. Math. xxvii. 5.

Cw. Pa fodd y mae i chwi barotôi, cyn dyfod i *Swpper yr Arglwydd*?

Att. 1. Mi ddylwn weddio ar Dduw am Râs i'm cymmorth yn fy Mharotoad; ac am ei Fendith ar yr Ordinhâad hon. *Sal.* cxvi. 13. *Phil.* iv. 6.

2. Mi ddylwn yſtyriaid fy nghyflwr truenus; megis ag yr ydwyf wrth nâtur yn golledig, yn blentyn digofaint, a than felldith a chondemniad y Gyfraith.

3. Mi ddylwn chwilio allan y pechodau neillduol, ag wyf yn euog o honunt trwof fy hun; fel y gallwyf addunedu i lwyr-ymwrthod â hwynt dros byth. *Galar.* iii. 40. *Job* xiii. 23. 1 *Cron.* xxix. 5. *Rhuf.* vi. 13. xii. 1.

4. Mi ddylwn yſtyriaid, yr angen ſydd arnaf i ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*; mor wan yw fy ffydd, mor oer yw fy nghariad, mor galed fy nghâlon, mor dywyll yw fy nyall, ac mor gryf yw fy chwantau pechadurus; fel y ſychedwyf yn fwy am Griſt.

5. Mi ddylwn holi fy hun ynghylch y Graſau a ddylai ſod ym mhob Cymmunwr, a pha un a oes egin o honunt yn fy Enaid i; fel y gallwyf farnu'n gywir, pa un a ydwyf yn dyfod yn wirioneddus i *Swpper yr Arglwydd.* 1 Cor. xi. 28, 31.

Cw. Pa

Cw. Pa ham y mae yn angenrheidjol i chwi *holi eich hun*? Oni fyddai ddigon i chwi gael eich holi gan eich Gweinidog?

Att. Mi ddylwn, yn ddiammau, ymoſtwng yn ewyllyſgar i gael fy holi a'm dyſgu gan fy Ngweinidog; ac ni ddylwn ryſygu derbyn yr Arwyddjon cyſſegredig o'i law ef, heb gael ei farn yn gyntaf, pa un a ydwyf gymmwys i'w derbyn. Eithr y mae yn angenrheidjol i mi holi fy hun hefyd;

1. O blegid fod Duw yn gorchymmyn i bob Cymmunwr holi ei hun, cyn dyfod i *Swpper yr Arglwydd.* —— 1 Cor. xi. 28. *Holed dyn ef ei hun; ac felly bwytäed o'r bara, ac yfed o'r cwppan.*

2. Ni ddichon Gweinidogjon wybod dirgeljon fy nghàlon, na dirgel bechodau fy mywyd, yn gaſtal a mi fy hun; am hynny mi ddylwn brudd-ymholi ger bron Duw o'u plegid: canys, llawer o ddichelljon dirgel ſydd ynnof, na's gallaf mo'u cael allan, heb chwilio'n ddyfal am danunt. —— Jer. xvii. 9. *Y gàlon ſydd fwy ei thwyll nâ dim; a drwg diobaith ydyw: pwy a'i hedwyn?*

3. Mi ddylwn holi fy hun; fel, o's gwelaf argoeljon fy mod yn anghymmeradwy, y gallaf ymrôi'n ddeffröus i fyw yn well: ac fe fydd yn gyſſur annhraethol i mi, o's câf fi ynnof fy hun argoeljon o wîr Râs. —— Gal. vi. 4. *Profed pob un ei waith ei hun; ac yna y caiff orfoledd yndo ei hun yn unig, ac nid mewn arall.*

Cw. Pa beth ſydd angenrheidjol i chwi tu ag at y Ddyledſwydd hon; fel y medroch holi, a barnu'n gywir ynghylch eich Cyflwr ysbrydol?

Att. Mae'n llwyr-angenrheidjol i mi ſeddu Gwybodaeth o Dduw a Chriſt, ac o Ewyllys Duw, a'r Cyfammod Grâs, a phethau eraill a berthyn i Jechydwriaeth; ac i mi gael fy ngoleuo, trwy Râs Duw, â Gwybodaeth wîr-jachuſol ac ysbrydol: canys ni ddichon neb farnu ei hun yn gywir yn y tywyll. *Diar.* xix. 2. *Marc* xii. 24.

Cw. Mae llawer yn meddu Gwybodaeth heb Râs; pa lun gan hynny y gellir adnabod Gwybodaeth raſol ac ysbrydol, ag fy'n dwyn Jechydwriaeth gyd â hi?

Att. 1. Mae Gwybodaeth raſol, ag fy'n dwyn Jechydwriaeth gyd â hi, yn peri i ddŷn briſio Gwybodaeth o Griſt, ac i ſychedu am dano, uwch law pob peth. —— 1 Cor. ii. 2.

Canys

Canys ni fernais i mi wybod dim yn eich plith, ond Jeſu Grïſt, a hwnnw wedi ei groeſhoelio. Phil. iii. 7, 8.

2. Mae Gwybodaeth raſol yn gweithio mewn dŷn fwy o Oſtyngeiddrwydd; ac nid yn chwyddo neb o falchder, fel gwybodaeth ddiras. Pan ddelo dŷn i wîr-adnabod Duw, efe a ddywaid fel *Job*, —— Job xlii. 5, 6. *Myfi a glywais â'm clustjau sôn am danat; ond yn awr fy llygad a'th welodd di. Am hynny y mae'n ffaidd gennyf fy hun, ac yr ydwyf yn edifarhâu mewn llwch a lludw.* Diar. xxx. 2, 3. 1 Cor. viii. 1.

3. Mae Gwybodaeth raſol yn llenwï dŷn o Hyfrydwch yng Ngair Duw, ac yn ei wneuthur yn fwy awyddus i rodio yn ei Ffyrdd ef. —— 1 Joan ii. 3, 4. *Ac wrth hyn y gwyddom yr adwaenom ef, o's cadwn ni ei orchymmynnion ef. Yr hwn ſydd yn dywedud, Mi a'i hadwaen ef, ac heb gadw ei orchymmynnion ef, celwyddog yw, a'r gwirionedd nid yw ynddo.* Sal. xix. 7, 8, 10. cxix.

4. Mae'n tueddu dŷn i fod yn gyfiawn ac yn dirion i bawb, ac yn drugarog i'r tlawd a'r anghenus. —— Jer. xxii. 16. *Efe a farnodd gŵyn y tlawd a'r anghenus; yna y llwyddodd: Onid fy adnabod i oedd hyn? medd yr Arglwydd.* Eph. v. 8.

5. Mae'n cyfnewid dŷn ar Lun a Delw Duw, ac yn ei wneuthur yn gyffelyb iddo. —— 2 Cor. iii. 18. *Nyni oll, ag wyneb agored yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd, megis mewn drych, a newidir i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant, megis gan Ysbryd yr Arglwydd.* Rhuf. xii. 2. Col. iii. 10.

Cw. Ynghylch pa Raſau enwëdigol y dylech holi eich hun, cyn dyfod i *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Mi ddylwn holi fy hun ynghylch y pum peth hyn.

1. Pa un a ydwyf *yn wîr-edifeiriol am fy mhechodau aeth heibio.*

2. Pa un a ydwyf *yn ſicr amcanu dilyn buchedd newydd.*

3. Pa un a oes gennyf *ffydd fywjol yn Nhrugaredd Duw trwy Grïſt.*

4. Pa un a ydwyf yn dyfod i *Swpper yr Arglwydd gyd â diolchus gôf am ei Angau ef.*

5. Pa un a ydwyf mewn *Cariad perffaith â phob dŷn.*

Cw. Wrth ba Nodau y gwybyddwch fod gennych *wîr* Edifeirwch?

Att. I

Att. 1. Mae'n arferol fod argyhoeddiad deffröus o bechod, ac o'r drwg ſydd ynddo, yn cael ei weithio yn y rhai edifeiriol; fel na's gallant lai nâ bod mewn gofid a thriſtwch mawr o'i blegid. 2 *Sam.* xxiv. 10. *Sal.* xxxviii. 2—4.

2. Mae'r rhai gwîr-edifeiriol yn cyfaddef eu pechodau ger bron Duw; gyd â gofid càlon a galar am eu pechodau dirgelaf, na's gŵyr y byd oddi wrthunt, na's dichon dim eu cyſſuro, ond gobaith o Heddwch Duw a Maddeuant; ac yn athriſt yn fynych o blegid pechodau rhai eraill hefyd. *Sal.* xxxii. 3—5. xxxviii. 5, 6, 18. xl. 12. li. 3, 4. lxxvii. 2. cxix. 136. *Ezec.* ix. 6. xxxvi. 31. *Zech.* xii. 10. 2 *Cron.* xxxii. 26. 2 *Pedr* ii. 7, 8.

3. Mae aml Weddiau pruddaidd yn cydgerdded â gwîr Edifeirwch, am gymmorth yn erbyn pechod, a llawer o zêl yn erbyn pob pechod fel ei gilydd, rhag ſyrthio yn ôl llaw i gyflwr gwaeth nag o'r blaen. *Jer.* xxxi. 18. *Sal.* li. 1—3. *Ezec.* xviii. 30, 31. *Joel* ii. 12, 13. 2 *Cor.* vii. 11. *Joan* v. 14. 2 *Pedr* ii. 20—22.

4. Mae yn y rhai a edifarhâant yn gywir, ymofynniad difrifol am ryddhâad oddi wrth eu pechodau; ac yn ddiorphwys, nes dyfod i Gyfammod â Duw trwy'r Arglwydd Jeſu. *Act.* ii. 37. *Jer.* l. 4, 5. *Job* vii. 20. xxxiv. 32. *Act.* vii. 24. xxii. 10.

5. Mae'r rhai gwîr-edifeiriol yn ewyllyſgar, yn ôl eu gallu, i dalu'n ôl beth bynnag a gymmeraſant oddi wrth neb yn gamweddus. *Luc* xix. 8. *Ezec.* xxxiii. 15. *Job* xi. 14, 15.

6. Y mae dynjon gwîr-edifeiriol yn ymrôi i fyw i Dduw o hynny allan; ac i arferyd holl Foddjon Grâs ac Ordinhadau Jechydwriaeth yn gyflawn, yn gyſſon, ac yn barchus. *Act.* ii. 42, 46.

7. Ni ddichon y rhai gwîr-edifeiriol lai nâ charu Duw yn fawr, ſy'n maddau eu pechod mawr hwy; yr hyn hefyd a'u gwnâ yn gariadol i bob dŷn, ac yn awyddus i ddwyn Ffrwythau addas i Edifeirwch ym mhob Gweithred dda. *Luc* vii. 47, 48. *Math.* iii, 8, 10.

Cw. Pa lun y gwybyddwch eich bod yn amcanu dilyn Buchedd newydd, cyn dyfod i *Swpper yr Arglwydd* i ſelio'r Cyfammod newydd?

Att. Wrth y Nodau priodol a berthyn i Fuchedd newydd. Canys,

1. Y mae Buchedd newydd yn tarddu oddi wrth wrâidd a gwyddor newydd; ſef, Cariad Criſt. 2 *Cor.* v. 14.

2. Lle mae Buchedd newydd, y mae yno dymmer a nàtur newydd; o blegid fod Duw yn rhoddi i'r cyfryw, gàlon ac ysbryd newydd. *Exec.* xxxvi. 26, 27. xi. 19, 20. 2 *Pedr* i. 4.

3. Mae Buchedd newydd yn cael ei threfnu yn ôl rheol a phortreiad newydd; nid ein dychymmygion ein hunain, na barnau cyfeiliornus pobl eraill, eithr yn ôl Gair Duw, ac Eſampl Criſt. *Gal.* i. 10. vi. 16. 1 *Joan* ii. 6. *Joan* xiii. 15. *Phil.* ii. 5. 1 *Pedr* ii. 21.

4. Ni ddichon fod Buchedd newydd yn wirioneddus, heb ddiben newydd ym mhob peth a wnelom; ſef, Gogoniant Duw, a'i foddio ef yn bennaf dim. 1 *Cor.* x. 31. *Col.* iii. 23. *Rhuf.* xiv. 23. xvi. 27. *Hebr.* xi. 4, 6.

5. Lle mae Buchedd newydd, y mae ſerchiadau, cariad a chaſineb, llawenydd a thriſtwch, a dymuniadau newydd, cyfeilljon ac arferion newydd, a meiſtrolaeth newydd dros ein holl anwydau drwg. 2 *Cor.* v. 17. *Sal.* xxvi. 4, 5. cxix. 63, 115, 174.

Cw. Pa lun y gwybyddwch, pa un a oes gennych wîr a bywjol Ffydd yn Nhrugaredd Duw trwy Griſt?

Att. Wrth y Ffrwythau o honi, a'r Nodau 'ſgrythurol a berthyn iddi. Canys,

1. Fe bair gwîr Ffydd i ni ddeffrôi o'n diofalwch, i ddiangc rhag y Barnau y mae Duw yn fygwth, er na bônt yn weledig i ni: *Megis y darfu i Noah, trwy ffydd, ddarparu areh i achub ei dŷ rhag y diluw, pan y rhybuddiodd Duw ef; er nad oedd etto ddim argoel am dano.* Hebr. xi. 7. Eccſod. ix. 18—21. 2 Bren. xxii. 19.

2. Fe bair gwîr Ffydd i ni ſwrw ymmaith yn ewyllyſgar ein holl arferion drwg, er maint o elw'r byd a fo'n dyfod oddi wrthunt. *Y conſurwyr a gredaſant, a gyffeſaſant eu pechodau, ac a loſgaſant lyfrau eu rhodreſwaith, er eu bod o werth dengmil a deugain o ddarnau arjan.* Act. xix. 18, 19.

3. Fe bair gwîr Ffydd i ni ufuddhâu yn ddioed i Ewyllys Duw, yn y pethau y fo'n ſwyaf gwrthwyneb i'n hewyllys ein hunain. *Trwy ffydd y gadawödd Abraham ei wlad, ac yr offrymmodd ei fâb Iſaac, pan archodd Duw iddo.* Hebr. xi. 8, 17.

4. Fe

4. Fe bair gwîr Ffydd i ni ſod yn gyflawn, yn gyſſon, âc yn ddyfal-barhäus yn holl Addoliad Duw. Y rhai a gredaſant, *oeddynt yn parhâu yn athrawjaeth ac yng nghymdeithas yr apoſtoljon, ac yn torri bara, ac mewn gweddiau.* Act. ii. 42. Dan. vi. 7, 10, 23. Hebr. xi. 35. Joan viii. 31.

5. Fe bair gwîr Ffydd i Griſt ſod yn werthfawr yn ein golwg, a'n calonnau i ſod yn llawn o hiraeth am dano. *Dafydd* a ddywedodd, — Sal. xlii. 1. *Fel y brefa'r hydd am yr afonydd dyfroedd, felly'r hiraetha fy enaid am danat ti, O Dduw!* — 1 Pedr ii. 7. *I chwi y rhai ydych yn credu, y mae yn urddas.*

6. Fe bair gwîr Ffydd i ni ymwadu â ni ein hunain er mwyn Criſt; ſef, â'n pechodau ein hunain, ac â'n cyfiawnderau ein hunain, â'n perthynaſau, â'n meddiannau, ac â'n bywyd ein hunain hefyd, pan fo raid er mwyn Criſt. — Phil. iii. 7. *Y pethau oedd elw i mi, y rhai hynny a gyfrifais i yn golled er mwyn Criſt.* Hebr. xi. 24, 25. Eſay lxiv. 6. Rhuf. i. 16. ix. 30—32. x. 4, 5. Marc viii. 34, 35. Act. xxi. 13. Sal. cxix. 46. Diar. xxviii. 1. Dan. iii. 16—18. Phil. i. 14.

7. Mae gwîr Ffydd yn ein nerthu i orchfygu holl hudoljaeth y byd, a dichelljon Satan, ſel na hudir ni i bechod ganddunt. — 1 Joan v. 4. *Hon yw'r oruchafiaeth ſydd yn gorchfygu'r byd; ſef, ein ffydd ni.* — Eph. vi. 16. — A *tharian y ffydd ſy'n diffoddi holl biccellau tanllyd y fall.* 1 Theſſ. ii. 13.

8. Mae gwîr Ffydd yn ein gwneuthur yn foddlon, ac yn gyſſurus yn yr Arglwydd, pan fythom drallodus, ac yn athriſt yn y byd. — 1 Pedr i. 6. *Yn yr hyn yr ydych yn mawrlawenhâu, er eich bod ychydig yr awron (o's rhaid yw) mewn triſtwch, trwy amryw brofedigaethau.* Rhuf. v. 2, 3. Act. v. 41. xvi. 34.

9. Mae gwîr Ffydd yn ein gwneuthur yn ffrwythlon ym mhob Gweithred dda; ac nid gorphwys yn ſegur ar Broffes yn unig. — Jago ii. 20. *A fynni di wybod, O ddyn ofer, am ffydd heb weithredoedd, mai marw yw?*

10. Fe bair gwîr Ffydd i ni ddyfod i *Swpper yr Arglwydd* gyd â diolchus Goffa am Farwölaeth Criſt, a'r Donjau a bwrcaſodd ef.

Cw. Pa fodd y gwybyddwch fod gennych Goffa gwîr-ddiolchus am Farwölaeth Criſt?

Att. 1. Mae Coffa gwîr-ddiolchus o Farwölaeth Criſt yn llawenychu ein Hysbrydoedd, ac yn deffröi'n Heneidjau i foli Duw am Griſt hyd eithaf o'n gallu. — Sal. ciii. 1. *Fy enaid, bendithia'r Arglwydd; a chwbl ſydd ynnof, ei Enw ſanctaidd ef.* Deut. xxvi. 11. 1 Cron. xxix. 9, 10. Luc x. 21. Sal. lxiii. 5.

2. Mae Coffa gwîr-ddiolchus o Farwölaeth Criſt yn peri i ni glodfori Duw yn ddyfal, ac yn ddymunol i eraill ei glodfori ef gyd â ni. —— Sal. xxxiv. 1, 3. *Bendithiaf yr Arglwydd bob amſer: ei foliant fydd yn fy ngenau yn waſtad. Mawrygwch yr Arglwydd gyd â mi; a chyd-ddyrchafwn ei Enw ef.* Sal. cxlv. 2. cxlvi. 2.

3. Mae Coffa gwîr-ddiolchus o Farwölaeth Criſt yn gweithio ynnom ychwaneg o Ymddaroſtyngiad, wrth yſtyriaid ein hannheilyngdod o Gariad Criſt i ni. Felly yr ymoſtyngodd *Jacob*, pan yſtyriodd Ddajoni Duw iddo, ac y dywedodd, — — Gen. xxxii. 10. *Ni ryglyddais y lleiaf o'th holl drugareddau di, nac o'r holl wirioneddau wnaeth-oſt â'th wâs.* Ac megis y dywedodd *Dafydd*, —— Sal. cxliv. 3. *Arglwydd, beth yw dŷn, pan gydnabyddit ef? neu fâb dŷn, pan wnait gyfrif o hono?* Sal. viii. 4. Job vii. 17. Hebr. ii. 6. 2 Sam. vii. 18, 19. 1 Cron. xxix. 14.

4. Mae Coffa gwîr-ddiolchus o Farwölaeth Criſt yn ein gwneuthur yn ddiolchgar, nid mewn gair yn unig, eithr mewn gweithred hefyd, trwy gyfrannu i'r tlawd, ac at Achos Duw, yn ôl ein gallu; fel y bo ffrwyth ein cariad er Gogoniant iddo. —— Joan xv. 8. *Yn hyn y gogoneddwyd fy Nhâd, ar ddwyn o honoch ffrwyth lawer.* Ecſod. xxv. 2. 1 Cron. xxix. 3. 2 Cor. viii. 3. ix. 7.

5. O's ydym yn cofio yn wîr-ddiolchus am Farwölaeth Criſt, ſe bair y Coffa o'i Gariad ef, yn marw droſom, i ni fyw iddo ef o hynny allan. —— 2 Cor. v. 14, 15. *Y mae cariad Criſt yn ein cymmell ni, gan farnu o honom hyn; o's bu un farw dros bawb, yna meirw oedd pawb. Ac eſe a fu farw dros bawb, fel na byddai i'r rhai byw fyw mwyach iddunt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw droſtunt, ac a gyfodwyd.*

Cw. Pa fodd y gwybyddwch eich bod mewn Cariad perffaith â phob dŷn?

Att. Wrth y Nodau hyn. 1. Bod

1. Bod heb ddrygu, na chwennych drygu neb, mewn meddwl, gair, na gweithred. —— Zech. viii. 17. *Na ſwriedwch ddrwg neb i'w gilydd yn eich calonnau.* Dit. iii. 2.

2. Trwy geiſio leſhâad a bôdd eraill yn yr hyn ſydd dda; ac nid ein llês a 'n bôdd ein hunain yn unig. —— Rhuf. xv. 2. *Boddhäed pob un o honom ei gymmydog, yn yr hyn ſy dda iddo er adeiladaeth.* —— Phil. ii. 4. *Nac edrychwch bob un ar yr eiddoch eich hunain, eithr pob un ar yr eiddo eraill heſyd.*

3. Trwy ragflaenu pob niwaid i eraill, yn eu perſonau, a 'u henwau da, a 'u meddiannau, hyd ag allom ni. —— Ecſod. xxiii. 4, 5. *O's cyfarfyddi ag eidion dy elyn, neu â'i aſyn, yn myned ar gyfrgoll, dychwel ef adref iddo. O's gweli aſyn yr hwn a'th gasâ yn gorwedd dan ei hwn, a beidi a'i gynhorthwyo? gan gynhorthwyo cynhorthwya gyd ag ef.* 1 Sam. xix. 4—6. Sal. xv. 1, 3. Deut. xxii. 1—4, 8.

4. Trwy gydymdeimlo ag eraill; gan fod yn dda gennym eu dedwyddfyd, ac yn ddrwg gennym eu blinder. —— Hebr. xiii. 3. *Cofiwch y rhai ſy yn rhwym, fel pettaech yn rhwym gyd â hwynt; y rhai cyſtuddiol, megis yn bod eich hunain heſyd yn y corph.* 1 Cor. xii. 25, 26. Rhuf. xii. 15. Job xxx. 25.

5. Trwy roddi parch ac anrhydedd dyledus i bob dŷn. — 1 Pedr ii. 17. *Perchwch bawb. Cerwch y brawdoljaeth.* —— Rhuf. xii. 10. *Mewn cariad brawdol hyddwch garedig i'w gilydd, yn rhoddi parch yn blaenori eu gilydd.* Phil. ii. 3.

6. Trwy gyfrannu yn ſerchog i 'r rhai ſo mewn eiſiau, ac yn gymmwynaſol i bawb yn ôl ein gallu. —— 1 Joan iii. 18. *Fy mhlant bychain, na charwn ar air, nac ar dafod yn unig, eithr mewn gweithred a gwirionedd.* Gal. v. 13. vi. 2. Phil. ii. 14. Jago i. 27. 2 Cor. viii. 12.

7. O's ydym mewn Cariad perffaith â phob dŷn, ſe bair i ni fod yn oflyngedig, yn heddychol, yn ddioddefgar, yn garuaidd, yn faddeugar, yn weddaidd, ac yn addfwyn i bawb; gan wneuthur i eraill, megis y mynnem i eraill wneuthur i ni. 1 *Cor.* xiii. 4—7. *Luc* vi. 31. *Math.* xxii. 39. *Eph.* iv. 31, 32. *Col.* iii. 12, 13. 1 *Pedr* iii. 8, 9.

Cw. Gwedi i chwi ymbarotôi i *Swpper yr Arglwydd*, ym mha fodd y dylech ddyfod yno?

Att. Mi ddylwn ddyfod, 1. Gyd â Diben union. Ac, yn 2. Gyd â Dymuniad hiraethlon a Syched am Griſt.

Cw. I ba Ddiben y dylech ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Nid o herwydd bod eraill yn gwneuthur felly; neu fel pe bai derbyn y Sacrament yn ddigon tu ag at fy Jechydwriaeth: Eithr mi ddylwn ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*,

1. O Ufudd-dod i Orchymmyn Criſt; ac er Coffa diolchgar am ei Gariad ef yn marw drоſof: canys efe a ddywedodd, *Gwnêwch hyn er cóf am danaf.* Math. xxvi.

2. I fyned o'r newydd dan Gyfammod â Duw trwy Griſt, fel y'm gwaredir oddi wrth y Digofaint ſy'n dyfod. —— 2 Cron. xxix. 10. *Yn awr y mae yn fy mryd i wneuthur cyfammod ag Arglwydd Dduw Iſräel; fel y trô ei ddigofaint llidiog ef oddi wrthym ni.*

3. I gael Sicrwydd ychwaneg i'm Ffydd am Faddeuant o'm holl bechodau trwy Waed Criſt. —— Eph. i. 7. *Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, ſef maddeuant pechodau, yn ôl cyfoeth ei râs ef.*

4. I gael ſy meithrin mewn Bywyd o Sancteiddrwydd a Chymmundeb â Duw, a'm cymhwyſo i Fywyd tragywyddol, trwy ymborthi yn ysbrydol ar Gorph a Gwaed Criſt: canys efe a ddywedodd, —— Joan vi. 54. *Yr hwn ſydd yn bwyta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, ſydd ganndo fywyd tragywyddol.*

5. I gael fy mendithio ag ychwaneg o Râs Duw, i weithio ynnof ddigaſedd i bob drwg, zêl i bob Dajoni, ffydd gref, càlon bur, a chariad gwreſog, tymmer addfwyn, goſtyngeiddrwydd ysbryd, heddwch cydwybod, a llawenydd yn yr Ysbryd Glân: canys, y mae Enw'r Arglwydd mewn modd arbennig yn yr Ordinhâad hon; ac efe a ddywedodd, *Ym mhob man lle y rhoddwyf goffadwriaeth o'm Henw, y deuaf attat, ac y'th fendithiaf.* Ecſod. xx. 24.

Cw. Pa bryd y gellwch farnu, fod ynnoch Ddymuniad hiraethlon a Syched am Griſt?

Att. 1. Pan fyddwyf, fel y Brenin *Dafydd*, yn teimlo pwys gorthrwm fy mhechod, a than ofid mawr o'i blegid yn llefain ar yr Arglwydd. —— Sal. xxxviii. 4, 8, 9. *Fy nghamweddau a aethant dros fy mhen: megis baich trwm y maent yn rhy drwm i mi. Gwanhâwyd, a drylliwyd fi'n dra mawr: rhuais gan aflonyddwch fy nghàlon. O'th*

flaen

ſiaen di, Arglwydd, y mae ſy holl ddymuniad; ac ni chuddiwyd ſy uchenaid oddi wrthyt.

2. Pan fytho fy nhlodi a'm heiſiau ysbrydol yn deffrôi fy Enaid i ddymunaid rhan yng Nghriſt, megis y mae'r tlawd a'r newynog yn dymunaid ymborth. —— Math. v. 3, 6. *Gwyn eu byd y tlodion yn yr yſbryd: canys eiddunt yw teyrnas nefoedd. Gwyn eu byd y rhai ſydd arnunt newyn a ſyched am gyfiawnder: canys hwy a ddiwellir.* Luc i. 53.

3. Pan fytho Criſt yn fwy rhagorol yn fy ngolwg nâ phob peth; ac na ddichon dim fy moddio na'm diddanu hebddo. —— Sal. lxxiii. 25. *Pwy ſydd gennyfi yn y nefoedd ond tydi? ac ni ewyllyſiais ar y ddaear neb gyd â thydi.* —— Sal. lxxvii. 2. *Yn nydd fy nhrallod y ceiſiais yr Arglwydd: fy archoll a redodd liw nôs, ac ni pheidiodd: fy enaid a wrthododd ei ddiddanu.* Sal. xciv. 19.

4. Pan fyddwyf yn dyfal-ymofyn am Griſt yn ei holl Ordinhadau, a'm meddyliau yn tueddu yn ei ôl yn ddiorphwys. —— Can. iii. 2, 3. *Codaf yn awr ac âf o amgylch y ddinas, trwy'r heolydd a'r 'ſtrydoedd, ceiſiaf yr hwn a hoffa fy enaid.* —— *Gofynnais, A welſoch chwi yr hwn ſydd hoff gan fy enaid?* —— Eſay xxvi. 9. *A'm henaid y'th ddymunais liw nôs; â'm hysbryd hefyd o'm mewn y'th foreugeiſiaf.* Sal. cxxx. 6. Can. v. 8—10.

5. Pan fyddwyf yn ymofyn Addyſg am Ffyrdd yr Arglwydd, gyd â chyflawn fwriad gwirioneddus i rodio ynddunt. —— Eſay ii. 3. *Pobloedd lawer a ânt, ac a ddywedant, Deuwch, ac eſgynnwn i fynydd yr Arglwydd, i dŷ Ddduw Jacob; ac efe a'n dyſg ni yn ei ffyrdd, a ni a rodiwn yn ei lwybrau ef.* Sal. cxix. 33, 34.

6. Pan fytho Criſt mor annwyl a gwerthfawr yn fy ngolwg, ac y byddai'n foddlon gennyf i ymadel â phob peth er ei fwyn ef. —— Math. xiii. 45, 46. *Cyffelyb yw teyrnas nefoedd i farchnatäwr yn ceiſio perlau têg: yr hwn, wedi iddo gaffael un perl gwerthfawr, a aeth, ac a werthodd gymmaint oll ag a feddai, ac a'i prynodd ef.*

7. Pan fytho amlygiad o Griſt i'm Henaid yn llawenychu fy ysbryd, ac yn deffrôi fy holl ſerch tu ag atto, i'w hoffi ac ymhyfrydu ynddo. —— Can. v. 4, 5. *Fy Annwyliyd a eſtynnodd ei law trwy'r twll, a'm hamyſgaroedd a gyffrôdd er ei fwyn. Mi a gyfodais i agori i'm Hannwyliyd, a'm*

dwylaw a ddiferaſant gan fyrr, a'm byſedd gan fyrr yn diferu ar hŷd heſpennau'r old. Can. i. 12, 13. iii. 3.

Cw. Gwedi i chwi yſtyriaid y pethau hyn, a holi eich hun, a ellwch chwi fod yn hyderus, y'ch bod yn deilwng i ddyfod i *Swpper yr Arglwydd*?

Att. O's wrth holi fy hun, y câf ddechreuad o'r Graſau hyn ynnof, er nad ydynt atto ond llêſg ac egwan, yr wyf yn gobeithio nad wyf yn llwyr-annheilwng i *Swpper yr Arglwydd:* canys, yr wyf yn dyall fod dau fath o Deilyngdod. Sef, 1. Teilyngdod Deddfol; hynny yw, Teilyngdod o Haeddiant. 2. Teilyngdod Efangylaidd; hynny yw, Teilyngdod o Gymhwyſdra.

Cw. Beth ydych yn feddwl wrth y ddau fath hyn o Deilyngdod?

Att. 1. Teilyngdod Deddfol, neu Deilyngdod o Haeddiant, ydyw'r cyfryw Burdeb ſanctaidd dibechod ag oedd Cyfraith Duw yn ei ofyn yn y Cyfammod Gweithredoedd; ac yn yr yſtyr hyn nid oes ddŷn teilwng ar wyneb y ddaear. —— Rhuf. iii. 23. *O blegid pawb a bechaſant, ac ydynt yn ôl am ogoniant Duw.*

2. Teilyngdod Efangylaidd, neu Deilyngdod o Gymhwyſdra, yw, nesâu at Dduw trwy Ffydd yng Nghriſt, yn y cyfryw fodd parchus, addas, a dyallus, ag a ddyſgir i ni yn yr Efengyl, er nad ydym yn ddibechod.

Cw. Pa lun y gellwch amlygu hyn allan o'r Yſgrythur?

Att. 1. Pan y mae Criſt yn sôn am y rhai a gyfrifir yn *deilwng* o Fywyd tragywyddol, nid yw yn meddwl fod neb yn *heiddiannol* o hono yn ôl Cyfraith Duw; eithr yn cael eu cymhwyſo a'u gwneuthur trwy Griſt yn *addas* iddo. *Luc* xx. 35.

2. Pan y mae *Paul* yn ymbil ar y *Theſſalonjaid* i rodio yn *deilwng* i Dduw, nid yw yn meddwl y gallent fod yn *heiddiannol* o Dduw; eithr bod iddunt rodio yn *addas* i Dduw yn ôl Athrawjaeth yr Efengyl. 1 *Theſſ.* ii. 12. 2 *Theſſ.* i. 15.

3. Swm y Teilyngdod, a'r Cymhwyſdra y mae'r Efengyl yn ofyn ym mhawb a ddêl i *Swpper yr Arglwydd*, yw, dyfod yn yſtyriol, yn barchus, ac yn wîr-edifeiriol, trwy Ffydd yng Nghriſt, i'r Ordinhâad hon, dan berygl y Barnau y mae Duw yn fygwth ar Gymmunwyr annheilwng yn yr 11. ben. o'r 1 o'r *Corinthjaid.*

Cw. A

Cw. A ydyw yn ddiberygl i chwi eſgeuluſo dyfod i *Swpper yr Arglwydd*, rhag ofn dyfod yn anghymmwys, o blegid i farn Duw ddyfod am hynny ar y *Corinthiaid*; ac am fod yr Apoſtol yn dywedud, fod y rhai a fwytâant ac yfant yn annheilwng, yn bwyta ac yn yfed Barnedigaeth iddunt eu hunain?

Att. 1. Ni ddylai neb eſgeuluſo *Swpper yr Arglwydd*; eithr mi a ddylwn ofni i aros yn anghymmwys, rhag darfod am danaf yn ddiſymmwth yn fy anghymhwyſder, ac heb ran yng Nghriſt.

2. Fe ddylai fy ofn am fy anghymhwyſder fy neffrôi i gymhwyſo fy hun yn ddioed: canys, tra fyddwyf yn anghymmwys i gymmuno, yr ydwyf hefyd yn anghymmwys i wrando Gair Duw, a Gweddio, ac yn anghymmwys i Deyrnas Nefoedd; ac felly mewn perygl o fyned i uffern bob munud.

3. Y rhai rhyfygus a difraw fydd annheilwng i *Swpper yr Arglwydd*; eithr y Criſtjon gwan ac ofnus, ag fy gantho waith mawr a thaith boenus o'i flaen, fy reitiaf iddo gael ei gryfhâu â'r Ymborth ysbrydol a ddarparir yno. — 1 Bren. xix. 7. *Cyfod, a bwyta ac yf; canys y mae i ti lawer o ffordd.* — Rhuf. xiv. 1, 4. *Yr hwn fydd wan yn y ffydd, derbyniwch attoch:* — *ac efe a gynhelir; canys fe a all Duw ei gynnal ef.*

4. Mi ddylwn ochelyd rhyfyg ac anghymhwyſder y *Corinthiaid*, a ddygodd Farnedigaeth arnunt: canys yr oedd rhai o honunt yn ymryſongar, ac yn ymgyfreithio â'i gilydd o flaen y rhai digred, ac yn gwneuthur cam a cholled i'w brodyr; yr oedd amrafaelion a hereſiau yn eu myſg; yr oedd rhai o honunt yn newynog, ac eraill yn feddw yn y *Swpper ſanctaidd*: yr hyn bethau, a'r cyffelyb, a ddylem ni ochelyd. 1 *Cor.* vi. 5 — 8. xi. 16 — 22.

5. Mi ddylwn yſtyriaid, fel na'm dychryner yn ddiachos rhag dyfod i'r Sacrament, mai dywedud y mae'r Apoſtol, fod y rhai annheilwng yn bwyta ac yn yfed Barnedigaeth, am nad oeddynt yn *jawnfarnu corph yr Arglwydd*; ſef, nad oeddynt yn gwneuthur rhagoriaeth barchus rhwng *Swpper Criſt* a'u hymborth cyffredin. 1 *Cor.* xi. 29.

6. Mi ddylwn yſtyriaid hefyd, rhag i mi fyrthio i anobaith, o's bûm yn annheilwng yn *Swpper yr Arglwydd* eiſioes, mai barnau tymhorol, yn flaenaf, y mae'r Apoſtol yn ei feddwl;

y fath a ddaeth ar amryw o'r *Corinthiaid*, i ddeffrôi Cymmunwyr annheilwng i edifarhau, ac *i farnu eu hunain, fel na fernid hwy gyr bron Duw*; ac nid ydys yn dywedud eu bod hwy oll yn ddamnedig. 1 *Cor.* xi. 30, 31.

7. Mi ddylwn yſtyriaid, mai Diben y Rhybuddion hyn yw, deffrôi pawb i ddyfod yn ediſeiriol ac yn barchus i *Swpper yr Arglwydd*; ac am hynny, nid tynnu'n ôl rhag ofn, ond ymbarotôi yn well, a ddylwn: canys, y mae perygl echrydus i droi Cynghorion Duw yn y gwrthwyneb i'r Diben o honunt; a chymmaint o berygl echrydus i eſgeuluſo ei Ordinhadau ef, ag ſydd o'u camarferyd: fel na's gallaf ddiangc yn un ffordd rhag Barn Duw, ond trwy ddyfod yn barchus i *Swpper yr Arglwydd*.

Cw. Pa Annogaeth ſy gennych i ddyfod yn obeithiol i *Swpper yr Arglwydd*, pan weloch eich Pechod yn fawr, eich Grâs yn wan, a'ch Cymhwyſder yn ammherffaith?

Att. 1. Ni ddylwn i wrthod dyfod at Dduw: canys nid yw efe yn fy ngwrthod i; eithr yn fy annog i ddiſgwil wrtho, er cymmaint y fyddo fy mhechod. —— Eſay i. 18. *Deuwch yr awr hon, ac ymreſymmwn, medd yr Arglwydd: Pe byddai eich pechodau fel 'ſgarlad, ânt cyn wynned a'r eira; pe cochent fel porphor, byddant fel gwlân.* —— Eſay xliii. 25. *Myfi, myfi yw'r hwn a ddilea dy gamweddau, er fy mwyn fy hun, ac ni chofiaf dy bechodau.*

2. Pan welwyf fy hun i gŷd yn aflan ac yn ddu fel uffern, o herwydd faint a chynddrwg fy mhechodau, mi ddylwn ddyfod at Griſt er hynny; o blegid ei fod yn cadw'r pechadurjaid gwaethaf, a'i Waed yn glanhâu yr enogrwydd mwyaf. —— 1 Dim. i. 15. *Gwîr yw'r gair, ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Criſt Jeſu i'r byd i gadw pechadurjaid; o ba rai, pennaf ydwyf fi.* —— 1 Joan i. 7. — *Gwaed Jeſu Griſt ei Fâb ef ſydd yn ein glanhâu ni oddi wrth bob pechod.*

3. Pan fyddwyf flinderog gan lwyth gorthrwm fy mhechod, mi ddylwn gymmeryd Jau Criſt arnaf yn ddiammau; canys y mae yn fy ngalw, ac yn addaw eſmwythder i mi. — Math. xi. 28, 29. *Deuwch attaf fi bawb ag y ſydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a eſmwythâaf arnoch. Cymmerwch fy jau arnoch, a dyſgwch gennyf; canys addfwyn ydwyf a goſtyngedig o galon: a chwi a gewch orphwyſfra i'ch eneidjau.*

4. Pan

4. Pan fytho fy Enaid glaſaf o bechod, ac yn gweled fy hun yn golledig, at bwy ond Criſt yr âf fi? Canys, Meddyg y cleifion, a Cheidwäd y colledig, yw Criſt; megis y dywedodd ef ei hun:—— Luc v. 31, 32. *A'r Jeſu a attebodd ac a ddywedodd wrthunt, Nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg, ond i'r rhai cleifion. Ni ddaethum i alw rhai cyfiawn, ond pechadurjaid i edifeirwch.* —— Luc xix. 10. *Mib y dŷn a ddaeth i geiſio, ac i gadw yr hyn a gollaſid.*

5. Pan fytho fy Ffydd yn wan ac yn dywyll, y mae'r Arglwydd yn gorchymmyn i mi, er hynny, i ymddiried a gobeithio ynddo, er tywylled yw arnaf, o's ydwyf yn ei ofni ef.—— Eſay l. 10. *Pwy yn eich myſg ſydd yn ofni yr Arglwydd, yn gwrandaw ar lais ei wâs ef yn rhodio mewn tywyllwch, ac heb lewyrch iddo? gobeithied yn Enw'r Arglwydd, ac ymddirieded yn ei Ddaw.* —— Math. xii. 20. *Corſen yſſig ni's tyrr, a llîn yn mygu ni's diffydd; hyd oni ddygo efe allan farni fuddugoliaeth.* Rhuf. xiv. 1—4.

6. Pan fytho fy Enaid yn fwyaf athrift a thrymmaidd, yn ſarwaidd ac yn llêſg, Prefennoldeb ysbrydol Criſt ar ei Fwrdd ef a'm hadfywja, ac a bair fod yn hôff gennyf am dano.—Can. i. 12, 13. *Tra yw'r Brenin ar ei fwrdd, fy nardus i a rydd ei arogl. Fy Anwylyd ſydd im' yn bwyſi myrr; rhwng fy mronnau yr erys dros nôs.* Sal. lxxxiv. 10.

7. Pan welwyf ammherffeithrwydd fy Nghymhwyſder, a'm Henaid yn brudd o'i blegid, ac yn ſychedig am Griſt; yna y mae ef yn fy ngwahodd i ddyfod i *Swpper yr Arglwydd.*—— Dad. xxii. 17.—*Yr hwn ſydd â ſyched arno, deued; a'r hwn ſydd yn ewyllyſio, cymmered ddwfr y bywyd yn rhâd.* Joan vii. 37. Eſay lv. 1.

Cw. Pa beth ychwaneg a ddylech yſtyriaid ynghylch *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Dau beth. 1. Pa beth a ddylwn wneuthur pan fyddwyf yn *Swpper yr Arglwydd.* 2. Pa beth a ddylwn wneuthur ar ôl hynny.

Cw. Pa beth a ddylech wneuthur pan fyddoch yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Pan fyddwyf yn *Swpper yr Arglwydd,*

1. Mi ddylwn weddio Duw am Gymmorth a Llwyddiant yno.

2. Mi ddylwn adnewyddu fy Edifeirwch.

3. Mi ddylwn yſtyriaid Anghenion fy Enaid.

4. Mi

4. Mi ddylwn yſtyriaid y Breintjau a ſelir i mi yno.

5. Mi ddylwn yſtyriaid Gwerthfawrogrwydd Gwaed Criſt.

6. Mi ddylwn ddodi fy Ffydd ar waith yno.

7. Mi ddylwn gofio Cariad Criſt.

8. Mi ddylwn ysbrydoli'r pethau a welwyf yno.

9. Mi ddylwn addunedu fy hun yn gywir i Dduw.

10. Mi ddylwn dalu Diolch i Dduw am ei Gariad i mi yng Nghriſt Jeſu.

Cw. Am beth y dylech weddio pan fyddoch yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Mi ddylwn weddio,

1. Am Help Duw yn fy mhlaid, ac i Law Duw fod arnaf, i'm gwneuthur yn barod i dderbyn yr Arglwydd yn Dduw i mi mewn gwirionedd yn yr Ordinhâad hon; fel na's caffer fi yn dwyllwr ger ei fron ef, ac na fo'r Ordinhâad yn afleſiol i mi. *Sal.* cxviii. 27. *Jer.* xlviii. 10.

2. Mi ddylwn weddio am Râs Duw, i oleuo fy nyall, i ddeffrôi fy nghâlon, a ſefydlu fy meddyliau; fel na fyddwyf yn anyſtyriol, yn farwaidd, nac yn yſgafn, pan fyddwyf yn golygu Croeſhoeliad Criſt fy Mhrynwr, ac yn ſelio'r Cyfammod tragywyddol ger bron Duw yn y *Swpper hon.* Sal. cxix. 88.

3. Mi ddylwn weddio ar Dduw, i gadw oddi wrthyf Broſedigaethau'r Byd, a'r Cnawd, a Satan, pan fyddwyf ynghylch y Gwaith mawr hwn; y rhai a'm dilynant yn haerllug i bob lle, i derfyſgu fy ysbryd, ac i rwyſtro fy llwyddiant, oni bydd i'm Harglwydd eu gwahardd hwynt. *Math.* xxvi. 41.

4. Mi ddylwn weddio ar Dduw, i ddeffrôi ei Râs ynnof i'w addoli ef yn ddifrifol yn yr Ordinhâad gyſſegredig hon: canys ni allaf weithredu hynny o Râs fy gennyf, heb Gymmorth Duw. —— Can. iv. 16. *Deffro di, ogleddwynt, a thyred ddeheuwynt, chwyth ar fy ngardd, fel y gwaſgarer ei pheraroglau: deued fy Anwylyd i'w ardd, a bwytäed ei ffrwyth peraidd ei hun.*

5. Mi ddylwn weddio ar Dduw, fy ngwneuthur yn gyfrannog o'r Bendithion a'r Breintjau a brynodd Criſt: canys, er ei fod ef yn eu haddaw, etto efe a fyn i ni eu ceiſio hwynt ganddo. *Ezec.* xxxvi. 37.

Cw. Beth

Cw. Beth a ddylech yſtyriaid tu ag at adnewyddu eich Edifeirwch yn *Swpper yr Arglwydd?*

Att. 1. Mi ddylwn yſtyriaid y cyflwr pechadurus y daethym ynddo i'r byd, a'r llygredigaeth pechadurus ag ſydd ym mhob rhan o honof: ſef, ſod ſy nyall yn dywyll, ſy nghàlon yn galed, ſy ewyllys yn gyndyn, ſy nghôf yn wan, ſy nghydwybod yn ddrwg, a'm ſerchiadau yn ymwrthod â Duw i ddilyn anwiredd a gwagedd; fel y torrer ſy nghàlon, ac y llanwër ſy Enaid o Driſtwch duwjol o'u plegid gerbron Duw yn *Swpper yr Arglwydd.*

2. Mi ddylwn yſtyriaid ſy anwireddau gweithredol: ſef, ſy eſgeuluſdra o Ddyledſwyddau Crefydd, ac Addoliad Duw; a'r pechodau neillduol a wnaethum, mewn meddwl, gair, a gweithred; yn enëwdig y pechodau ag ydwyf yn ſwyaſ tueddol iddunt, a'r euogrwydd ſy'n gorwedd drymmaf ar ſy Nghydwybod; fel y llefwyf yn daerach ar Dduw am Faddeuant, a Nerth yn eu herbyn rhag llaw.

3. Mi ddylwn yſtyriaid y trueni tymhorol, ysbrydol, a thragywyddol a berthyn i mi o blegid ſy mhechodau: ſef, yſtyriaid ſy mod yn ddaroſtyngedig i drallodau trymmion a gofidiau chwerwön yn ſy nghorph a'm henaid, yn ſy meddiannau a'm traſau, a phob peth a berthyn i mi, dan felldith y Ddeddf, a minnau ſy hun dan feddiant y diafol, dan Ddigofaint Duw, a than Farn o Ddamnedigaeth, i ddioddef poenau tân a brwmſtan dros ſyth yn uffern; fel y byddo i'r yſtyriaeth o hyn driſtâu a daroſtwng ſy nghalon i lefain yn wîr-ddifrifol am Râs a Maddeuant trwy Waed Criſt, pan ſyddwyf gyd ag ef ar y Bwrdd. *Luc* xv. 18, 19. *Zech.* xii. 10. *Eph.* i. 7.

4. Mi ddylwn achwyn wrth ſy Arglwydd yn bruddaidd, a chywilyddio ger ei fron, o blegid amldra greſynus ſy mhechodau ym mhob ffordd; ac na thynnwyf ſy ngolwg oddi ar y llanw mawr o honunt, nes tyneru ſy nghàlon, a'm daroſtwng yn iſel o'i flaen i lefain arno, *Arglwydd, y mae arnaf gywilydd a gorchwyledd i godi ſy wyneb attad. Amlach yw ſy mhechodau nâ gwallt ſy mhen. Ni wn i gyfrif arnunt: canys pa rai o'th orchymmynnion ni throſeddais? a pha beth a wnaethum erioed yn ddibechod? Eithr ti, yr hwn a roddaiſt dy enaid yn aberth dros ſy mhechod, ni ddirmygi gàlon ddryllliedig ac ysbryd cyſtuddiedig.* Ezra ix. 6. Sal. xl. 12. li. 17.

5. Mi

5. Mi ddylwn, yngŵydd fy Arglwydd, pan fyddwyf yn y *Swpper hon* gyd ag ef, addunedu ac ymrôi o'r newydd yn nerth ei Râs ef, i rodio yn fwy manylaidd yn ei Olwg ef o hynny allan; ac i fod yn fwy gwagelog, rhag i'm pechodau fy ngorddiwes dracheſn: Mi ddylwn ddywedud wrtho ar y Bwrdd, *Heb law a welaf, dyſg di fi, o gwneuthym anwiredd, ni wnâf fi mwy.— Golchais fy ngwiſg, a pha fodd y diwynaf hi? Tu, Arglwydd, fyddi dyſt, o's troaf at ynfydrwydd dracheſn.* Job xxxiv. 32. Sal. lxxxv. 8. 1 Pedr iv. 3. Can. v. 3.

Cw. I ba Ddiben y dylech yſtyriaid Anghenion eich Henaid, pan fyddoch yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Mi ddylwn yſtyriaid Anghenion fy Enaid, i'w tannuger bron Duw yn *Swpper yr Arglwydd*; gan ddeiſyfu arno ef, i roddi i mi ychwaneg o'r Graſau ſydd egwan a diffygiol ynnof: ſef,

1. Ychwaneg o Ofal, a Gwiliadwriaeth, a Chymmorth, yn erbyn Profedigaethau i Bechod; yn enwedig y Profedigaethau a'm gorchfygodd fynychaf yr amſer aeth heibio.

2. Ychwaneg o Ysbryd Cariad, Addfwynder, Ammynedd, Goſtyngeiddrwydd, a Brawdgarwch, tu ag at bob dŷn; ac i wellhâu fy nhymmer lygredig ym mhob yſtyr, er Harddwch i'm Proffes, ac Eſampl dda i eraill; ac nid i fod yn dramgwydd i neb.

3. Ychwaneg o Zêl ac Awydd, i ogoneddu Duw yng ngwaith fy ngalwedigaeth; i wneuthur pob peth o'r galon megis i'r Arglwydd; ac i rodio'n ddyallus mewn Ffordd berffaith: ſel na chabler Enw Duw o'm plegid, nac i roi achos i neb ddywedud yn ddrwg am yr hyn ſy dda ynnof.

4. Ychwaneg o Synniad ysbrydol, a Phurdeb Càlon, a Serchiadau nefol, i fyw mewn Cymmundeb ysbrydol â Duw ac â'i Fâb yr Arglwydd Jeſu.

5. Ychwaneg o Ffydd, a Sicrwydd o Heddwch Duw, a Llawenydd yn yr Ysbryd Glân, yn Ddiddanwch i mi erby y dydd blîn: yr hyn bethau, a'r cyffelyb, a ddylwn ymbi ar fy Arglwydd yn eu cylch, a ſychedu am danunt, pa fyddwyf ar y Bwrdd gyd ag ef. *Job* xxiii. 3, 4. *Sal.* cvii. *Luc* i. 53. *Dad.* iii. 16, 17.

Cw. Pa ham y dylech yſtyriaid y Breintjau a ſelir i ch yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. M

Att. Mi ddylwn, er Cyffur i'm Henaid, ac er Annogaeth i mi garu Criſt, a chredu ynddo, yſtyriaid y Breintjau a ſelir yn *Swpper yr Arglwydd.* Megis,

1. Ysbryd Gras, i'm hadnewyddu, ac i ddwyn ym mlaen fy Sancteiddiad i berffeithrwydd.

2. Trugaredd anfeidrol Duw, i lwyr-faddau fy holl bechodau; a Rhyddhâad tragywyddol oddi wrth felldith y Ddeddf, a meddiant Satan; ac oddi wrth ofn angau, a phoenau uffern.

3. Undeb diddattodol â Chriſt, a Chymmundeb â Duw trwyddo ef, ac yn ganlynol i hynny holl Ddonjau 'r Prynedigaeth; ſef, pob Bendithion ag ſydd yn angenrheidjol i Fywyd tragywyddol, ac i'r bywyd preſennol hefyd: y rhai oll a ſelir i mi yn *Swpper yr Arglwydd.* Eſcod. xx. 24. Rhuf. viii. 32. 1 Cor. iii. 22. Eph. iii. 8.

Cw. Beth a ddylech yſtyriaid am Werthfawrogrwydd Gwaed Criſt yn *Swpper yr Arglwydd?*

Att. Mi ddylwn yſtyriaid, mai trwy dywalltiad gwerthfawr Waed Criſt y mae holl Freintjau 'r Cyfammod yn dyfod yn rhâd, ac yn anheiddiannol i mi; fel y byddo 'n fawr gennyf am dano, ac y glynwyf wrtho byth. Am hynny mi wnâf fy ngorau, pan fyddwyf yn *Swpper yr Arglwydd*, i yſtyriaid,

1. Mai trwy werthfawr Waed Criſt y'm rhyddhäwyd oddi wrth Gondemniad, ac y'm cymmerwyd i fod yn un o'r Bobl ſydd werthfawr ac annwyl yngolwg Duw. *Eeſod.* xix. 5, 6. *Deut.* xxvi. 18, 19. 1 *Pedr* ii. 9, 10.

2. Mai trwy werthfawr Waed Criſt y pwrcaſwyd i mi yr holl Addewïdjon gwerthfawr, y Graſuſau gwerthfawr, a'r Cyffuron gwerthfawr i gŷd, ag y ſicrhëir i Bobl Duw yn y Cyfammod; ac yr etholwyd ni hefyd i fwynhâu y Brentjau hyn. 1 *Pedr* i. 2. *Eph.* i. 3, 4. 2 *Dim.* i. 9.

3. Mai trwy werthfawr Waed Criſt y glanhëir pechadurjaid aſlan, y cyſiawnhëir pechadurjaid euog, ac y ſancteiddir y rhai halogedig; y maddeuir y rhai a gondemnwyd, y bywhëir pechadurjaid meirwön, y prynir yn ôl y rhai a ymwerthaſant i gaethiwed, ac yr heddychir plant digoſaint â Duw. 1 *Joan* i. 7. *Rhuf.* v. 9. *Hebr.* xiii. 12. ix. 22. *Joan* vi. 53. *Zech.* ix. 11. *Col.* i. 20, 22.

4. Mai Rhinwedd Gwaed gwerthfawr Criſt ſy'n eirjol dros y rhai anghymmeradwy, yn goſtegu holl gyhuddiadau

Satan

Satan yn ein herbyn, yn puro 'n Cydwybod oddi wrth weithredoedd meirwön, ac yn rhoddi Jawn drosom i Dduw. *Hebr.* xii. 24. *Rhuf.* viii. 34. iii. 25.

5. Mai gwerthfawr Waed Crist sy 'n cannu gwisgoedd y Seintjau, yn gorchfygu profedigaethau 'r cythraul, ac yn selio i ni holl Fendithion y Testament Newydd. Y pethau hyn oll sydd i mi ddisgwil, ac i ddiolch am danunt, ac i lawenychu ynddunt, pan fyddwyf yn *Swpper yr Arglwydd.* Dad. vii. 14. xii. 11. Hebr. ix. 16, 17, 20. Esay lxiii. 7.

Cw. Pa lun y mae i chwi ddodi'ch Ffydd ar waith yn *Swpper yr Arglwydd?*

Att. Nid oes un Grâs yn swy desnyddiol, nac yn swy angenrheidjol, nac un Grâs yn swy peryglus i fod hebddo yn *Swpper yr Arglwydd*, nâ Ffydd. Am hynny, fel na fytho'r hyn sydd sywyd yn farwölaeth i mi,

1. Mi ddylwn ddodi fy Ffydd ar waith, i olygu tragywyddol bwys y Jechydwriaeth fawr a osodir ger fy mron yn *Swpper yr Arglwydd*; gan ddywedud ynnof fy hun, *Wele, nid peth dichwaith sy gennyf yn llaw; yr wyf ymma ynghylch matter bywyd tragywyddol; bywyd ac angau, bendith a melldith, sydd o'm blaen. Deffro, fy enaid, ymwisg â nerth, fel y byddot fyw, ac y liwyddech.* Hebr. xi. 1.

2. Mi ddylwn ddodi fy Ffydd ar waith, i weled Presennoldeb gogoneddus anweledig Duw yn *Swpper yr Arglwydd*, a'r Brenin gogoneddus yn dysod i mewn i weled y gwahoddedigjon, ac yn eistedd wrth y Bwrdd i'w croesawi a'u gwledda. Yna y dywedaf, *Wele, ymma dy Dduw! wele, ymma borth y nefoedd! Ymddyga'n barchus, O fy enaid: nesâ ger bron dy Arglwydd yn ddiamheuus, er annheilyngedydwyt; fel y caffech fyw'n dragywydd, er dy fod yn haeddu marw.*

3. Mi ddylwn ddodi fy Ffydd ar waith, i gredu 'n rymmus yr hyn oll a fynegir yn yr Ysgrythur am Ddioddefaint Crist drosof fi, fel pe fyddwn yn ei ymmyl ef pan y condemniwyd, y fflangellwyd, ac y croeshoeliwyd fy Arglwydd, ac yn gweled fel y gwnaed iddo yn fy achos i: ac yna pa beth a ddywedai gan fyndod! *O fy mhechod! O fy Mhrynwr! Mor fawr fy mai! Mor bryd fy mhardwn! Mor rhyfedd yw Cariad Crist! O fy enaid, nag anghofia fyth y weledigaeth hon!*

4. Mi ddylwn ddodi fy Ffydd ar waith, i dderbyn Criſt yn ewyllyſgar, ac i'w dderbyn ef yn gyflawn, yn Arglwydd a Gwaredwr, yn Frenin, yn Brophwyd ac Offeiriad, i gael ſy nyſgu, a'm gwaredu, a'm llywodraethu ganddo, ac i fod yn eiddo fi yn ei holl berthynaſau; ac i'm Henaid aller dywedud yn hyf, *Fy Arglwydd a'm Duw! Fy Anwylyd ſydd eiddo fi, a mi yn eiddo yntef. Dymma fy Anwylyd; dymma fy Nghyfaill, O ferched Jeruſalem. Mi wn i bwy y credais!*

5. Mi ddylwn, trwy Ffydd, daflu fy hun i lawr wrth Draed fy Arglwydd, i roddi fy hun iddo, ac i ymddiried ynddo ef yn unig am fy holl Jechydwriaeth; ac i ymbil arno, i nerthu fy Ffydd i briodoli ffrwythau ei Ddioddefaint attaf fy hun: fel y gallwyf ddywedud, er Cyſſur i'm Henaid, *Dymma Râs a Thrugaredd! dymma Faddeuant rhâd a Heddwch, a Breintjau mawrjon aneirif a brynodd efe i mi! dymma Waed gwerthfawr a dywalltodd efe drоſof fi! Wele, efe a'm carodd i, ac a roddes ei Hun a'i holl Ddonjau i mi!*

6. Fe ddylai fy Ffydd i edrych ar y Golygiadau rhyfeddol a oſodir ger fy mron yn *Swpper yr Arglwydd*: ſef, y drwg rhyfeddol ſydd yn fy Mhechod, na allai dim ond Gwaed Criſt fy nglanhâu oddi wrtho; Gwerthfawrogrwydd rhyfeddol fy Enaid, na allai dim ond Marwölaeth Criſt ei brynu; Godidowgrwydd rhyfeddol y Bendithion a gynhwyſir yn y Cyfammod Grâs, na allai dim ond Marwölaeth Criſt eu pwrcaſu; Cariad rhyfeddol Duw yn rhoddi Criſt, a Chariad rhyfeddol Criſt yn rhoddi ei hun i farw i'm cadw i yn fyw; Haeljoni rhyfeddol Duw a Chriſt, yn rhoi yn rhâd y Breintjau a brynwyd mor bryd i'r pechadurjaid annheilyngaf yn yr holl fyd a'u derbynio, ac yn eu cymmell arnunt. *Pa fodd, fy enaid, na ſynni o ryfeddod wrth yſtyriaid y pethau hyn!*

7. Mae mwy o waith i'm Ffydd i wneuthur yn fy nesâad at Griſt, nag allaf enwi'n neillduol: canys, *Bywyd* yr Enaid yw hi; ac ni ddichon y meirwon fwyta ac yfed Corph a Gwaed Criſt yn y *Swpper hon*: *Troed* yr Enaid yw hi, i'm dwyn at Griſt; ac ni's gallaf nesâu ger ei fron hebddi: *Llygad* yr Enaid yw hi; ac ni's gallaf weled Gwerthfawrogrwydd Criſt hebddi: *Llaw'r* Enaid yw hi, i dderbyn Criſt; a *Genau'r* Enaid, i ymborthi arno: y *Gwddf* yw hi, ag

fy'n

ſy'n uno ſy Enaid â Chriſt ſy Mhen; ſel na's gallaf ſod yn eiddo Criſt, na derbyn lles oddi wrtho, heb Ffydd. *Gal.* ii. 20. *Joan* i. 12. vi. 35, 55. *Eſay* xlv. 22. *Can.* iv. 4, 9.

Cw. Pa lun y dylech gofio Cariad Criſt yn *Swpper yr Arglwyad*?

Att. 1. Mi ddylwn gofio am Gariad Criſt, yn dyfod o Fynwes y Tâd, a Gogoniant y Nefoedd, i'r byd drwg hwn, *ynghyffelybiaeth cnawd pechadurus*, i dderbyn ammharch a dirmyg ar wyneb y ddaear er ſy mwyn i: ſef, *iddo ef, ac yntef yn gyfoethog, fyned er ein mwyn ni yn dlawd, fel y'n cyfoethogid ni trwy ei dlodi ef*; a daroſtwng ei Hun i ddioddef yn ddibaid, o'r preſeb lle ei ganed, i'r groes lle bu efe farw, o Gariad i'r fath bryf a fi!

2. Mi ddylwn gofio yn neillduol am Gariad Criſt, yn ei Ddioddefaint droſof yn niwedd ei Einioes. Pa fodd na lewyga ſy enaid ynnof, wrth feddwl, mor ufudd! mor addfwyn ac ammyneddgar! y dioddefodd ei ddala a'i rwymo, ei wawdio a'i fflangellu, a phoeri yn ei wyneb, a'i groeſhoelio, a dioddef Marwolaeth boenus, wradwyddus, a melldigedig y Groes, i dalu Jawn i Gyfiawnder Duw dros ſy anwiredd i! Fy Enaid a ddywaid, *Pa fodd, O pa fodd bellach y byddaſi fyw mewn pechod, pan welwyf Griſt yn marw droſof!*

3. Mi ddylwn gofio am Gariad Criſt, yn dyrchafu i'r Nefoedd i barotôi Trigfannau gogoneddus ar ein medr, fel y caem ni ein derbyn atto, i fod gyd ag ef: yr hwn hefyd ſy'n dwyn coffadwriaeth o'n honwau ni ger bron Duw, ac yn eirjol droſom, fel y'n cymmoder ni â Duw, ac y gwrandewir ein Gweddiau, y cyfiawnhëir ein perſonau, ac na chyfrifer ein pechodau i ni!

4. Mi ddylwn gofio am Gariad *tragywyddol* Criſt, ac am ei Gariad *gwaſtadol* bob munud tu ag attaf; ac yn enwedigol am ei Gariad *preſennol*, yn rhoddi ei Hun yn y *Swpper hon* yn Brynwr ac yn Briod i ni, ac yn ein gwledda ar ei Fwrdd ei hun; gan roeſawi a chymmell pawb a'i carant i gymmeryd attunt yn helaeth o'r Moethau nefol a ddarparodd efe i ni. *O fy enaid, pa beth a gofiaf, o's anghofiaf Gariad Criſt!*

5. Mi ddylwn gofio am Gariad Criſt, nid yn glauar nac yn yſgafn, eithr yn y modd y byddo ſy nghalon yn tyneru, a'm holl ferchiadau yn gwreſogi tu ag atto. *Mi ddymunaf*

ei

ei gofio, gyd â gofid calon am fy mhechodau, a fu'n achos o'i ofid ef: mi ddymunaf ei gofio, gan gredu a llawenychu yndda: mi ddymunaf ei gofio, gyd â Diolch, o Chariad, ac Ufudd-dod iddo: mi ddymunaf ei gofio, gyd â Zêl a Diofryd i wneuthur a dioddef beth bynnag y fynno; ac a ddymunaf, na fytho i mi ei anghofio na'i ddigio byth.

Cw. Pa lun y dylech ysbrydoli'r pethau a weloch yn *Swpper yr Arglwydd?*

Att. 1. Pan welwyf y Gweinidog yn gofod y Bara a'r Gwin mewn trefn, yn nechrau'r Ordinhâad; mi ddylwn yftyriaid yn ddiolchgar Ddajoni Duw, yn ei Fwriad a'i Arfaeth dragywyddol, yn appwyntio ei annwyl Fâb yn Fara'r Bywyd ac yn Win Diddanwch i'm Henaid. *A phan welzwyf hyn, ennynned fy nghalon o lawenydd yng Nghariad Duw.* 1 Pedr i. 18—20. Hebr. vii. 26.

2. Pan welwyf y Gweinidog, yn ôl Eſampl Criſt, yn cyſſegru'r Bara a'r Gwîn; yna cyffröed fy holl ymyſgaroedd, ac ymgynhyrfed fy ysbryd ynnof, wrth yſtyriaid Ewyllys da fy Nhâd nefol, yn cyſſegru ei Fâb i'r Swydd fendigedig o fod yn Waredwr pechadurjaid colledig, ac yn ei urddo yn gyflawn o bob Bendithion a Donjau perthynaſol i'r diben hymy: canys â chyflawnder anfeſurol y Duwdod yr enneiniwyd ef, i fod yn Aberth addas dros bechodau'r byd. *Joan* x. 36. xvii. 16.

3. Pan welwyf y Gweinidog yn torri'r Bara, ac yn tywallt y Gwîn; pa fodd na thyr fy nghalon, ac na thywallt fy llygaid ddagrau, wrth gofio Dioddefaint digyffelyb Criſt fy Arglwydd dros fy Jechydwriaeth i! Pan feddyliwyf ym mha fodd yr arehollwyd ef am fy nghamwedd i, ac y drylliwyd ef am fy anwiredd i, a pha waſgfaon celyd oedd arno oddi wrth y Tâd pan leſodd ar y groes, *Fy Nuw, fy Nuw, pa ham y'm gadewaiſt?* pa fodd na chyffröer fy ymyſgaroedd er ei fwyn! A phan yſtyriwyf, ym mha fodd y pwywyd yr hoelion trwy ei Draed a'i Ddwylaw; oni ddylai fwn y mwrthwylion fyned trwy fy nghalon, fel pe bawn yn ei glywëd!

4. Pan welwyf y Gweinidog yn rhoddi'r Bara a'r Gwîn i'r Cymmunwyr; mi ddylwn gwbl-gredu yn ddiamheuus, fod Duw yn rhoddi Criſt, a Chriſt yn rhoddi ei hun a'i holl Ddonjau i mi, ac i bob un ag fydd yn wir-ddymunol o

hono: ac yna pa Ddiolch a dalaf i'r Arglwydd am ei holl Ddonjau hyn! Canys, efe a yfodd o Gwppan Llidiowgrwydd yr Arglwydd, a gwaddod y Cwppan erchyll, i roddi Phiol y Jechydwriaeth hon yn fy llaw i. *Joan* iii. 16. 1 *Joan* iv. 9, 10.

5. Pan dderbyniwyf y Bara a'r Gwîn o law'r Gweinidog; mi ddylwn ddeffroi fy holl Enaid a'm Calon, i dderbyn Crift trwy Ffydd yn ei holl Swyddau, ynghyd â holl Ddonjau'r Prynedigaeth, ac Addewïdjon gwerthfawr yr Efengyl, a Chyffuron melufaidd y Cyfammod Gras; ac ymofod i wledda fy Enaid yn gyffurus arnunt: canys y mae Crift ei hun yn ein cymmell ni. —— Can. v. 1. *Bwytêwch, gyfeilljon; yfwch, ie yfwch yn helaeth, fy rhai annwyl.*

6. Pan fyddwyf yn bwyta'r Bara, ac yn yfed o'r Cwppan; mi ddylwn yftyriaid, mai Crift yw gwîr Ymborth, a Nerth, a Bywyd fy Enaid. Efe a feithrin y gweinjon, a jachâ'r cleifion, ac a'u ceidw yn fyw dros fyth: canys efe a ddywedodd, *Fy nghnawd i fydd fwyd yn wîr, a'm gwaed i fydd ddiod yn wir.* Ac am hynny y dywedaf wrth fy Enaid, Bwyta ac ŷf trwy Ffydd, ac ymnertha yng Nghrift yn erbyn dy holl elynjon; bwyta ac ŷf yn gyffurus yn yr Arglwydd, ac anghofia dy holl ofid; bwyta ac ŷf Gorph a Gwaed Crift yn ysbrydol, fel y byddech un ag ef, ac yntef yn un â thi; bwyta ac ŷf, fel y'th ddïwaller, ac na fyddo arnat newyn na fyched am fwynjant pechod byth mwyach.

Cw. Pa lun y mae i chwi addunedu eich hun yn gywir i Dduw yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Mi ddylwn yftyriaid, pan fyddwyf wrth Fwrdd yr Arglwydd, fy mod megis un yn dodi ei law ar y Llyfr, neu'n codi ei ddwylaw tua'r Nefoedd, i gymmeryd arnaf *Lw* ac *Addûned y Cyfammod* dros fyth o hynny allan; ac megis yn galw Duw, a Dynjon, a'r holl Angyljon, yn Dyftion o Gydfyniad gwirioneddus fy Nghalon ag Addûned y Cyfammod hwn. Ac am hynny mi ddylwn,

1. Edrych fod fy Addûned yn gywir am wîr Edifeirwch o'm holl bechodau; yn enwëdig, o'r pechodau oedd fwyaf annwyl ac arferol gennyf; ac na chaffont arglwyddiaethu arnaf mwyach: ac onid e, er i mi fwyta ac yfed yn y Sacrament, ni chaf fi fyth fwyta Bara yn Nheyrnas Dduw. Canys Crift a ddywaid, *Onid edifarhêwch, chwi oll a ddifethir.* Luc xiii. 3. xiv. 15. Rhuf. vi. 13, 14.

2. Mi

2. Mi ddylwn addunedu 'n gywir, i gilio oddi wrth brofedigaethau pechadurus a hudoljaeth y Byd, y Cnawd, a Satan, i rodio yn gyflawn yn *holl Ffyrdd* yr Arglwydd hyd eithaf fy ngallu; ac na ryfygwyf i eſgeuluſo neb mwy nâ 'i gilydd o 'r Ordinhadau crefyddol a 'r Dyledſwyddau y mae Duw yn orchymmyn: canys, o 's eſgeuluſaf neb o honunt, mi fyddaf yn ebrwydd ar fy ngwaeth, ac yn anffyddlon yn fy Addunedau, a 'm diwedd a fydd yn waeth nà 'm dechreuad. 2 *Pedr* ii. 20. *Neh.* x. 29.

3. Mi ddylwn addunedu 'n gywir, na fytho byth yn gywilydd gennyf i arddel Criſt a 'i Achos o herwydd gwawd a gogan enllibiog yr annuwjoljon, na thynnu 'n ôl a 'i wadu pan y 'm herlidier; o blegid na ddichon neb fod yn Ddiſcybl cywir i Griſt, heb fodloni dioddef droſto. *Math.* x. 38. xvi. 24. *Luc* ix. 23, 26. xiv. 26, 27, 33.

4. Mi ddylwn addunedu 'n gywir, na fytho i mi ymddiried ynnof fy hun, nac yn fy ngweithredoedd fy hun, nac yn fy nerth fy hun i weithredu 'r hyn ſy dda; eithr yn yr Arglwydd am Gymmorth ym mhob peth a berthyn i Dduwjoldeb, ac yn yr Arglwydd yn unig am fy holl Jechydwriaeth. *Diar.* xxviii. 26. *Sal.* cxv. 11. cxxv. 1. *Eſay* xxvi. 3, 4.

5. Mi ddylwn addunedu 'n gywir, i edrych am fod o honof ym mhob ffordd yn ddiddichell yn y Gwaith mawr hwn, ac na chiliwyf yn annuwjol oddi wrth fy Arglwydd yn dragywydd; rhag i mi dyngu 'n anudon wrth wneuthur Ammod: eithr dywedaf wrth yr Arglwydd, *Tyngais, a chyflawnaf, y cadwn farnedigaethau dy gyfiawnder.* —— *Nid oes neb ag y rydd ei law ar yr aradr, ac yn edrych ar y pethau ſydd o'i ôl, yn gymmwys i 'r nefoedd.* Hoſ. x. 4. Sal. cxix. 106. Luc ix. 62.

Cw. Pa lun y dylech roddi Diolch i Dduw yn *Swpper yr Arglwydd?*

Att. Mi ddylwn yſtyriaid gynnifer ag allwyf o 'r Bendithion y mae Duw yn rhoddi i mi yn y *Swpper hon*, i 'm deffrôi i ddiolch i Dduw am danunt.

1. Mi ddylwn ddiolch i Dduw, a 'i glodfori, am ei Gariad yn rhoddi ei Fâb, ei uniganedig Fab, yn Jawn dros gamwedd, ac yn Aberth holl-ddigonol dros bechod y fath brŷf truenus ac annheilwng ag ydwyf; yr hwn oeddwn, wrth râtur, yn blentyn digoſaint, ac yn elyn iddo. Yn ddiau ni

bu erioed y fath Gariad a hwn! —— Eſay lxiii. 7. *Coſiaf drugareddau'r Arglwydd, a moliant Duw, yn ôl yr hyn oll a roddodd Duw i ni.*

2. Mi ddylwn ddiolch i Dduw, a'i glodfori, am fod ei Babell ef a'i Eſengyl yn ein myſg, ac na chauwyd Drws ei Dŷ ef yn ſy erbyn; eithr fod i mi gennad i nesau at Fwrdd ſy Arglwydd, yn y *Swpper hon*, ym myſg ei Blant ef, yr hwn a haeddais filoedd o weithjau gael ſy nghau mewn carchar tragywyddol ym myſg y rhai damnedig. O na fedrai ſy Enaid glodfori'r Arglwydd heb beidio byth! —— Sal. lvi. 12. *Arnaſi, O Dduw! y mae dy addunedau: talaf i ti foliant.*

3. Mi ddylwn ddiolch i Dduw, a'i glodfori, am y Jechydwriaeth dragywyddol a'r holl Ddonjau annhraethol a berthyn iddi; y rhai ni phrynwyd ag arjan, nac aur, na phethau llygredig, ond â gwerthfawr Waed Criſt, a ſicrhëir i mi dan Sêl y Cyfammod yn y *Swpper hon.* —— Sal. ciii. 1, 2. *Fy enaid, bendithia'r Arglwydd; a chwbl ſydd ynnof, ei Enw ſanctaidd ef. Fy enaid, bendithia'r Arglwydd; ac nac anghofia ei holl ddonjau ef.*

4. Mi ddylwn ddiolch i Dduw, a'i glodfori, yn *Swpper yr Arglwydd*, am y Cyfnewidiad er gwell a wnaed yn ſy Nghyflwr a'm Stâd ysbrydol. Canys, lle'r oeddwn yn eſtron ac yn elyn i Dduw, a than ei Ddigoſaint ef; wele, Duw yn heddychu â mi, ac yn ſy nghymmeryd yn un o'i Bobl annwyl ei hun: lle'r oeddwn yn farw mewn pechod, a than farn marwölaeth dragywyddol; rhoddir i mi fywyd ac ymwared oddi wrth golledigaeth: lle'r oeddwn yn aflan, yn ffiaidd, a halogedig; fe'm golchwyd yng Ngwaed yr Oen, maddeuwyd ſy mhechod, dilëwyd ſy anwiredd; bygythiad a melldith y Ddeddf a dynnwyd ymmaith, a rhoddwyd i mi hawl yn holl Fendithion ac Addewidjon yr Eſengyl; ac yr wyfi'n gobeithio na fyddaf yn gaethwas i Satan a phechod byth mwy. *Rhuf.* viii. 32. v. 8. *Eph.* i. 3, 7. 1 *Pedr* i. 3, 4.

5. Mi ddylwn ddiolch i Dduw, a'i glodfori, nid mewn gair yn unig, eithr hefyd mewn gweithred a gwirionedd: y mae gan hynny yn ddyledus arnaf i gyfrannu yn ôl ſy ngallu at oſod Crefydd Criſt yn y blaen, ac i ddiwallu anghenion ſy mrodyr tlodion yn y byd, er ei fwyn ef, yn dyſtiolaeth o wirionedd ſy Niolchgarwch i Dduw. —— 2 Sam. xxiv. 24.

—*Nid*

— *Nid offrymmaf i'r Arglwydd boeth-offrymmau rhâd.* —— Deut. xvi. 16. — *Nac ymddangoſed neb o flaen yr Arglwydd yn waglaw.* Eccſod. xxiii. 16. Math. xxv. 40. Neh. viii. 10. Gal. vi. 10.

Cw. Pa beth ſydd i chwi wneuthur ar ôl bod yn *Swpper yr Arglwydd?*

Att. Y pedwar peth hyn.

1. Mi ddylwn yſtyriaid pa fath oedd fy Ymddygiad yn *Swpper yr Arglwydd.* Canys, nid yw gwaith y Cymmunwyr yn darfod ar ddiwedd yr Ordinhâad: eithr, megis y dylem holi ein hunain ym mlaen llaw, o's ewyllyſiem fod yn Gymmunwyr teilwng; felly hefyd y dylem yſtyriaid yn ôl llaw, pa fath y fu ein Hymddygiad yn y *Swpper hon*, o's chwennychwn gael Llês oddi wrthi.

2. Mi ddylwn gadw 'n ofalus yn fy nghôf y Rhwymedigaeth ſydd arnaf i ſefyll yn ffyddlon wrth y Cyfammod a wnaethum â Duw yn *Swpper yr Arglwydd*; a pharhâu yn ffyddlon ynddo hyd ddiwedd fy mywyd.

3. Mi ddylwn fyw yn gyſſurus trwy Ffydd ar y Diddanwch a gynhwyſir yn y Cyfammod Gras a ſelir yn *Swpper yr Arglwydd.*

4. Mi ddylwn ymddwyn yn addas i'r Cyfammod a ſeliais yno.

Cw. Pa ham y dylech yſtyriaid pa fath y fu eich Ymddygiad yn *Swpper yr Arglwydd?*

Att. 1. Am y gwelir yn fynych, fod dynjon anyſtyriol yn cymmeryd arnunt i gyfammodi â Duw, cyn iddunt dorri eu cytrundeb â phechod; ac yn diſgwil Maddeuant heb Edifeirwch, ac am Ran yng Nghriſt heb Ffydd, na dyfod erioed i Undeb ag ef; ac felly yn twyllo eu hunain, o eiſiau yſtyriaid.

2. Mae llygredigaeth nàtur, hudoljaeth y byd, a Satan hefyd, yn dyfod gyd â ni ger bron Duw; ag fy 'n peri achos yn rhy fynych i mi ymoſtwng yn alarus am waeledd cin Hymddygiad yn y Dyledſwyddau pennaf: ac ni fedrwn ni ymoſtwng, heb yſtyriaid. *Job* i.

3. Mae amryw yn gorphwys ar arferiad ffurfiol o'r Ordinhadau; gan ddyfod i *Swpper yr Arglwydd* yn gwſtymmol, ac yn myned yn llawen oddi wrthi, pan ddylent fod yn ſtriſt, wedi ſelio eu Barnedigaeth, ac nid eu Jechydwriaeth

aeth eu hunain; ac yn ymgaledu mewn rhyfyg, yn lle cynhyddu mewn Gras a gwir Obarth. *Luc* xiii. 26, 27.

4. Mae'n ddiyſtyrwch mawr o'r Ordinhaad arbennig hon, i ni fod yn anyſtyriol yn ei chylch: canys, yr ym yn arfer yſtyriaid pa lun y gwnaethom ym marchnadaeth a negeſeuon y byd hwn, a pha un a ydym yn llwyddo ynddunt; ac y mae Ordinhadau Duw yn fwy nâ phob peth.

5. Heb yſtyriaid e'n Hymddygiad yn *Swpper yr Arglwydd*, ni's gallwn fod yn wîr-ddiolchgar am y Lles a gawſom, na gwellhau'r beiau oedd ynnom, nac ymoſtwng yn edifeiriol o flaen Duw, i gael Maddeuant am danunt trwy'r Arglwydd Jeſu ein Harchoffeiriad, ag fy'n *cymmeryd ymmaith anwiredd pethau ſanctaidd ei bobl, er mawr gyſſur iddunt*, Eceſod. xxviii. 38. 1 Pedr ii. 5.

Gw. Beth a ddylech yſtyriaid ynghylch eich Ymddygiad yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Mi ddylwn yſtyriaid,

1. Pa un a ymoſodais yn oſtyngedig ac yn barchus ynghylch yr Ordinhaad barchedig hon, gan fwrw oferedd allan o'm calon, megis yngwydd Duw; gan yſtyriaid, fod pob peth yn noeth ac yn agored i'w Lygaid ef.

2. Pa un a nerthwyd fy Ffydd, i gredu i Griſt ddyfod oddi wrth Dduw i fodloni ei Gyfiawnder ef, mor ddiamheuol a phe buaſwn yn clywed y Dyſtiolaeth a roddodd Duw am dano, pan lefarodd o'r Nefoedd, gan ddywedud, *Hwn yw fy annwyl Fâb, yn yr hwn y'm bodlonwyd.*

3. Pa un a gredais yn gywir, i Griſt fy ngharu *i*, a rhoddi ei hun drofoſ *fi*; ac iddo gael ei ddyrchafu gan Dduw yn Dywyſog ac yn Jachawdwr, i roddi i *mi* Edifeirwch, a Maddeuant Pechodau.

4. Pa un a feddalhäwyd fy Nghalon, pan welais Griſt yn groeſhoeliedig o'm blaen; gan driſtâu yn wîr-edifeiriol am fy mhechodau, o blegid pa rai yr archollwyd ac y drylliwyd ef. *Pan edrychais ar yr hwn a wahanais*, a ddarfu i mi *alaru am dano fel un yn galaru am ei uniganedig, ac ymofidio fel un yn gofidio am ei gyntafanedig?*

5. Pa un a ymroais i edrych yn ofalus at fy Ymddygiad, wrth feddwl fod y Brenin yn dyfod i mewn i weled y Gwahoddedigion; rhag iddo fy ngweled i heb y Wiſg Briodas gennyf, a dywedud am dana, *Rhwymwch*

ei

ei draed a'i ddwylaw, a theflwch i'r tywyllwch eithaf; yno y bydd wylofain a rhincian dannedd.

6. Pa un a ddeffröwyd fy Enaid, a'm Calon, a'm holl Ysbrydoedd, i lefain, nid yn unig am Faddeuant, eithr hefyd am Râs i'm ſancteiddio; a pha un a lanwyd fy Enaid o hiraeth a ſyched am Griſt i fod yn Jachawdwr i mi.

7. Pa un a wreſogodd fy Nghàlon, tra'r oeddwn yn myfyrio am Ddioddefaint a Chariad Criſt; a pha un a dderbyniodd fy Enaid Ddiddanwch yn yr Ordinhàad; neu ynte, a ddychwelais yn fy ôl oddi wrth Ffynhonnau Jechydwriaeth à'm lleſtri yn weigjon.

8. Pa un a dywalltwyd Cariad Criſt yn fy Enaid, pan welais ef yn tywallt ei Waed ac yn marw drofof; a pha un a dderbyniais y fath Obaith cyſſurus am Drugaredd, ag y gynhyrfodd fy Nghàlon i fod yn wîr-ddiolchgar.

9. Pa un a weithiodd Cariad Criſt ynnof Dymmer gariadus tu ag at bob dŷn, gyd â Diofryd i ddangos fy Nghariad i bawb ym mhob ffordd ag allwyf, er mwyn Criſt a'm carodd i.

10. Pa un a gymmerais arnaf Ymroiad a Rhwymedigaeth newydd yn wirioneddus i gasâu fy holl bechodau, ac i rodio'n gydwybodus holl ddyddjau fy mywyd yn Ffyrdd Dduw.

Cw. Pa ham y dylech gofio'n ofalus y Rhwymedigaeth ſydd arnoch i ſefyll yn ffyddlon wrth y Cyfammod a wnaethoch â Duw yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. Mi ddylwn gofio'n ofalus y Rhwymedigaeth ſydd arnaf i ſefyll yn ffyddlon wrth y Cyfammod a wnaethum â Duw yn *Swpper yr Arglwydd.* Canys,

1. Y mae Trugareddau mawrjon a Bendithion gwerthfawr yn perthyn i'r rhai a gadwânt y Cyfammod: ac nid ydyw Duw yn torri Cyfammod à neb, nes iddunt hwy dorri ag ef yn gyntaf; ac yna maent yn fforfiettu'r cwbl. *Sal.* cjii. 17, 18. *Deut.* xxix. 9. 2 *Cron.* xv. 14, 15. *Eſay* lvi. 4, 5. *Sal.* l. 5. 2 *Joan* 8.

2. Mae Satan yn ymoſod yn ebrwydd, gyd à llid mawr a chynfigen, i geiſio tynnu ymmaith y rhai ſo yn cyfammodi â Duw, ac yn nesâu atto: ſe'n temtia yn awr yn ddigllonach nâ chynt, o herwydd fod Duw yn ein

cymmeryd yn Bobl iddo ei hun. Pan ddarfu i Grift gael ei erddel yn gyhoeddus, pan fedyddiwyd ef, yn Fab annwyl i Dduw; efe a gafodd, yn y man ar ôl hynny, ei demtio gan ddiafol yn yr anialwch. Pan oedd yr Apoſtolion newydd fod gyd â Chriſt yn y *Swpper ſanctaidd*, y mae efe yn dywedud wrthunt, fod Satan yn eu ceiſio hwynt i'w nithio fel gwenith. *Matth.* iii. 17. iv. 1. *Luc* xxii. 31. *Joan* xiii. 27.

3. Mae'r cyfryw a bechant yn rhyfygus yn ôl cyſammodi â Duw, yn archolli eu Cydwybod, yn triſthau'r Yſbryd Glân, yn dianrhydeddu Duw, ac yn dwyn mwy o Gabledd ar ei Enw ef. —— Rhuf. ii. 24. *Enw Duw o'ch plegid chwi a gablir ymhlith y cenhedloedd.* 2 Sam. xii. 14. Ezec. xxxvi. 20.

4. Mae Rhwymedigaeth y Cyfammod fel Llw, a'r troſedd o hono fel y pechod o dyngu'n anudon; ag ſydd yn cynnwys ynddo euogrwydd echrydus jawn. —— Hoſ. x. 4. *Dywedaſant eirjau, gan dyngu anudon wrth wneuthur ammod.* Num. xxx. 2. Sal. cxix. 106. Neh. x. 29.

5. Mae torri Cyfammod â Duw, a throi oddi wrtho yn ôl iddo ef ddangos Trugaredd a rhoddi Gwaredigaeth i ni, yn cyffrôi Digofaint Duw yn fwy yn ein herbyn nag o'r blaen. —— Joan v. 14. — *Wele, ti a wnaethpwyd yn jach: na phecha mwyach, rhag digwydd i ti beth a fydao gwaeth.* Deut. iv. 23, 24. vii. 9, 10. 2 Cron. xxxii. 25. 2 Joan 8, 9.

Cw. Ym mha lun y mae i chwi ſyw yn gyffurus trwy Ffydd ar y Diddanwch a gynhwyſir yn y Cyfammod, a ſicrhëir i chwi trwy Grift yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. 1. Mi ddylwn lawenychu yn waſtadol yn yr Arglwydd ſy Nuw, ſy, trwy'r Cyfammod hwn, yn Rhan ac yn Etifeddiaeth dragywyddol i mi. —— Sal. xvi. 5, 6. *Yr Arglwydd yw rhan fy etifeddiaeth i a'm phiol: ti a gynheli fy nghoelbren. Y llinynnau a ſyrthiodd i mi mewn lleoedd hyfryd; ie y mae i mi etifeddiaeth dêg.* Preg. ix. 7. Act ii. 46. Deut. xxvi. 17 – 19. Phil. iv. 4.

2. Pan fyddwyf yn llêſg ac yn brudd; at Dduw fy Jachawdwr cyfammodol, lle mae Ffynhonnau Jechydwriaeth, y dylwn fyned am Gyffur i'm hadſywjo. —— Eſay xii. 2, 3. *Wele, Duw yw fy jechydwriaeth: gobeithi-*

af, ac nid ofnaf : canys yr Arglwydd Ddiw yw fy nerth a'm cân ; efe hefyd yw fy jechydwriaeth. Am hynny mewn llawenydd y tynnwch ddwfr o ffynhonnau jechydwriaeth. Joan xv. 11. Can. ii. 3.

3. Pan fyddwyf mewn ing a gorthrymder, a than gafineb y byd ac erledigaeth ; y mae yng Nghrift, fy Nghyfammod, Ddiddanwch digonol i mi. —— 2 Cor. i. 3, 4, 5. *Bendigedig fyddo Duw a Thâd ein Harglwydd ni Jefu Grift, Tâd y trugareddau, a Duw pob diddanwch, yr hwn fydd yn ein diddanu ni yn ein holl orthrymder.* —— *O blegid fel y mae dioddefiadau Crift yn amlhâu ynnom ni ; felly trwy Grift y mae ein diddanwch ni hefyd yn amlhâu.* 2 Cor. iv. 8, 9. Sal. xxvii. 10.

4. Pan fyddwyf yn dioddef y croefau trymmaf, a'r colledion mwyaf ; mae yn Nuw'r Cyfammod Hyfrydwch a Chyffur ddigon. —— Hab. iii. 17, 18. *Er i'r ffigyfbren na flodeuo, ac na bydd ffrwyth ar y gwinwydd ; gwaith yr oliwydd a balla, a'r meufydd ni roddant fwyd ; torrer ymmaith y praidd o'r gorlan, ac ni bydd eidion yn eu beudai : etto mi a lawenychaf yn yr Arglwydd ; byddaf hyfryd yn Nuw fy jechydwriaeth.* 1 Sam. xxx. 6.

5. Pan ddêl i'm meddwl atgoffa echrydus o'r pechodau a wnaethum gynt, a'm Cydwybod yn dychrynu ; mae Gwaed y Cyfammod yn effeithjol i'm glanhâu oddi wrthunt. —— 1 Joan i. 7. — *Gwaed Jefu Grift ei Fâb ef fydd yn ein glanhâu ni oddi wrth bob pechodau.* Efay i. 18. Sal. ciii. 12, 13. Hebr. viii. 10, 12. ix. 12. Math. xxvi. 28.

6. Pan fyddwyf mewn gofid câlon o blegid fy llygredigaethau beunyddjol ; fy Nghyffur yw, fod Dioddefaint Crift, trwy'r Cyfammod, yn Jawn drofof. —— 1 Joan ii. 1, 2. *Fy mhlant bychain, y pethau hyn yr wyf yn eu hyfgrifennu atroch, fel na phechoch. Ac o phecha neb, y mae i mi Eirjolwr gyd â'r Tâd, Jefu Grift y cyfiawn. Ac efe yw'r jawn dros ein pechodau ni.* Rhuf. iii. 25. 2 Cor. v. 18, 19. 1 Joan iv. 10. Rhuf. vii. 24, 25. Sal. cxxx. 3, 4.

7. Pan fyddwyf yn digalonni o herwydd fy anallu i gyflawnu fy Nyledfwyddau, ac i orchfygu fy mhrofedigaethau ; mae'r Cyfammod yn ficrhâu i mi Nerth digon-

ol

ol yng Nghriſt. — 2 Cor. xii. 9. *Eſe a ddywedodd wrthyf, Digon i ti fy ngrâs i; canys fy nerth i a berffeithir mewn gwendid.* Phil. iv. 13. Sal. xxvii. 1. lxxxix. 19.

8. Pan fyddwyf yn ofni rhag i mi gilio yn ôl a fyrthio oddi wrth fy Mhroffes; mae Duw, yn y Cyfammod, yn rhoddi i mi ſicrwydd am barhâad, o'i Enau ei hun. —— Jer. xxxii. 40. *Mi a wnâf â hwynt gyfammod tragywyddol, na throaf oddi wrthunt, heb wneuthur lles iddunt; a mi a oſodaf fy ofn yn eu calonnau, fel na chilionr oddi wrthyf.* Phil. i. 6. Rhuf. viii. 38, 39. 1 Cor. x. 13.

9. Pan fyddwyf yn ofni dyfod ger bron Duw o herwydd fy annheilyngdod; ſe roddir Criſt yn y Cyfammod yn Gyfryngwr i mi, i'm cyfiawnhâu oddi wrth bob anwiredd. — 2 Cor. v. 21. *Yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth efe yn bechod droſom ni, fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef.* Act. xiii. 39. 1 Cor. i. 30.

10. Pan fyddwyf yn ammau Derbyniad fy Ngweddiau ger bron Duw, o herwydd eu gwaeledd; mae 'r Cyfammod yn ſicrhâu, fod Criſt fy Archoffeiriad, ag fy'n eirjol droſof, yn medru toſturio wrthyf: ac am hynny, na ddylwn ddigalonni i fyned at Dduw am Râs a Thrugaredd, er maint fy ngwendid. —— Hebr. iv. 15, 16. *Canys nid oes i ni archoffeiriad heb fedru cyd-ddioddef gyd â'n gwendid ni.* —— *Am hynny awn yn hyderus at orſeddfaingc y grâs, fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom râs yn gymmorth cyfamſerol.* Hebr. vii. 25. ix. 24. 1 Joan ii. 1. Rhuf. viii. 34.

11. Pan fyddwyf wedi'm taflu i lawr yn iſel ac yn driſt, o herwydd Cyſtuddiau a Cheryddon Duw a ſo arnaf; mae'r Cyfammod yn ſicrhâu, mai oddi wrth Gariad Duw y maent yn dyfod, er Lles i mi. —— Hebr. xii. 5, 6. — *Fy mâb, na ddirmyga gerydd yr Arglwydd, ac nac ymollwng pan y'th argyoedder ganddo. Canys y neb y mae yr Arglwydd yn ei garu, y mae yn ei geryddu; ac yn fflangellu pob mâb a dderbyuio.* 2 Cor. iv. 17. Job v. 17, 18. Sal. lxxxix. 31—33.

12. Pan fyddwyf yn brawychu rhag nïwaid oddi wrth y creadurjaid; mae Duw'r Cyfammod yn ſicrhâu, na chânt fy nrygu, ac y diogela Duw fi rhagddunt. —— Hoſ. ii. 18. *A'r dydd hwnnw y gwnâf ammod droſtunt ag aniſeiljaid y maes*

y maes, ac ag ebediaid y nefoedd, ac ag ymluſgiaid y ddaear: a'r bwa, a'r cleddyf, a'r rhyfel, a dorraf ymmaith o'r ddaear; a gwnâf iddunt orwedd yn ddiogel. Ezec. xxxiv. 5. Eſay xi. 6—11. Job v. 23.

13. Pan y cythryblir fy meddwl gan angen ac eiſiau, a modd i'm cynnal yn y byd; mae ſicrwydd yn y Cyfammod am bob peth a fo raid i mi wrtho. —— Math. vi. 32, 33. *Gwŷr eich Tad nefol fod arnoch eiſiau yr holl bethau hyn. Eithr yn gyntaf ceiſiwch deyrnas Ddûw, a'i gyfiawnder ef, a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg.* —— Phil. iv. 19. *A'm Duw i a gyflawna eich holl raid chwi, yn ôl ei olud ef mewn gogoniant yng Nghriſt Jeſu.* 1 Pedr v. 7. 1 Cor. iii. 22, 23. 2 Cor. vi. 10. Sal. xxxvii. 3. lxxxiv. 11.

14. Pan oſtynger fy enaid â gelyn, ar farwölaeth ac ymadawiad fy ngharennydd a'm cyteillj n annwyl; mae'r Cyfammod yn fy nghyſſuro, *fod fy Mhry wr yn fyw*; ac y câf weled fy nghyſeilljon yn fyw dracnefn, pan ddêl efe yn ei Ogoniant; ac na wrthod yr Arglwydd fi, pan fo'm trafau agoſaf yn fy ngadel. —— Sal. xxvii. 10. *Pan yw fy nhâd a'm mam yn fy ngwrthod, yr Arglwydd a'm derbyn.* —— 1 Theſſ. iv. 13, 14, 18. *Ni ewyllyſſwn, frodyr, i chwi fod heb wybod am y rhai a hunaſant, na thriſtaoch, megis eraill y rhai nid oes ganddunt obaith. Canys o's ydym yn credu farw Jeſu, a'i adgyfodi, felly y rhai a hunaſant yn yr Jeſu, a ddŵg Duw heſyd gyd ag ef. Am hynny diddenwch ei gilydd â'r ymadroddion hyn.* Job xix. 25.

15. Pan ddêl arnaf awr y brofedigaeth olaf, ſef ofn a gwaſgfaon angau i ſyrthio arnaf; fy unig Gyffur, a Chyffur digonol yw, i Griſt, Cyfryngwr y Cyfammod, dynnu ymmaith ei chwerwder, fel nad oes raid i mi ofni marwölaeth, o's credaf yng Nghriſt. —— 1 Cor. xv. 55—57. *O angau, pa le y mae dy gôlyn? O uffern, pa le mae dy ſuddugoliaeth? Côlyn angau yw pechod, a grym pechod yw'r gyfraith. Ond i Ddûw y byddo'r diolch, yr hwn ſydd yn rhoddi i ni ſuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Jeſu Griſt.* 2 Sam. xxiii. 5. Sal. xli. 3.

Cw. Chwi a attebaſoch bethau hoff i'r Cweſtiwn diweddaf o'r blaen; pa Ddefnydd a ddylech wneuthur o honunt?

Att. 1.

Att. 1. Mi ddylwn ryfeddu a moli Dajoni Duw, ag fy wedi tryſori'r fath bethau mawrjon yn y Cyfammod Gras, a ſelio i mi ſicrwydd am danunt.

2. Mi ddylwn doſturio wrth bawb ſy allan o'r Cyfammod; o blegid eu bod yn gwbl-amddifaid o bob gwir Gyſſur a Gobaith.

3. Mi ddylwn ſynnu, wrth feddwl i ſothach y byd, a mwynjant pechod, fy nghadw heb ran yn y Cyfammod hwn cyhyd.

4. Mi ddylwn geiſio fy Nghyſſur yn waſtadol ar bob achos yn Addewidjon y Cyfammod hwn trwy Grift; ac ym mhob adfyd i ddywedud fel *Dafydd*, *Er naâ yw fy nhŷ i felly gyd â Duw; etto cyfammod tragywyddol a wnaeth efe â mi, wedi ei luniaethu yn hollal ac yn ſicr: canys fy holl jechydzuriaeth a'm holl ddymuniad yw, er naâ yw yn peri iddo flaguro.* 2 Sam. xxiii. 5.

5. Mi ddylwn edrych yn ofalus am ymddwyn yn addas i'r Cyfammod hwn tra fyddwyf fyw yn y byd. —— Col. i. 10. *Fel y rhodioch yn addas i'r Arglwydd, i bob rhyngu bodd, gan ddwyn ffrwyth ym mhob gweithred âda, a chynhyddu yng ngwybodaeth am Dduw.* Col. ii. 6, 7. Eph. iv. 1. v. 15.

Cw. Ym mha lun y dylech ymddwyn yn addas i'r Cyfammod a ſeliaſoch yn *Swpper yr Arglwydd*?

Att. 1. Mae'n rhaid i mi rodio'n addas i'm perthynas â Duw trwy'r Cyfammod hwn: canys, mi a gymmerais *Dduw* yn Dâd i mi; a *Chriſt* yn Brynwr, yn Briod, ac yn Arglwydd; a'r *Yſbryd Glân* yn Hyfforddwr; *Gwaſanaeth Duw* ſel fy Ngofal pennaf; a *Gair Duw* yn Rheol o'm bywyd; a *Phlant Duw* ſel fy Mrodyr, a'm Cyfeilljon annwylaf, a'm Cydaelodau o Gorph Criſt. *Luc* ii. 49. *Joan* iv. 34. *Ruth* i. 16. 1 *Cor.* xii. 12, 13.

2. Mae'n rhaid i mi rodio'n addas i'r Cyfammod, trwy ymwrthod â phechod â'm holl egni; ſef, fy mhechodau annwylaf, a'm pechodau dirgelaf, a phob rhyw bechodau; a gwilio yn erbyn pob rhyw brofedigaethau a drwg gyſeillach a ſo'n tywys i bechod. Pan y'm temtier, mi ddylwn ddywedud ynnof fy hun, Oni fum yn *Swpper yr Arglwydd*? oni chymmerais Rwymedigaeth Llw ar fy Enaid ger bron Criſt, pan oeddwn gyd ag eſ ar y Bwrdd, na ddilynwn y

diafol

diafol, mwyach? oni thyngais i fod yn ffyddlon i'm Harglwydd? *Pa fodd gan hynny y gallaf wneuthur y maw-ddrwg hwn, a phechu yn erbyn Duw? Mi a agorais fy ngenau wrth yr Arglwydd, ac nid allaf gilio.* Barn. xi. 35. Hof. xiv. 8. Num. vi. 2—4. xv. 30, 31. Job xxxiv. 31, 32. Sal. i. 1. xxvi. 5. lxxxv. 8. cxix. 15, 128, 153. Math. v. 29, 30. xxvi. 41. 2 Dim. ii. 19, 22.

3. Mae'n rhaid i mi rodio'n addas i'r Cyfammod, trwy gyflawniad addas o Ddyledfwyddau Crefydd; ac ymroi o'm càlon, trwy Help Duw, eu cyflawnu'n gydwybodol trwy Ffydd yng Nghrift, gan ymdrechu yn ôl Cymmundeb ysbrydol â Duw ynddunt; a dyfal-warchod wrth Fwrdd fy Arglwydd, i gael fy adfywjo o'r newydd mor fynych ag allwyf, heb efgeuluſo un odfa o'm bôdd, na gadel fy lle yn Addoliad Duw i fod un amſer yn wâg, rhag i mi dynnu'n ôl, a cholli fy lle gyd â Chriſt yn ei Deyrnas. *Diar.* viii. 34. 2 *Joan* 8. *Luc* i. 6. *Joan* iv. 24. *Rhuf.* ii. 29. *Job* xxvii. 8, 10. 1 *Pedr* ii. 5. 1 *Joan* i. 3.

4. Mae'n rhaid i mi rodio'n addas i'r Cyfammod, trwy wneuthur fy ngwaith a'm galwedigaeth yn dda, o gydwybod i Dduw; gan fod yn oneſt, yn ddyfal, ac yn ddidwyll yn fy holl orchwyljon, ac yn gydwybodol ym mhob peth, y pethau lleiaf fel y pethau mwyaf, er Gogoniant i Dduw; a harddu fy Mhroffes, trwy Ymddygiad ſerchog, addfwyn, ammyneddgar, goſtyngedig a charedigol, doeth a graſol, tu ag at bob dŷn: canys, ni ddichon neb fod yn Griſtjon da, ag y fyddo'n ddrwg yn ei dymmer, yn ddiofal yn ei waith, yn ddiog yn ei alwâd, neu'n anffyddlon yn ei ſwydd a'i berthynaſau. *Hebr.* xiii. 18. *Luc* iii. 10—14. xvi. 10. *Rhuf.* xii. 10, 11. *Eph.* vi. 7, 8. *Col.* iv. 5, 6. *Dit.* ii. 2—10.

5. Mae'n rhaid i mi rodio'n addas i'r Cyfammod, trwy jawn-ddefnyddio'r Talentau a'r Bendithion a roddodd Duw i mi; ſef, fy Jechyd, fy Mywyd a'm Synhwyrau, fy Amſer, a'm Meddiannau, a'm Donjau, er Gogoniant i Dduw, yn ôl y ſefyllfa a'r galwâd a dremodd Duw i mi; gan ymroi i fyw i Griſt, megis un a brynwyd ganddo o feddiant fy ngelynjon, ac megis yr addunedais ac y feliais i fod yn ffyddlon iddo; fel y byddo gennyf gyfrif cyffurus i roddi ger ei fron yn ei Ymddangoſiad. *Math.* xxv. 21. 1 *Cor.* vi. 20. x. 33. *Rhuf.* xiv. 7—9. *Phil.* ii. 4. 1 *Pedr* iv. 10, 11.

6. Mae'n

6. Mae'n rhaid i mi rodio 'n addas i'r Cyfammod, trwy fyw'n heddychol a chariadus, hyd y mae ynnof, â phob dyn; ac mewn Undeb Barn jachuſol â'n Cydbroffeſwyr, na fyddwyf achos o anghydfod yn y tŷ a 'r gymmydogaeth, nac o rwygiad Cymmundeb, ac ymbleidio, yn y Gynnulleidfa lle byddwyf; canys ſe weddiodd Criſt yn deilwng yn erbyn hyn ychydig cyn ei farw: Efe a daerymbiliodd ſwy nag unwaith, *er i'w bobl fod oll yn un; megis y mae'r Tad ac yntef yn un, felly iddynt hwythau hefyd fod yn un ynddo ef.* Joan xvii. 20—23. —— Felly'r ymbiliodd Ysbryd Criſt yn yr Apoſtoljon; gan ddywedud yn amlwg, mai dynjon cnawdol ſy'n ymbleidio. —— 1 Cor. i. 10. *Yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, trwy Enw ein Harglwydd Jeſu Griſt, ddywedud o bawb o honoch chwi yr un peth, ac na byddo ymbleidio yn eich plith; eithr bod o honoch wedi eich cyfangyſſylldu yn yr un meddwl ac yn yr un farn.* —— 1 Cor. iii. 3. —*Canys tra fyddo yn eich plith chwi gymſigen, a chynnen, ac ymbleidio, onid ydych yn gnawdol, ac yn rhodio yn ddynol?* —— Phil. ii. 2. *Cyflawnwch fy llawenydd, fel y byddoch yn meddwl yr un peth, a'r un cariad gennych, yn gyttun, yn ſynnied yr un peth.* —— Phil. iii. 16. —*Cerddwn wrth yr un rhcol, ſyniwn yr un peth.* 1 Joan iv. 11. Gal. v. 19—21.

7. Mae'n rhaid i mi rodio 'n addas i'r Cyfammod, trwy gydffurfio ag Eſampl Criſt, a oſodwyd o'm blaen yn y Sacrament hwn. Mi ddylwn gadw ſy ngolwg yn ofalus ar Sanctaiddrwyd ac Addfwynder Criſt yn ei Fywyd, ac ar ei Ammynedd ef yn ei Farwölaeth, pan groeſhoeliwyd ef drooſof; fel y dyſgwyf ganddo groeſhoelio'r cnawd a'i holl chwantau pechadurus, a dioddef yn ammyneddus pa groeſau bynnag a chaſineb a gyfarfyddo â mi yn y byd hwn: Canys efe a ddywedodd, —— Joan xiii. 15. *Rhoddais eſampl i chwi, fel y gwnelech chwithau megis y gwneuthym i chwi.* —— 1 Pedr ii. 21—23. *Canys i hyn y'ch galwyd hefyd: o blegid Criſt yntef a ddioddefodd drooſom ni, gan adel i ni eſampl, fel y canlynech ei ôl ef: yr hwn ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau: Yr hwn pan ddaſe wyd, ni ddifenwödd drachefn; pan ddioddefodd, ni fygythiodd; eithr rhoddodd ar y neb ſydd yn barnu yn gyfiawn.* 1 Pedr iv. 1, 12—14. Gal. v. 24. Rhuf. vi. 5, 6.

8. Mae'n

8. Mae'n rhaid i mi rodio'n addas i'r Cyfammod, trwy atgofio'n fynych y Golygiadau a welais pan oeddwn gyd a Duw ar y Mynydd; ſef, pan oeddwn gyd ag ef wrth y Bwrdd, yn edrych ar fy Arglwydd Criſt yn groeſhoeliedig droſof. *Oni welais y Bremin yn ei degwch? oni welais ef yn gôch ei ddillad, megis un wedi ymdrybaeddu mewn gwaed?* Oni amlygwyd i mi ger bron fy wyneb Annwyldeb Cariad a Thoſturi Criſt; Drwg Pechod, a Thoſter Digofaint a Chyfiawnder Duw yn ei erbyn; Gwerthfawrogrwydd fy Enaid, a Mawredd y Jechydwriaeth honno a dalodd Criſt gymmaint Prîs am dani? fel y gallwyf yn waſtad yſtyriaid, *Pa fodd y diangaf, o's eſgeuluſaf jechydwriaeth gymmaint!* Hebr. ii. 3.

9. Mae'n rhaid i mi rodio'n addas i'r Cyfammod, trwy wneuthur eithaf fy ngorau i gynhyddu mewn Grâs. Gan i Dduw ſicrhâu i mi Addewïdjon y Cyfammod, a dyfod o hono i fod yn Dduw ac yn Dâd mi; *mi ddylwn ymlanhâu oddi wrth bob halogrwydd cnawd ac yſbryd, i berffeithio ſanctteiddrwydd yn ofn Duw; nid fel pe bawn eiſtoes wedi fy mherffeithio, eithr megis anghofio'r pethau ſy o'r tu cefn, ac ymeſtyn ar y pethau o'r tu blaen, i gyrchu ar y nôd*; ac nid i dynnu'n ôl, na gwrthgilio byth: fel y byddo gennyf Dyſtiolaeth dda am Ran yng Nghyfammod Duw, pan ddêl fy orjau diweddaf. *Barn.* xi. 35. 2 *Cor.* i. 12. vi. 18. vii. 1. *Eph.* iii. 12—14.

10. Mae'n rhaid i mi rodio'n addas i'r Cyfammod, trwy feithrin yn ofalus yn fy Enaid yr Archwaeth flaſus a'r Effaith a brofais o Gariad Duw a Chriſt yn *Swpper yr Arglwydd*; ac nid gadel y Dymmer dda honno, trwy fy eſgeuluſdra, a diflaſrwydd a ſynniad y cnawd, i ddiffoddi; megis un yn ennyn tân, a chwedyn' yn taflu dwfr arno. Dyſal atgoffa o Gariad fy Annwylyd, ac ymgyfeillachu'n feunyddjol a'r Arglwydd yn fy meddyliau rhwng Dyledſwyddau creſyddol a'i gîlydd, a'm dwg i fwynhâu Cymmundeb melus ag ef yn fy Enaid; ac i fyw, trwy Râs, yn addas i'r Cyfammod. 1 Cron. xxix. 18. *Arglwydd Dduw Abraham, Iſaac, ac Iſrael, ein tadau, cadw hyn yn dragywydd ym mryd meddyliau calon dy bobl; a pharotoa eu calon hwynt attat ti.* Amen.

DIWEDD Y BUMMED RAN.

CREEDD